

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

55/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

31/08/2021

Gwerthusiad o *Mwy na geiriau ...*, y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19

Teitl: Gwerthusiad o *Mwy na geiriau ...*, y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-2019

Is-deitl: Adroddiad Terfynol

Awduron: Stuart Harries a Nia Bryer



Adroddiad Ymchwil Llawn: Harries, S. a N. Bryer (2021). *Gwerthusiad o Mwy na geiriau..., y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 55/2021.
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-mwy-na-geiriau-adroddiad-terfynol>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o'r ffigurau	2
Geirfa 2	
1. Cyflwyniad	3
2. Ein Dull Gwerthuso	8
Canfyddiadau	19
3. Arweinyddiaeth Leol a Chenedlaethol, a Pholisi Cenedlaethol	19
4. Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil	29
5. Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu, Contractio a Chynllunio'r Gweithlu	41
6. Hybu ac Ymgysylltu	47
7. Addysg Broffesiynol	52
8. Y Gymraeg yn y Gweithle	60
9. Rheoleiddio ac Arolygu	69
10. Barn defnyddwyr gwasanaethau ar argaeledd gwasanaethau Cymraeg ...	74
11. Dylanwad COVID-19.....	87
12. Casgliadau	90
Cyfeiriadau	101
Atodiad 1: Cwestiynau cyfweld ar gyfer rhanddeiliaid.....	103
Atodiad 2: Cwestiynau cyfweld ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau	107
Atodiad 3: Cwestiynau cyfweld ar gyfer myfyrwyr	110

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1: Llinell amser y camau gwerthuso 4

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Cynnig Rhagweithiol	Darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano
ESR	Cofnod Staff Electronig
GCC	Gofal Cymdeithasol Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Logo Iaith Gwaith	Logo swigen siarad oren sy'n cynnwys y gair 'Cymraeg' - yn cael ei wisgo gan aelodau o staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg.
SAB	Sefydliad Addysg Bellach
Safonau	Safonau'r Gymraeg
SAU	Sefydliad Addysg Uwch
TG	Technoleg Gwybodaeth

1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd Arad ac Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o *Mwy na geiriau*, y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19. Nod y gwerthusiad oedd asesu sut, ac i ba raddau, y mae *Mwy na geiriau* wedi cyflawni ei nod i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ei nod hefyd oedd nodi'r rhwystrau a'r hwyluswyr i weithredu amcanion y strategaeth.

1.2 Roedd tri phrif gam i'r gwerthusiad. Y cam cyntaf oedd datblygu theori newid a oedd yn nodi ac yn mapio cyfres o lwybrau newid, yn arwain o gefnogi'r gwaith o gynnal gweithgareddau cychwynnol i gyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir. Amlinellodd y theori hefyd y rhagdybiaethau yr oedd y cynnydd ar hyd y llwybrau newid a nodwyd yn ddibynnol arnynt. Cafodd llwybr wedi'i fapio ei greu ar gyfer pob un o saith amcan *Mwy na geiriau*:

- Arweinyddiaeth Leol a Chenedlaethol, a Pholisi Cenedlaethol
- Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil
- Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu, Contractio a Chynllunio'r Gweithlu
- Hybu ac Ymgysylltu
- Addysg Broffesiynol
- Y Gymraeg yn y Gweithle
- Rheoleiddio ac Arolygu.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion mewn [adroddiad theori newid](#) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020 (Ymchwil Arad ac Ymchwil OB3, 2020).


1.3 Llywiodd y llwybrau yn y theori newid ail gam y gwerthusiad - datblygu'r fframwaith gwerthuso. Gan ddefnyddio'r theori newid fel sail, amlinellodd y fframwaith gwerthuso y cwestiynau ymchwil a'r broses casglu gwybodaeth gyfatebol oedd yn ofynnol i ddangos y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob un o saith amcan *Mwy na geiriau*.

1.4 Roedd y cwestiynau ymchwil a gynhwyswyd yn y fframwaith gwerthuso yn sail i drydydd cam y gwerthusiad - gwaith ymchwil a dadansoddi terfynol y

gwerthusiad. Yn ystod y cam hwn, casglwyd gwybodaeth am y cynnydd a wnaed, ynghyd â'r rhwystrau a'r hwyluswyr i weithredu saith amcan *Mwy na geiriau*. Cyflwynir canfyddiadau a chasgliadau'r cam olaf hwn yn y penodau sy'n dilyn.

- 1.5 Mae rhagor o wybodaeth am y dull a ddefnyddiwyd i gasglu a dadansoddi'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ym mhennod 2. Dangosir y llinell amser ar gyfer tri cham y gwerthusiad yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Llinell amser y camau gwerthuso



Cyd-destun strategol a deddfwriaethol

- 1.6 Ym mis Ionawr 2011, sefydlodd Uned Polisi'r Gymraeg yn adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru grŵp llywio annibynnol i ddatblygu fframwaith strategol gwreiddiol *Mwy na geiriau*. Cyhoeddwyd y fframwaith gwreiddiol ym mis Tachwedd 2012 a ddarparodd gyfeiriad strategol rhwng 2012 - 2015, gan amlinellu chwe amcan allweddol yr oedd yn ofynnol i sefydliadau weithio tuag atynt (Llywodraeth Cymru, 2012). Nod y [fframwaith strategol olynol](#) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016 oedd datblygu a pharhau â momentwm y fframwaith strategol cyntaf (Llywodraeth Cymru, 2016a). Un o elfennau craidd y ddwy fersiwn o'r fframwaith oedd y Cynnig Rhagweithiol, sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.

1.7 Datblygwyd nodau fframwaith olynol *Mwy na geiriau* o fewn cyd-destun ehangach o bolisïau, strategaethau a deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae llawer ohonynt wedi dylanwadu ar gynnydd tuag at gyflawni nodau'r fframwaith ac wedi cefnogi'r gwaith hwnnw. Roedd rhai o'r polisïau a'r meysydd deddfwriaethol hyn eisoes ar waith pan lansiwyd y fframwaith olynol, gan gynnwys:

- [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) (Llywodraeth Cymru, 2015b), sy'n cynnwys nifer o safonau sy'n cyfeirio at y Gymraeg gan gynnwys yr angen i 'gyfathrebu'n effeithiol' (safon 3.2)
- [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#), sy'n cynnwys diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu fel un o'i nodau llesiant
- [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#), sy'n amlinellu'r angen i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y ddeddf hon '[roi] sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith)'
- [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#), sy'n cynnwys ffocws ar wella ansawdd gwasanaethau a rhoi pŵer diwygiedig i Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

1.8 Cyflwynwyd polisïau a meysydd deddfwriaeth eraill ar ôl lansio'r fframwaith yn 2016, gan gynnwys:

- Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2017a)¹, sy'n nodi pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddatblygu Cymru sy'n iach, yn weithgar, yn unedig ac yn gysylltiedig
- y strategaeth [Cymraeg 2050](#) (Llywodraeth Cymru, 2017b), sy'n rhoi pwyslais ar y rhan y bydd *Mwy na geiriau* yn ei chwarae o ran cyflawni nod y strategaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

¹ Cyhoeddwyd [Rhaglen Lywodraethu](#) newydd ym mis Mehefin 2021

- yr [Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#) (Llywodraeth Cymru, 2018a), sy'n cyfeirio at 'wella'r profiad gofal i unigolion a theuluoedd, yn ogystal ag ansawdd y gofal'
- [Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) (Llywodraeth Cymru, 2018b), sy'n cynnwys egwyddor ddylunio 'bersonol' gyda 'gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffefrir'
- [Fframwaith Cynllunio GIG Cymru](#) (Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, 2018), sy'n cynnwys cyfeiriad at fframwaith olynol *Mwy na geiriau* ac yn nodi hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws gwasanaethau.

- 1.9 Y ddeddfwriaeth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar gefnogi nodau'r fframwaith o bosibl fu cyflwyno [Safonau'r Gymraeg](#) a osodwyd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru (comisiynwyr a darparwyr gofal cymdeithasol) yn 2016, ac ar fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG (darparwyr gofal iechyd) yng Nghymru yn 2019.
- 1.10 Mae ffurfio [Addysg a Gwella Iechyd Cymru \(AaGIC\)](#) yn 2018 hefyd wedi dylanwadu ar nodau *Mwy na geiriau*. Mae AaGIC yn gyfrifol am gryfhau'r ffocws ar y Gymraeg ym maes addysg, hyfforddiant a datblygu'r gweithlu yn y sector iechyd. Mae'r rhain hefyd yn feysydd ffocws craidd o fewn nodau ac amcanion *Mwy na geiriau*.
- 1.11 Ers lansio fframwaith olynol *Mwy na geiriau*, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar strategaeth lafar ar gyfer y Gymraeg - 'Llais y Gymraeg'. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar ddefnyddio iaith syml, glir a chadarnhaol, sy'n gyson, yn gynnes, yn gynhwysol ac yn gyfeillgar. Er ei bod yn fenter a gyflwynwyd yn ddiweddar, mae'n cael ei hystyried gan Lywodraeth Cymru fel datblygiad cadarnhaol, y dylid ei ddefnyddio wrth drafod y Gymraeg yn y sector iechyd a gofal.
- 1.12 Mae ein gwerthusiad wedi ystyried dylanwad y datblygiadau strategol, polisi a deddfwriaeth ehangach hyn wrth asesu'r cynnydd, neu'r diffyg cynnydd, a wnaed gan *Mwy na geiriau* o ran cyflawni ei saith amcan strategol. Mae'r datblygiadau hyn hefyd wedi cael eu hystyried wrth wneud argymhellion ar gyfeiriad *Mwy na geiriau* yn y dyfodol.

- 1.13 Yn 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [*Mwy na geiriau: cynllun gweithredu 2019-2020*](#) (Llywodraeth Cymru, 2019a). Nod y cynllun gweithredu oedd adeiladu ar y fframwaith olynol ac adlewyrchu newidiadau yn y cyd-destun gwleidyddol a deddfwriaethol a oedd wedi digwydd er lansio'r fframwaith yn 2016 nes bod canfyddiadau'r gwerthusiad yn hysbys er mwyn bod yn sail i'r ffordd ymlaen. O'r herwydd, mae cwmpas y gwerthusiad yn ymestyn y tu hwnt i'r fframwaith olynol tair blynedd (2016 i 2019) i ystyried gweithgareddau a chanlyniadau a gyflawnwyd hyd yma.
- 1.14 Mae amlinelliad manylach o'r cyd-destun strategol a deddfwriaethol a'r ymchwil ehangach sy'n gysylltiedig â *Mwy na geiriau* i'w gael yn yr adroddiad theori newid.

2. Ein Dull Gwerthuso

- 2.1 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd drwy gyfuniad o gyfweiliadau ansoddol ac ymchwil desg. Cynhaliwyd cyfweiliadau ag ystod eang o randdeiliaid, defnyddwyr gwasanaethau a myfyrwyr prifysgol a oedd wedi astudio, neu wrthi'n astudio, pynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd neu ofal cymdeithasol. Roedd yr ymchwil desg yn cynnwys adolygu strategaethau a dogfennau polisi a chynllunio cenedlaethol a lleol; sampl o ddogfennau ymchwil yn ymwneud â'r Gymraeg a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru; a data presennol a allai fod yn sail i asesiad o gynnydd.

Rhesymeg y dull gwerthuso

- 2.2 Roedd gwerthuso i ba raddau y mae *Mwy na geiriau* wedi cyflawni ei nodau yn cynnwys casglu ac adolygu swm sylweddol o dystiolaeth a gwybodaeth yn ymwneud ag ystod eang o brosesau a dylanwadau cymhleth a rhyng-gysylltiedig a nodwyd yn y theori newid. Yn ogystal â hynny, roedd y graddau yr oedd y prosesau a'r dylanwadau hyn yn cefnogi neu'n cyfyngu'r cynnydd tuag at gyflawni nodau *Mwy na geiriau* yn wahanol yn dibynnu ar y cyd-destun daearyddol, diwylliannol a pholisi yr oedd gwasanaethau'n gweithredu ynddo, yn ogystal â natur y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu.
- 2.3 Darparodd y cyfweiliadau ansoddol ddata manwl i asesu cynnydd yn erbyn pob un o amcanion *Mwy na geiriau* o sawl ongl wahanol. Roedd yr amcanion yr oedd pob cyfranogwr yn gallu darparu gwybodaeth amdanynt yn dibynnu ar ei rôl mewn perthynas â *Mwy na geiriau*, yn ogystal â ffactorau eraill, megis y sector neu'r lleoliad yr oeddent yn gweithio neu'n defnyddio gwasanaethau ynddo. Roedd cyfweiliadau ansoddol yn caniatáu dull hyblyg wedi'i deilwra o gasglu ystod o safbwyntiau.
- 2.4 Darparodd yr ymchwil desg wybodaeth atodol i asesu cynnydd yn erbyn nifer o amcanion y fframwaith olynol, ynghyd â throsolwg o'r cyd-destun polisi yr oedd nodau *Mwy na geiriau* yn cael eu cyflawni ynddo a dealltwriaeth bellach o anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Disgrifir y dulliau gwerthuso ymhellach yn yr adrannau sy'n dilyn.

Cyfweliadau â rhanddeiliaid

2.5 Cynhaliwyd cyfweliadau â rhanddeiliaid dros y tri cham gwerthuso a ddisgrifir yn adrannau 1.2–1.4. Cyfwelwyd â chyfanswm o 52 o rhanddeiliaid mewn 90 o gyfweliadau. Cyfwelwyd â rhai rhanddeiliaid fwy nag unwaith ar draws y tri cham gwerthuso. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys uwch gynrychiolwyr yn ogystal â (lle bo hynny'n bosibl) ymarferwyr rheng flaen² mewn ystod eang o sefydliadau ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol yng Nghymru. Er bod yr adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth o gyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod y cam olaf yn bennaf, mae hefyd yn ystyried unrhyw ddata perthnasol a ddarparwyd mewn cyfweliadau yn ystod dau gam cyntaf y gwerthusiad.

2.6 Roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyf weld yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yn y GIG yng Nghymru
- Y Coleg Nyrso Brenhinol
- Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)
- Awdurdodau lleol (Gwynedd, Torfaen a Chonwy)
- Gwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC)
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Gyrfa Cymru
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Colegau Cymru
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Bangor
- Llywodraeth Cymru
- Mind
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cymdeithas yr Iaith

² Gosododd cyfyngiadau COVID-19 rai cyfyngiadau ar gynnal cyfweliadau â staff rheng flaen mewn lleoliadau iechyd a gofal - gweler adran 2.10

- Fforwm *Mwy na geiriau* Gogledd Cymru.

- 2.7 Samplwyd y rhanddeiliaid hyn ar y sail eu bod yn gynrychiolwyr sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflawni polisïau a champau gweithredu sy'n uniongyrchol gysylltiedig â nodau ac amcanion *Mwy na geiriau*, neu gynrychiolwyr sefydliadau sydd â diddordeb mewn darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ar draws y sector.
- 2.8 Cafwyd cymorth gan Lywodraeth Cymru i adnabod unigolion yn y sefydliadau hyn i'w cyfweld. Mewn rhai achosion, argymhellodd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld unigolion eraill yr oeddent yn credu y gallent gynnig gwybodaeth berthnasol bellach i gefnogi canfyddiadau'r gwerthusiad. Ychwanegwyd yr unigolion hynny wedyn at y rhestr o rhanddeiliaid i'w cyfweld. Creodd y pandemig COVID-19 heriau o ran cael mynediad at rai rhanddeiliaid, yn enwedig y rhai a oedd yn gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen - gweler adran 2.21. Er mwyn deall y sefyllfa ar y rheng flaen, roedd y gwerthusiad felly'n dibynnu ar y rhai a oedd yn gweithio mewn rolau gweinyddol a / neu'n cefnogi gweithwyr rheng flaen ar draws y sector. Er gwaethaf yr heriau hyn, casglwyd ystod eang o dystiolaeth a barn.
- 2.9 Cynhaliwyd pob cyfweiliad â rhanddeiliaid yn unigol, ac eithrio dau³. Arweiniwyd y cyfweiliadau gan ganllaw cyfweiliadau (gweler atodiad 1) a oedd yn seiliedig ar gwestiynau ymchwil sydd yn y fframwaith gwerthuso (gweler adran 1.3-1.4). Cynhaliwyd y mwyafrif o gyfweiliadau dros y ffôn neu drwy blatfform galwadau fideo ar-lein. Cynigiwyd dewis o gyfweiliad Cymraeg neu Saesneg i bob cyfweilai - cynhaliwyd 79 yn Gymraeg ac 11 yn Saesneg.

Cyfweiliadau â defnyddwyr gwasanaethau

- 2.10 Cyfwelwyd â defnyddwyr gwasanaethau yn ystod cam olaf y gwerthusiad i gasglu eu barn a'u profiadau yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil canlynol a gynhwysir yn y fframwaith gwerthuso:

³ Cynhaliwyd trafodaeth grŵp gyda chynrychiolwyr Fforwm *Mwy na geiriau* Gogledd Cymru, ond cynhaliwyd cyfweiliadau ag unigolion o'r fforwm y tu allan i'r drafodaeth hon hefyd.

- I ba raddau y mae defnyddwyr gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn gallu cael gafael ar wasanaethau Cymraeg?
- A yw'r logo 'Iaith Gwaith' yn cael ei hyrwyddo a'i ddefnyddio ymhlith staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol?⁴ Os felly, a yw hyn yn annog ac yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i adnabod staff sy'n gallu siarad Cymraeg mewn lleoliadau ac ymgysylltu â nhw?
- A yw defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaeth yn Gymraeg neu Saesneg heb orfod gofyn yn benodol am hynny: h.y. a yw'r Cynnig Rhagweithiol ar gael iddynt?
- Sut mae argaeledd neu ddiffyg gwasanaethau Cymraeg wedi effeithio ar brofiadau yn ogystal â chanlyniadau iechyd a llesiant defnyddwyr gwasanaethau sy'n dymuno neu angen cael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg?

2.11 Recriwtiwyd unigolion ar gyfer cyfweiliadau drwy Merched y Wawr, Mudiad Meithrin ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg⁵. Dewiswyd y sefydliadau hyn yn bwrpasol gan eu bod yn sefydliadau Cymraeg sy'n gweithredu ar draws pob rhan o Gymru. Galluogodd hyn i'r gwerthusiad wahodd defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg ledled Cymru i gymryd rhan mewn cyfweiliad. Anogwyd y cyfweleion i ddarparu tystiolaeth yn seiliedig ar eu profiadau eu hunain a'u profiadau gyda'r rhai yr oeddent yn gofalu amdanynt. Felly sicrhodd y gymysgedd hon o sefydliadau fod y cyfweiliadau'n cofnodi gwahanol brofiadau ar draws ystod eang o oedrannau gan gynnwys, yn arbennig yn achos Mudiad Meithrin, plant ifanc.

2.12 Anfonwyd gwahoddiad dwyieithog i gymryd rhan mewn cyfweiliad at aelodau'r sefydliadau hyn drwy arweinwyr a chydlynwyr sefydliadau. Roedd y gwahoddiad yn cynnig cyfle i unrhyw un a oedd yn siarad Cymraeg ac a oedd wedi defnyddio unrhyw wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu ofal cymdeithasol yn ystod y tair blynedd diwethaf i gymryd rhan mewn cyfweiliad dros y ffôn i drafod i ba raddau yr oedd y

⁴ Swigen siarad oren yw logo Iaith Gwaith sy'n cynnwys y gair 'Cymraeg'. Mae'n cael ei wisgo gan aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg neu sy'n dysgu'r iaith.

⁵ Sefydliad gwirfoddol, anwleidyddol i fenywod yng Nghymru yw Merched y Wawr sy'n cynnal ei holl weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg; sefydliad gwirfoddol yw Mudiad Meithrin sy'n arbenigo mewn darpariaeth blyneddau cynnar Cymraeg; undeb capeli annibynnol Cymru yw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

gwasanaethau hyn ar gael iddynt yn Gymraeg. Dewiswyd y sampl o blith yr unigolion hynny a dderbyniodd y gwahoddiad ac a nododd eu bod ar gael ac yn fodlon cymryd rhan. Cytunodd cyfanswm o 23 o ddefnyddwyr gwasanaethau unigol i gael eu cyfweld. Roedd pedwar o'r rhain yn dod o Ganolbarth Cymru, pedwar o Ogledd Cymru, tri o dde-ddwyrain Cymru, tri o dde-orllewin Cymru a naw o ganol de Cymru.

- 2.13 Mae cyfyngiadau posibl i'r dull samplu hwn. Efallai fod recriwtio drwy'r sefydliadau hyn wedi eithrio rhai mathau o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg. Efallai hefyd fod gan y rhai a ddewisodd gymryd rhan farn neu bryderon arbennig o gryf am y materion hyn. Cyfyngiad arall yw nad oedd y dull samplu wedi canolbwyntio'n benodol ar gasglu barn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau o fewn grwpiau blaenoriaeth (e.e. pobl hŷn, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, pobl â dementia, a phlant a phobl ifanc). Y bwriad gwreiddiol oedd defnyddio dull astudiaeth achos a dethol sampl o ddefnyddwyr gwasanaethau drwy wasanaethau a sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau. Byddai'r dull hwn wedi galluogi targedu rhai grwpiau blaenoriaeth i'w samplu. Fodd bynnag, nid oedd y dull hwn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau COVID-19 - gweler adran 2.21. Serch hynny, mae'r dull samplu a fabwysiadwyd yn golygu bod y data'n adlewyrchu ystod o wahanol brofiadau, rhai ohonynt yn ymwneud ag un neu fwy o'r grwpiau blaenoriaeth - gan yr unigolion hynny eu hunain neu gan y rhai sy'n gofalu amdanynt.

Cyfweliadau â myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol

- 2.14 Cynhaliwyd cyfweliadau â myfyrwyr a oedd wedi dilyn, neu wrthi'n dilyn, eu holl gysiau neu ran o'u cyrsiau addysg bellach neu uwch mewn iechyd a / neu ofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.⁶ Canolbwyntiodd y cyfweliadau hyn ar y themâu canlynol yn seiliedig ar gwestiynau ymchwil a gynhwyswyd yn y fframwaith gwerthuso:

- y prif resymau pam mae myfyrwyr yn penderfynu astudio rhai pynciau neu'r holl bynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog

⁶ Nid oedd un myfyriwr a gafodd ei gyfweld wedi ymgymryd ag unrhyw ran o'i chwrs yn Gymraeg ond cyfrannodd at y cyfweliadau gan fod ei chwrs yn cynnwys sesiynau a gyflwynodd y Cynnig Rhagweithiol a phwysigrwyd darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg.

- a yw myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod y galw neu'r angen am sgiliau Cymraeg yn y sector ac felly perthnasedd dilyn cyrsiau Cymraeg / dwyieithog
- a yw cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol a ddilynir gan fyfyrwyr yng Nghymru yn cynnwys modiwlau neu sesiynau sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cynnig Rhagweithiol
- i ba raddau (os o gwbl) y mae myfyrwyr yn credu y bydd eu gallu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle yn gwella eu gallu i gael gwaith yn y maes o'r sector o'u dewis
- a yw myfyrwyr yn credu y bydd gallu defnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle yn gwella eu gallu i gynnig gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

2.15 Dewiswyd myfyrwyr o Brifysgolion Bangor a Chaerdydd gan mai'r rhain oedd y sefydliadau a oedd yn cynnig y rhan fwyaf o gyrsiau a modiwlau Cymraeg neu ddwyieithog yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Anfonwyd gwahoddiad dwyieithog i fyfyrwyr sy'n astudio'r cyrsiau hyn i gymryd rhan mewn cyfweiliad drwy arweinwyr addysg o fewn y sefydliadau hyn. Cytunodd sampl o chwe myfyriwr i gael eu cyfweld: pedwar o Brifysgol Bangor a dau o Brifysgol Caerdydd.

2.16 Cynhaliwyd cyfweiliadau â defnyddwyr gwasanaethau a myfyrwyr dros y ffôn neu, mewn rhai achosion, drwy blatfform galwadau fideo ar-lein gan ddilyn canllaw cyfweld - gweler Atodiadau 2 a 3. Cymerwyd nodiadau manwl yn ystod y cyfweiliadau a'u hadolygu fel rhan o ddadansoddiad y gwerthusiad - gweler adran 2.24.

Ymchwil desg - dogfennau polisi

2.17 Adolygodd y tîm gwerthuso dogfennau strategaeth, polisi a chynllunio yn y meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol cenedlaethol a lleol i asesu i ba raddau yr oeddent yn cyfeirio at y Gymraeg a / neu nodau *Mwy na geiriau*. Nodwyd i ba raddau yr oedd cyfeiriadau at *Mwy na geiriau* a / neu'r Cynnig Rhagweithiol wedi'i gynnwys yn y dogfennau hyn a'i ddefnyddio fel sail i ystyried i ba raddau yr oedd y Gymraeg ac amcanion *Mwy na geiriau* wedi'u hystyried wrth ddatblygu polisiâu cenedlaethol prif ffrwd a pholisiâu lleol.

2.18 Rhoddodd yr adolygiad o'r dogfennau hyn atebion i'r cwestiynau ymchwil canlynol a gynhwyswyd yn y fframwaith gwerthuso:

- I ba raddau yr oedd polisiâu a strategaethau iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol yn pwysleisio'r angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a / neu'r angen i gefnogi gallu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gymraeg?
- I ba raddau yr oedd y Gymraeg yn ffocws allweddol o fewn cynlluniau datblygu, hyfforddi, recriwtio a chyflenwi gwasanaethau lleol a gynhyrchwyd ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru?
- A oedd byrddau iechyd lleol yn cynhyrchu strategaethau sgiliau dwyieithog sy'n nodi anghenion iaith sefydliadau / lleoliadau unigol?
- A ddatblygwyd cynlluniau cyflenwi gwasanaethau yn seiliedig ar yr angen a'r galw a nodwyd am wasanaethau Cymraeg a'r sgiliau Cymraeg sydd ar gael mewn lleoliadau?

2.19 Roedd y dogfennau a adolygwyd yn cynnwys:

Polisiâu cenedlaethol

- [Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) (Llywodraeth Cymru, 2018b)
- [Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) (AaGIC a GCC, 2020)
- [Fframwaith Cynllunio GIG Cymru](#) (Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, 2019)
- [Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol i Ofal Cymdeithasol yng Nghymru: Ein Cynllun Strategol 2017 - 2022](#) (GCC, 2017)

Polisiâu lleol

- Cynlluniau Tymor Canolig Integredig byrddau iechyd
- Adroddiadau blynyddol byrddau iechyd
- Strategaethau sgiliau dwyieithog byrddau iechyd
- Strategaethau hyrwyddo'r Gymraeg awdurdodau lleol

- Adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol ar gyfer y sector gwasanaethau cymdeithasol
- Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ymchwil desg - dogfennau ymchwil a data

2.20 Adolygodd y tîm gwerthuso ddogfennau ymchwil diweddar a data y cyfeiriwyd atynt gan Lywodraeth Cymru ac a amlygwyd yn ystod cyfweiliadau â rhanddeiliaid. Defnyddiwyd canfyddiadau perthnasol a gyflwynwyd yn y dogfennau a'r data hyn fel tystiolaeth bellach i gefnogi a/neu herio rhai o'r canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o'r cyfweiliadau. Roedd y dogfennau ymchwil a'r data a adolygwyd yn cynnwys:

- Arolwg o'r Gymraeg mewn Gofal Iechyd (Is-grŵp Iechyd Cymdeithas yr Iaith, 2020)
- Arolwg o'r Gymraeg mewn meddygfeydd meddygon teulu (Llywodraeth Cymru, 2019b)
- Adroddiad gwerthuso o'r peilot Cymraeg Gwaith (GCC, 2019)
- Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol (Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2019)
- Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg (Cymdeithas Alzheimer a Chomisiynydd y Gymraeg, 2018)
- Rhetoric and Reality: A Critical Review of Language Policy and Legislation Governing Official Minority Language Use in Health and Social Care in Wales (Prys, Hodges a Roberts, 2021)
- Cyfraddau cwblhau gwybodaeth am sgiliau Cymraeg (siarad) ar gofnodion staff electronig (ESR) ar draws byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru⁷
- Data ar sgiliau Cymraeg Meddygon Teulu (Llywodraeth Cymru, 2019c)

⁷ Data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Cyfngiadau ein dull gweithredu

- 2.21 Sicrhaodd ein dull gweithredu o ran y cam hwn o'r gwerthusiad, fel yr amlinellwyd uchod, fod y canfyddiadau'n cael eu llywio gan farn a phrofiadau ystod o randdeiliaid. Roedd dull gwaith maes y gwerthusiad terfynol a gynlluniwyd yn wreiddiol yn cynnwys cyfres o ymweliadau ag astudiaeth achos i gynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb ag ymarferwyr rheng flaen yn ogystal â rheolwyr ac uwch swyddogion gweithredol mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol penodol. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r cyfyngiadau teithio a'r cyfyngiadau ar gyswllt cymdeithasol yn sgil COVID-19, a'r pwysau gwaith cynyddol ar ymarferwyr rheng flaen yn y lleoliadau hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig, penderfynwyd nad oedd y dull o gynnal ymweliadau ag astudiaeth achos yn ymarferol nac yn briodol.
- 2.22 Felly datblygwyd dull diwygiedig, gan ddisodli ymweliadau ag astudiaethau achos â chyfweiliadau ag ystod ehangach o randdeiliaid. Roedd y dull hwn yn cynnig cyfle i gael trosolwg da o'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion *Mwy na geiriau* ar draws y sector cyfan. Fodd bynnag, roedd hefyd yn gosod cyfyngiadau ar y wybodaeth y gellid ei chasglu'n uniongyrchol gan staff rheng flaen. Roedd y dull diwygiedig hefyd yn gosod rhai cyfyngiadau ar y dystiolaeth a gasglwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau - gweler adran 2.13.
- 2.23 Roedd natur gymhleth y sector sy'n cael ei adolygu a'r gwahanol lefelau cynnydd a gyflawnwyd, yn aml mewn pocedi yn hytrach nag ar yr un pryd ar draws ardaloedd a lleoliadau daearyddol, hefyd yn gosod cyfyngiadau ar y graddau y gallai'r gwerthusiad lunio canfyddiadau a oedd yn ymwneud â'r sector cyfan. Roedd cyfyngiad pellach yn cynnwys diffyg data gweinyddol cynhwysfawr a chyson neu ddata eraill i asesu unrhyw gynnydd a gyflawnwyd. Yn olaf, trafodir cyfyngiadau'r dull samplu yn yr adrannau uchod - gweler 2.13 yn benodol.

Dadansoddiad

- 2.24 Roedd dadansoddiad o'r data ansoddol a gasglwyd yn cynnwys cyfres o gamau. Yn gyntaf, cafodd y data eu codio'n thematig. Roedd y themâu hyn wedi'u seilio'n bennaf ar saith amcan *Mwy na geiriau* a'r cwestiynau

ymchwil sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith gwerthuso. Canolbwyntiodd y dadansoddiad ar nodi pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg o dan bob thema ynghyd â phatrymau neu dueddiadau a oedd yn ymwneud â mwy nag un thema. Adolygwyd y data wedi'i godio hefyd i weld y cysylltiad rhyngddynt â'r rhagdybiaethau a gynhwyswyd yn y theori newid. Yna amlygwyd y pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg o dan bob thema yn y broses adrodd, a lluniwyd enghreifftiau a dyfyniadau a gasglwyd yn ystod gwaith maes y gwerthusiad i ddangos y pwyntiau hyn ymhellach. Lluniwyd y casgliadau a'r argymhellion ar sail dehongliad y gwerthuswr o'r canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad.

Yr adroddiad

- 2.25 Mae'r penodau sy'n dilyn yn cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil y gwerthusiad. Mae'r rhan fwyaf o'r canfyddiadau yn seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cam gwerthuso terfynol, ond maent hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol a gasglwyd yn ystod y ddau gam gwerthuso blaenorol (gweler adrannau 1.2-1.4). Mae penodau 3 i 9 yn cyflwyno canfyddiadau sy'n ymwneud â phob un o'r saith amcan a gynhwysir yn fframwaith olynol *Mwy na geiriau*. Mae pob pennod yn dechrau gyda chyflwyniad byr i'r nodau strategol sy'n gysylltiedig â phob amcan ynghyd â rhagdybiaethau'r theori newid yr oedd cyflawni'r nodau hyn yn dibynnu arnynt (gweler adran 1.2). Yna mae pob pennod yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad sy'n ymwneud â'r nodau hyn cyn llunio casgliadau ynghylch i ba raddau y mae'r nodau hyn wedi'u cyflawni neu heb eu cyflawni, ac i ba raddau y mae'r rhagdybiaethau sy'n sail i'w llwyddiant yn ddilys.
- 2.26 Mae Pennod 10 yn cyflwyno canfyddiadau'n seiliedig ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac mae pennod 11 yn ystyried yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar y cynnydd tuag at gyflawni nodau strategol y fframwaith. Mae Pennod 12 yn cyflwyno ein casgliadau a'n hargymhellion ar gyfer y dyfodol.
- 2.27 Defnyddir enghreifftiau o wasanaethau neu ymarfer, profiadau defnyddwyr gwasanaethau a myfyrwyr, a dyfyniadau yn y penodau drwyddynt draw i ategu'r pwyntiau a wnaed. Er mwyn sicrhau bod yr unigolion a gafodd eu

cyfweld yn ystod y gwerthusiad yn ddienw, defnyddir y term cyffredinol 'rhanddeiliad' i gyfeirio at bawb a roddodd farn ac enghreifftiau.

Canfyddiadau

3. Arweinyddiaeth Leol a Chenedlaethol, a Pholisi Cenedlaethol

- 3.1 Noda amcan 1 fframwaith olynol *Mwy na geiriau* 'er mwyn cyflawni'r amcanion a nodir yn y fframwaith [*Mwy na geiriau*] hwn, rhaid dangos arweinyddiaeth ar draws pob lefel yn unrhyw sefydliad'.
- 3.2 Un o ragdybiaethau theori newid *Mwy na geiriau* yw y byddai arweinyddiaeth a ddangosir ar lefel Llywodraeth Cymru yn annog uwch bersonél ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol i ddangos arweinyddiaeth hefyd wrth hybu a chefnogi'r Gymraeg yn y meysydd gwasanaeth a'r lleoliadau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'r theori hefyd yn tybio y byddai arweinyddiaeth gadarnhaol ymhlith uwch bersonél yn annog agweddau, diwylliant ac ethos cadarnhaol pellach tuag at y Gymraeg ymhlith aelodau o staff sy'n gweithio yn y lleoliadau hyn.
- 3.3 Adolygodd y gwerthusiad i ba raddau y mae arweinyddiaeth gref o ran y Gymraeg a nodau *Mwy na geiriau* wedi cael eu dangos ar bob un o'r lefelau hyn.

Arweinyddiaeth ar lefel genedlaethol

- 3.4 Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod cefnogaeth arweinwyr i *Mwy na geiriau* ar lefel uwch yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn gryf pan lansiwyd y fframwaith gyntaf yn 2012, ond nid yw hyn wedi bod mor amlwg yn ystod gweinyddiaethau dilynol y llywodraeth. Cyfeiriodd y rhanddeiliaid at enghreifftiau yn y gorffennol o weinidogion ac uwch Aelodau'r Senedd yn hybu nodau'r strategaeth mewn datganiadau ac areithiau ysgrifenedig. Fodd bynnag, nododd y rhanddeiliaid, yn eu barn hwy, nad yw cyfeiriadau at y strategaeth a'r Cynnig Rhagweithiol wedi bod yn nodwedd mor amlwg mewn datganiadau swyddogol a gyflwynwyd gan Weinidogion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, roeddent yn teimlo y gallai rhai o'r enillion yn sgil codi ymwybyddiaeth o nodau'r strategaeth a'r angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar draws y sector fod wedi colli rhywfaint o fomentwm dros amser.

Arweinyddiaeth ar lefel uwch / lefel weithredol ar draws y sector

- 3.5 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod uwch swyddogion gweithredol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol wedi dangos graddau amrywiol o arweinyddiaeth wrth hybu'r defnydd o'r Gymraeg a nodau *Mwy na geiriau*. Ymhlith yr enghreifftiau a gynigiwyd gan rhanddeiliaid a oedd yn dangos yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn arweinyddiaeth dda roedd swyddogion gweithredol nad oeddent yn siarad Cymraeg ac uwch bersonél eraill ar draws y sector gofal iechyd yn dangos eu cefnogaeth i'r iaith drwy ddysgu Cymraeg (neu rywfaent o Gymraeg) a defnyddio'r sgiliau hyn wrth gyfarch neu gyflwyno eu hunain mewn cyfarfodydd a oedd yn gysylltiedig â gwaith. Roedd y rhanddeiliaid hyn o'r farn bod gweithredoedd fel y rhain, ar lefel uwch, yn arwydd ymarferol o gefnogaeth i'r Gymraeg a'r defnydd o'r iaith, sydd yn ei dro yn annog uwch gydweithwyr eraill i gefnogi a defnyddio'r iaith.

'Yn aml, mae swyddogion gweithredol ar lefel uwch nad ydynt yn siarad Cymraeg yn dechrau'r cyfarfodydd y maent yn eu cadeirio gyda chyfarchiad Cymraeg ac yn eu cloi gyda gair o ddiolch yn Gymraeg. Gweithred fach yw hon, ond mae'n un bwysig serch hynny sy'n dangos i bawb arall yn yr ystafell eu bod yn cydnabod ac yn cefnogi'r Gymraeg.' (rhanddeiliad)

- 3.6 Roedd rhanddeiliaid eraill, fodd bynnag, yn cwestiynu a yw enghreifftiau o gefnogaeth o'r fath yn mynd yn ddigon pell. Yn eu barn nhw, dylai arweinyddiaeth ar lefel uwch a lefel weithredol gynnwys *mwyr na geiriau* o anogaeth a chefnogaeth a dangos ymrwymiad clir hefyd i gyflawni nodau *Mwy na geiriau*. Roedd enghreifftiau o arweinyddiaeth o'r natur hon, yn eu barn nhw, yn llai amlwg ar draws y sector.

'Mae angen i Brif Weithredwyr wneud mwy na dim ond defnyddio ymadroddion fel 'bore da' er mwyn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws y sector.' (rhanddeiliad)

- 3.7 Nododd rhai rhanddeiliaid, er ei bod yn ymddangos bod cefnogaeth i'r Gymraeg wedi cynyddu ymhlith llawer o bersonél ar lefel uwch ar draws byrddau iechyd, mae rhai agweddau negyddol tuag at y Gymraeg yn parhau. Nodwyd bod rhai uwch bersonél ar draws y sector yn dal i gredu

bod cefnogi'r Gymraeg yn 'ddiangen' ac / neu'n 'wasttraff amser ac adnoddau.' Os bydd rhai uwch bersonél yn parhau i ddangos agweddau negyddol tuag at y Gymraeg, yna mae'n annhebygol y byddant yn dangos arweinyddiaeth gref o ran cefnogi darparu rhagor o wasanaethau Cymraeg yn eu lleoliadau. Nododd rhai rhanddeiliaid hefyd, fodd bynnag, fod agweddau negyddol fel y rhain wedi bod yn lleihau dros y blynyddoedd diwethaf a bod *Mwy na geiriau* a'i ffocws ar y Cynnig Rhagweithiol wedi cyfrannu at hyn.

- 3.8 Fel y nodir yn adran 3.2, mae'r theori newid yn rhagdybio y byddai arweinyddiaeth gref ymhlith uwch bersonél yn annog agweddau cadarnhaol a chefnogaeth bellach i wasanaethau Cymraeg ymhlith yr holl staff, ac felly rhoi arferion ar waith sy'n cefnogi nodau *Mwy na geiriau*.

- 3.9 Cyfeiriodd y rhanddeiliaid at lu o enghreifftiau o fentrau i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg sydd wedi'u rhoi ar waith mewn lleoliadau penodol ar draws y sector. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion mae'r mentrau hyn wedi cael eu hysgogi gan ymdrechion a brwdfrydedd swyddogion iaith Gymraeg unigol a / neu ymarferwyr eraill yn hytrach na dylanwad ac arweinyddiaeth uwch bersonél.

'Mae'r GIG yn frith o enghreifftiau o brosiectau arloesol sydd wedi'u cyflwyno mewn gwahanol leoliadau. Mae llawer o'r rhain yn dda iawn ac yn cael effaith gadarnhaol - ond maen nhw fel arfer yn dibynnu ar unigolyn yn ei hyrwyddo ac os bydd yr unigolyn hwnnw'n gadael yna daw'r cyfan i ben.' (rhanddeiliad)

- 3.10 Nid yw'n ymddangos bod llawer o enghreifftiau hyd yma o arferion ar draws y sector neu hyd yn oed ar draws y lleoliad sydd wedi cefnogi nodau *Mwy na geiriau* - yn enwedig yn y sector gofal iechyd. Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod llawer o'r prif rwystrau i weithredu gwasanaethau Cymraeg yn digwydd ar lefel cyfarwyddwyr gweithredol neu reolwyr, y cyfeirir atynt yn aml gan rhanddeiliaid fel yr 'haen ganol' mewn sefydliadau. Roedd rhai o'r rhwystrau hyn yn adlewyrchu'r heriau ymarferol sy'n wynebu rheolwyr haen ganol ac amharodwydd i fynd i'r afael â nhw (gweler adrannau 5.5-5.7), yn ogystal â diffyg dealltwriaeth o sut i weithredu nodau strategol sydd wedi'u cynnwys mewn dogfennau cynllunio cenedlaethol a lleol (gweler hefyd

adran 3.24). Fodd bynnag, roedd rhwystrau i weithredu ar yr haen ganol hefyd yn adlewyrchu, i ryw raddau o leiaf, ddiffyg arweinyddiaeth ar lefel uwch i ddylanwadu ar newid ar lefel weithredol, yn ogystal â diffyg arweinyddiaeth ar y lefel haen ganol ei hun.

- 3.11 Fodd bynnag, gwelwyd enghreifftiau o arweinyddiaeth a oedd wedi dylanwadu ar newidiadau. Er enghraifft, yn y sector gofal cymdeithasol, mae GCC wedi dangos arweinyddiaeth gref o ran cyflawni amcanion *Mwy na geiriau* drwy ei gynllun strategol a'i gamau gweithredu megis cynyddu sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu.

'Byddwn yn hyrwyddo anghenion iaith y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae gennym rôl arweiniol o gyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru, *'Mwy na geiriau'*. (GCC, 2017)

- 3.12 Mae rhai awdurdodau lleol hefyd wedi dangos arweinyddiaeth drwy gefnogi'r sefydliadau y maent yn eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal, i gyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol a gweithredu polisiau Cymraeg ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Sefydlodd un awdurdod lleol gwrs ar gyfer darparwyr gwasanaethau i'w cefnogi i gynhyrchu polisi iaith Gymraeg a oedd wedi'i deilwra i amgylchiadau eu lleoliad ac anghenion defnyddwyr eu gwasanaethau - gweler enghraifft 1.

- 3.13 Mae Cyngor Gwirfoddol mewn awdurdod lleol arall hefyd wedi darparu cymorth a chefnogaeth ymarferol i sefydliadau'r trydydd sector roi camau ar waith sy'n cefnogi nodau *Mwy na geiriau* wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ariennir gan y bwrdd iechyd a / neu'r awdurdod lleol - gweler enghraifft 2.

Enghraifft 1 - Cyngor Gwynedd

Roedd cytundebau presennol Cyngor Gwynedd gyda darparwyr gofal yn cynnwys cymalau penodol ar ofynion yn ymwneud â'r Gymraeg a'r angen i barchu anghenion iaith unigolion sy'n derbyn gwasanaeth.

Diweddarwyd cytundebau gofal cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio'r Cyngor i gynnwys cyfeiriad pendant at *Mwy na geiriau*. Er mwyn sicrhau bod egwyddorion *Mwy na geiriau* yn cael eu hadlewyrchu ym mhob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a gomisiynwyd ganddynt, gofynnodd y Cyngor i ddarparwyr greu eu polisiau Cymraeg eu hunain.

Er mwyn cefnogi darparwyr gyda hyn, creodd y Cyngor dempled polisi iaith y gallai darparwyr unigol ei ddefnyddio i ddatblygu eu rhai eu hunain. Sefydlwyd a chynhaliwyd cwrs i ddarparwyr a rheolwyr trydydd sector i egluro sut i gwblhau'r ddogfen ac i godi ymwybyddiaeth o'r Cynnig Rhagweithiol.

Yn ogystal â darparu templed ar gyfer polisi iaith Gymraeg sy'n cynnwys datganiadau o fwriad, roedd y ddogfen a'r hyfforddiant hefyd yn cynnwys rhestr wirio wedi'i theilwra y gallai darparwyr ei defnyddio i adolygu a ydynt yn gweithredu pob agwedd ar y polisi.

Enghraifft 2 - Y Prosiect Cynnig Rhagweithiol, PAVO

Caiff y prosiect Cynnig Rhagweithiol ym Mhowys ei gydlyn gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO), sy'n cefnogi'r trydydd sector yn y rhanbarth. Mae'r prosiect wedi darparu ystod o gefnogaeth i sefydliadau a ariennir gan y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol gyda'r bwriad o'u helpu i gyflawni Safonau'r Gymraeg yn well yn ogystal â nodau *Mwy na geiriau*. Mae'r gefnogaeth a gynigiwyd wedi cynnwys:

- cefnogi sefydliadau i ddrafftio cynllun gweithredu ar y Gymraeg
- cyfeirio sefydliadau at gymorth arbenigol ar gyfer y Gymraeg
- cefnogi sefydliadau gyda marchnata a chyfryngau cymdeithasol dwyieithog
- darparu hyfforddiant a gweminarau ar y Cynnig Rhagweithiol
- darparu gwasanaethau cyfieithu
- darparu cymorth arbenigol ar unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae'r prosiect hefyd wedi cynnig sawl adnodd ar-lein drwy ei wefan gan gynnwys pecyn gwybodaeth y Cynnig Rhagweithiol, templedi, cardiau fflach a llyfryn ymadroddion.

Yn ehangach mae'r prosiect wedi codi ymwybyddiaeth ar draws y sector o'r angen am y Cynnig Rhagweithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd wedi cefnogi'r trydydd sector i gydymffurfio'n well â deddfwriaeth a chanllawiau ar y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae rhai o'r cyflawniadau yr adroddwyd arnynt hyd yma wedi cynnwys:

- aelodau o staff o fewn sefydliadau yn mynd ati i ddysgu'r Gymraeg
- sefydliadau'n adrodd eu bod wedi delio ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn Gymraeg am y tro cyntaf
- mwy o ddefnydd o'r Gymraeg rhwng staff mewn rhai o swyddfeydd sefydliadau'r trydydd sector.

- 3.14 At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n dangos, er bod Llywodraeth Cymru wedi dangos arweinyddiaeth gref wrth gefnogi nodau *Mwy na geiriau* yn y gorffennol, mae'r lefel hon o arweinyddiaeth wedi bod yn llai amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd canfyddiad bod cefnogaeth i'r Gymraeg wedi cynyddu ymhlith llawer o'r uwch bersonél gweithredol ar draws y sector, ond nid ymysg pawb ohonynt. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r gefnogaeth hon hyd yma wedi esgor ar yr arweinyddiaeth sydd ei hangen ar y lefel hon i ddylanwadu ar y newidiadau sy'n ofynnol ledled y sector er mwyn cyflawni nodau ac amcanion *Mwy na geiriau*. Yn seiliedig ar y rhagdybiaeth yn y theori newid, rhaid i arweinyddiaeth gref gael ei gweld yn gyntaf ar lefel weinidogol yn Llywodraeth Cymru er mwyn annog yr arweinyddiaeth gref sydd ei hangen ar lefel uwch bersonél.

Dogfennau polisi a chynllunio

- 3.15 Mae fframwaith olynol *Mwy na geiriau* yn nodi y 'bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd yr holl ddogfennau polisi a strategaeth cenedlaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gwneud cyfeiriadau penodol at y cyfrifoldeb i ddarparu gofal a chymorth yn Gymraeg'.
- 3.16 Un o ragdybiaethau'r theori newid yw y dylai cynnwys ymrwymïadau i gefnogi a hybu amcanion *Mwy na geiriau* o fewn polisïau a strategaethau iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol annog personél ar lefel uwch i roi blaenoriaeth uchel i'r amcanion hyn o fewn eu gweithlu eu hunain a'r gwaith o gynllunio cyflenwi gwasanaethau.
- 3.17 Adolygodd y gwerthusiad i ba raddau y mae polisïau a chynlluniau cenedlaethol a lleol yn cyfeirio at y Gymraeg a nodau strategol *Mwy na geiriau*. Ymchwiliodd y gwerthusiad hefyd i'r graddau y mae cynlluniau sy'n ymwneud â chefnogi'r Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol wedi'u rhoi ar waith.

Polisïau cenedlaethol

- 3.18 Datgelodd adolygiad desg o ddogfennau polisi iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol fod cyfeiriadau at *Mwy na geiriau* wedi'u cynnwys yn '[Cymru Iachach](#)': [Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) (Llywodraeth Cymru, 2018) [Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) (AaGIC a GCC, 2020), a [Fframwaith Cynllunio GIG Cymru](#)

(Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, 2019). Mae [Cynllun Strategol GCC 2017 – 2022](#) hefyd yn cyfeirio at *Mwy na geiriau* a phwysigrwydd cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol (GCC, 2017).

Polisiâu lleol

- 3.19 Mae [Fframwaith Cynllunio GIG Cymru](#) yn cynnwys gofyniad i Gynlluniau Tymor Canolig Integredig byrddau iechyd lleol gael eu cynllunio a'u darparu yn unol â fframwaith strategol y Gymraeg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, 2019). Fodd bynnag, mae adolygiad o'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn dangos mai ychydig iawn o gyfeiriadau at *Mwy na geiriau* sydd yn y dogfennau hyn. Ymddengys nad yw'r Gymraeg yn gyffredinol wedi'i hymgorffori'n glir yn y dogfennau hyn y tu hwnt i gwpl o baragraffau mewn adrannau annibynnol, sy'n aml yn cyfeirio at waith sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chynlluniau ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Nid yw cyfeiriadau at y Gymraeg o fewn y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a adolygir yn tueddu i fod â blaenoriaethau, canlyniadau, allbynnau na dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) penodol ynghlwm wrthynt. Prin y cyfeirir yn y dogfennau hyn at fanteision y Cynnig Rhagweithiol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Lle ceir cyfeiriad at y Gymraeg yn y cynlluniau hyn, mae'n tueddu i fod yng nghyd-destun Mesur y Gymraeg (2011) a Safonau'r Gymraeg.
- 3.20 Mae rhai eithriadau. Er enghraifft, mae blaenoriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg wedi'u hintegreiddio yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac maent yn gysylltiedig â DPA. Yn ogystal, mae Cynlluniau Tymor Canolig Integredig Byrddau Iechyd Aneurin Bevan a Phowys yn cyfeirio'n benodol at yr angen i wneud y Cynnig Rhagweithiol yn rhan o'u cynlluniau cyflenwi gwasanaethau.
- 3.21 Un maes lle mae *Mwy na geiriau* a'r Cynnig Rhagweithiol i'w gweld yn fwy amlwg yw mewn strategaethau sgiliau dwyieithog a ddatblygwyd ar draws byrddau iechyd. Mae'r strategaethau hyn, sy'n nodi anghenion Cymraeg y boblogaeth a bylchau mewn sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu, wedi'u cynhyrchu o ganlyniad uniongyrchol i *Mwy na geiriau* ac maent ar waith ar draws yr holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. Dylai'r strategaethau sgiliau dwyieithog hyn hysbysu byrddau iechyd o'r angen, neu beidio, i

recruiwio staff sydd â sgiliau Cymraeg, cefnogi hyfforddiant Cymraeg ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Trafodir ymhellach i ba raddau y defnyddiwyd strategaethau sgiliau dwyieithog i lywio a chefnogi'r meysydd hyn yn adran 4.13 yn ogystal ag adrannau 5.3 i 5.4.

- 3.22 Ymddengys fod cyfeiriadau mwy amlwg at *Mwy na geiriau* a'r Cynnig Rhagweithiol hefyd mewn strategaethau a dogfennau cynllunio yn y maes gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol a gefnogir gan awdurdodau lleol nag yn y maes gofal iechyd. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol (20 o blith 22) yn cyfeirio at *Mwy na geiriau* yn eu strategaethau hirdymor ar gyfer hybu'r Gymraeg a'u hadroddiadau blynyddol. Mae'r mwyafrif hefyd yn cyfeirio at y Cynnig Rhagweithiol a phwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol - yn enwedig pobl oedrannus mewn cartrefi gofal.

Gweithredu polisïau

- 3.23 Nododd y rhanddeiliaid, er bod blaenoriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg a nodau *Mwy na geiriau* yn aml yn cael eu cynnwys mewn polisïau strategol ar draws y sector, mae gweithredu'r nodau a gynhwysir yn y cynlluniau hyn, yn y rhan fwyaf o achosion, wedi bod yn gyfyngedig.
- 3.24 Nodwyd rhesymau ymarferol ynghylch y ffaith mai cyfyngedig fu gweithrediad y cynlluniau hyn, a thrafodir y rhain yn fanylach ym mhennod 5. Fodd bynnag, awgrymodd rhai o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw mai un o'r rhesymau pam nad oedd mwy o gamau'r cynlluniau strategol wedi cael eu gweithredu hyd yma oedd nad oedd rheolwyr ac ymarferwyr bob amser yn siŵr sut i'w rhoi ar waith yn effeithiol.

'Mae gan bobl ar draws y sector fwy o ddealltwriaeth o pam mae'n bwysig cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a darparu'r Cynnig Rhagweithiol. Fodd bynnag, y cwestiwn y mae angen rhoi sylw iddo nawr yw "sut mae gwneud hyn?" '(Rhanddeiliad)

- 3.25 Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod *Mwy na geiriau* wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau bod polisïau cenedlaethol yn cyfeirio'n benodol at yr angen i ddarparu gofal a chymorth yn y Gymraeg. Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos bod y cyfeiriadau hyn mewn polisïau cenedlaethol, yn unol â'r rhagdybiaethau yn y theori newid, wedi arwain at gyfeiriadau tebyg

mewn llawer o strategaethau a dogfennau cynllunio leol. Er enghraifft, mae cyfeiriadau at y Gymraeg a nodau *Mwy na geiriau* wedi'u cynnwys mewn strategaethau ac iddynt fwy o ffocws fel strategaethau sgiliau dwyieithog, ond maent yn llai amlwg mewn dogfennau cyffredinol fel Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos y gallai fod angen cymorth pellach i alluogi ac annog lleoliadau ar draws y sector i weithredu'r nodau'n ymwneud â'r Gymraeg a gynhwysir yn y cynlluniau hyn.

4. Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil

4.1 Mae amcan 2 fframwaith olynol *Mwy na geiriau* yn canolbwyntio ar brosesau a systemau casglu data. Mae'r ddogfen fframwaith olynol yn nodi bod casglu tystiolaeth sy'n ymwneud ag anghenion Cymraeg y gymuned, y mae gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn ei gwasanaethu, a data ar lefel gallu'r gweithlu yn y Gymraeg ar draws y sector, yn hanfodol er mwyn cynllunio ar gyfer cyflenwi gwasanaethau a datblygu'r gweithlu yn effeithiol.

4.2 Awgryma'r theori newid y byddai datblygu a gweithredu systemau a phrosesau i gofnodi anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau a gallu'r holl weithlu presennol yn y Gymraeg, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod y data'n cael eu defnyddio'n effeithiol, yn galluogi gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i:

- baru'r sgiliau Cymraeg sydd ar gael yn y gweithlu presennol ag anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau
- gweithredu cynlluniau recriwtio a hyfforddiant iaith Gymraeg sy'n mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a phrinder sgiliau Cymraeg a nodwyd o fewn rhannau o'r gweithlu.

4.3 Adolygodd gwaith maes y gwerthusiad i ba raddau y defnyddiwyd systemau i gofnodi anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau a sgiliau Cymraeg y gweithlu.

Cofnodi anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau

4.4 Mae cyfran y boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg yn amrywio ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda'r cyfrannau uchaf yng Ngorllewin a gogledd-orllewin Cymru a'r cyfrannau isaf yn ne-ddwyrain Cymru. Nododd rhai rhanddeiliaid, yn eu barn a'u profiad hwy, fod llawer o unigolion sy'n gweithredu yn y sector iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn dal i fod dan yr argraff bod y galw am wasanaethau Cymraeg, ac felly'r angen i'w darparu, ond yn bodoli o fewn yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg eu hiaith yng Nghymru. Ym marn y rhanddeiliaid hyn, byddai gweithredu systemau o fewn yr holl wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru i gofnodi nifer y defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg, ac y mae'n

well ganddynt ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg neu y mae angen gwasanaethau Cymraeg arnynt, yn herio'r camsyniadau hyn. Nododd rhanddeiliaid y byddai hyn, yn ei dro, o bosibl yn ennyn mwy o gefnogaeth i'r angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar draws pob ardal.

'Mae llawer o bobl yn dal i feddwl mai dim ond mewn rhannau o Ogledd Cymru y mae'r Gymraeg yn cael ei siarad ac felly mai dim ond yno y mae angen gwasanaethau Cymraeg. Pe gallent weld faint o siaradwyr Cymraeg sy'n byw mewn rhannau eraill o Gymru, efallai y byddent yn sylweddoli'r angen am wasanaethau Cymraeg ym mhob rhan [o Gymru]'. (rhanddeiliad)

- 4.5 Cynigiwyd enghreifftiau gan swyddogion iaith Gymraeg, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid ehangach o'r prosesau sydd ar waith i gofnodi dewis iaith unigolion ar eu cyswllt cyntaf â'r gwasanaethau iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys blychau ticio ar ffurflenni asesu cychwynnol a ddefnyddir gan ymarferwyr gofal sylfaenol a staff derbyniadau mewn ysbytai i nodi defnyddwyr gwasanaethau y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt. Nodwyd enghreifftiau gan swyddogion iaith Gymraeg a rhai ymarferwyr gofal iechyd o sut y defnyddiwyd y data hyn, mewn rhai lleoliadau, i baru defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg ag ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg - gweler enghreifftiau 3 a 4.

Enghraifft 3 - Monitro'r galw am wasanaethau Cymraeg yng ngwasanaeth 111 GIG Cymru

Ar hyn o bryd mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn rhedeg gwasanaeth 111 y GIG a lansiwyd yn ddiweddar yng Nghymru - gwasanaeth gofal iechyd dros y ffôn nad yw'n wasanaeth brys yw hwn sy'n dod â gwasanaethau Galw Iechyd Cymru a meddygon y tu allan i oriau ynghyd.

Gall cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth 111 gael mynediad at y gwasanaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg yn cael eu trosglwyddo i driniwr galwadau sy'n siarad Cymraeg os oes un ar gael. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi monitro'r galwadau hyn i nodi faint o'r defnyddwyr gwasanaethau a ddewisodd ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg a lwyddodd i siarad a thriniwr galwadau a oedd yn medru'r Gymraeg. Dangosodd y data a gasglwyd fod y galw gan gleifion am wasanaethau Cymraeg yn fwy na'r cyflenwad mewn rhai ardaloedd. Ysgogodd hyn y gwasanaeth i recriwtio mwy o drinwyr galwadau sy'n gallu siarad Cymraeg mewn ardaloedd lle y nodwyd prinder.

Mae'r gwasanaeth 111 hefyd yn hysbysu'r gwasanaethau iechyd y maent yn cyfeirio ymholiadau atynt o ddewisiadau / anghenion Cymraeg unigolion. Fodd bynnag, cydnabu'r Ymddiriedolaeth nad yw hyn yn gwarantu y bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei atgyfeirio at weithiwr proffesiynol gofal iechyd sy'n gallu siarad Cymraeg.

Enghraifft 4 - Adnabod defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg mewn wardiau ysbyty

Nododd swyddogion iaith Gymraeg ym Myrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Betsi Cadwaladr a Chwm Taf Morgannwg enghreifftiau o wardiau ysbyty yn gofyn i gleifion y nodir eu bod yn siaradwyr Cymraeg pan gânt eu derbyn i'r ysbyty a fyddai'n well ganddynt siarad Cymraeg ag ymarferwyr. Caiff maged lliw oren ei ddyrannu i'r rhai sy'n nodi bod yn well ganddynt siarad Cymraeg a chaiff hwn ei arddangos ar hysbysfyrddau uwchben gwely'r claf, a / neu ar hysbysfwrdd y claf ychydig yn union y tu allan i'r ward.

Mae hyn wedi galluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gallu siarad Cymraeg i adnabod cleifion sy'n siarad Cymraeg yn gyflym a, lle bo hynny'n bosibl, darparu gwasanaethau gofal iechyd iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rheolwyr wardiau mewn rhai lleoliadau hefyd wedi defnyddio'r magedau i ddyrannu cleifion sy'n siarad Cymraeg i ofal ymarferwyr sy'n siarad yr iaith wrth gynllunio rotas staff.

Mae'r magedau wedi codi ymwybyddiaeth aelodau o staff di-Gymraeg bod yna gleifion ar y wardiau sy'n siarad Cymraeg ac y mae'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg. Nodwyd enghreifftiau hefyd o'r magedau yn annog rhai aelodau o staff â mymryn o Gymraeg i ddefnyddio cyfarchion Cymraeg fel 'shw' mae' a 'bore da' wrth gyfarch y cleifion hyn, sydd, ym marn y swyddogion iaith Gymraeg, wedi eu helpu i ddatblygu perthynas dda â chleifion, normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ar y wardiau, a gwneud i'r cleifion deimlo'n fwy cartrefol.

- 4.6 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn ei bod yn ymddangos bod enghreifftiau fel y rhain yn arferion cymharol syml a all gefnogi cyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol. Fodd bynnag, fel gyda sawl enghraifft arall a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, nid yw'n ymddangos bod yr arferion hyn wedi'u gweithredu'n eang nac yn seiliedig ar bolisiâu a gweithdrefnau safonol ym mhob lleoliad.
- 4.7 Mae yna hefyd enghreifftiau o systemau ar waith yn isadrannau gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i gofnodi anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau pan gânt eu hatgyfeirio.

Fodd bynnag, nid yw'n glir pa mor gyson y casglwyd data o'r math hwn ar draws holl ardaloedd awdurdodau lleol na sut y defnyddiwyd y data i lywio'r broses o gyflenwi gwasanaethau a dylanwadu ar hynny.

- 4.8 Yn ogystal ag anghysondebau yn lefel y wybodaeth a gasglwyd ledled Cymru mewn perthynas â dewisiadau ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas â'r Gymraeg, nododd y rhanddeiliaid fod y graddau y cafodd unrhyw wybodaeth a gasglwyd ei rhannu â gwasanaethau eraill, ar draws mwyafrif y lleoliadau gwasanaeth, hefyd wedi bod yn gyfyngedig ac yn anghyson. Mae hyn oherwydd bod diffyg systemau a phrosesau cydnaws ar waith i gofnodi a throsglwyddo'r data hyn (gweler hefyd adrannau 4.20–4.24). Mae hwn hefyd yn gasgliad yn adroddiad Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg (Cymdeithas Alzheimer a Chomisiynydd y Gymraeg, 2018), sy'n amlinellu, hyd yn oed pan gofnodwyd anghenion iaith a dewisiadau unigolion â dementia gan wasanaethau penodol, cododd anawsterau wrth drosglwyddo'r wybodaeth hon rhwng gwasanaethau.
- 4.9 Amlinellodd adroddiad gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2019 nad oedd digon o ddata ar gael yn ymwneud ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau mewn gofal sylfaenol o ran y Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg, 2019). Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhelliad bod angen i Lywodraeth Cymru, byrddau iechyd a chlystyrau gofal sylfaenol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu ffyrdd o asesu anghenion Cymraeg y boblogaeth a defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu gwasanaethau Cymraeg mewn gofal sylfaenol.

Cofnodi sgiliau Cymraeg y gweithlu

- 4.10 Mae fframwaith olynol *Mwy na geiriau* yn argymhell y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff a gyflogir gan fyrddau iechyd yng Nghymru gofnodi eu sgiliau Cymraeg ar y system Cofnod Staff Electronig (ESR). Mae'r ESR yn cofnodi ac yn mapio argaeledd sgiliau a chymwyseddau allweddol staff ar draws y GIG yng Nghymru a Lloegr, gan alluogi cyflogwyr a rheolwyr ar draws y sector i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn y ffordd orau.
- 4.11 Pan lansiwyd y strategaeth olynol gyntaf yn 2016, roedd nifer y gweithwyr a oedd wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar yr ESR yn amrywio ar draws byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru. Erbyn 2020, gwelwyd

cynnydd yng nghyfran y staff a oedd wedi cofnodi eu sgiliau a'u gallu yn y Gymraeg ar y system ar draws bron pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd - er bod lefel y cynnydd a gyflawnwyd yn amrywio (gweler tabl 1). Nododd y rhanddeiliaid fod y cynnydd hwn yn y sgiliau Cymraeg a gofnodwyd yn rhannol oherwydd yr adnoddau ar-lein ychwanegol sydd ar gael i alluogi staff i gofnodi eu sgiliau Cymraeg eu hunain. Fodd bynnag, byddai'n ymddangos o'r ymatebion a gynigiwyd gan rhanddeiliaid y gellid priodoli'r cynnydd i strategaeth *Mwy na geiriau* a chefnogaeth swyddogion iaith Gymraeg ar draws byrddau iechyd i annog a galluogi staff i gofrestru lefel eu sgiliau Cymraeg.

- 4.12 Fodd bynnag, erys heriau wrth gofnodi sgiliau Cymraeg rhai aelodau o staff. Er enghraifft, nododd y rhanddeiliaid fod mynediad y staff i gyfarpar TG wedi bod yn gyfyngedig mewn rhai meysydd gwasanaeth, gan atal ymarferwyr rhag cael mynediad at y system ESR i gofrestru eu sgiliau. Nododd y rhanddeiliaid hefyd fod staff sy'n siarad Cymraeg mewn rhai lleoliadau yn amharod i gofnodi eu sgiliau Cymraeg rhag ofn y dyrennir cyfrifoldebau ychwanegol iddynt megis cyfieithu gwybodaeth o'r Saesneg i'r Gymraeg.
- 4.13 Nododd y rhanddeiliaid rai enghreifftiau o ffyrdd y mae data ar sgiliau Cymraeg sydd ar gael ar ESR wedi cael eu defnyddio mewn rhai lleoliadau, megis wrth gynllunio rotas i geisio sicrhau bod rhywun â sgiliau Cymraeg ar gael yn ystod pob shift. Cynigiwyd enghreifftiau hefyd o ddata a gofnodwyd ar yr ESR yn cael eu cyflwyno mewn strategaethau sgiliau dwyieithog i amlinellu meysydd lle ceir prinder sgiliau Cymraeg. Nododd rhanddeiliad o un bwrdd iechyd fod amlinellu prinder sgiliau yn eu strategaeth sgiliau dwyieithog wedi arwain at recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i rai timau cyflenwi gwasanaethau.

Tabl 1: Cyfraddau cwblhau gwybodaeth am sgiliau Cymraeg (siarad) yn yr ESR

Bwrdd / Ymddiriedolaeth Iechyd	2018	2020
Aneurin Bevan	17%	34%
Betsi Cadwaladr	84%	89%
Hywel Dda	81%	93%
Powys	74%	69%
Bae Abertawe	14%	28%
Iechyd Cyhoeddus Cymru	39%	93%
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	94%	96%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nid oedd data ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg nac Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ansoddol a gasglwyd yn awgrymu cynnydd yn y gyfran sy'n cofnodi sgiliau Cymraeg ar y system ESR o fewn y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau hyn.

- 4.14 Cynigiwyd un enghraifft hefyd o fyrddau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i adnabod ymarferwyr arbenigol (e.e. therapyddion lleferydd ac iaith) a oedd â sgiliau Cymraeg gan ddefnyddio data ESR. Yna gwnaed trefniadau i rannu amser a sgiliau'r ymarferwyr hyn i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar draws mwy nag un ardal bwrdd iechyd.
- 4.15 Fodd bynnag, awgryma tystiolaeth o'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid nad yw'r defnydd o ddata ar sgiliau Cymraeg a gynhwysir ar yr ESR i lywio'r broses o gyflenwi gwasanaethau a chynllunio'r gweithlu wedi bod yn eang. Nododd rhai rhanddeiliaid y gallai hyn adlewyrchu'r ffaith bod cyflawnrwydd y data hyn wedi'i gyfyngu mewn sawl achos tan yn gymharol ddiweddar ac nad yw rheolwyr wedi cael digon o amser eto i'w defnyddio. Fodd bynnag, nodwyd y gallai hefyd adlewyrchu'r ffaith nad yw rheolwyr ac uwch bersonél ar draws lleoliadau gofal iechyd yn gwybod eto sut orau i ddefnyddio'r data

hyn, nac o bosibl yn gwerthfawrogi eu perthnasedd mewn perthynas â llywio eu cynlluniau gweithlu a'u cynlluniau cyflenwi gwasanaethau.

- 4.16 Mae llai o ddata ar gael ar sgiliau Cymraeg ymarferwyr gofal sylfaenol. Er enghraifft, mae [Datganiad ystadegol Llywodraeth Cymru](#) ar feddygon teulu yng Nghymru fel ar 30 Medi 2018 yn cynnwys nifer y meddygon teulu ar y Rhestr Perfformwyr Meddygol a restrodd y Gymraeg fel iaith yr oeddent yn gallu ei siarad (Llywodraeth Cymru, 2019c). Casglwyd y wybodaeth hon gan ddefnyddio cwestiwn 'Ie / Na' syml, yn hytrach na graddio lefel eu rhuglder. Hefyd, ni chafodd y wybodaeth ei diweddarw drwy gydol cyfnod y meddygon teulu yn y swydd ac nid oedd o reidrwydd yn cynrychioli nifer y meddygon teulu a oedd wedyn yn ymgynghori yn Gymraeg.
- 4.17 Darparodd arolwg gan Lywodraeth Cymru o'r Gymraeg mewn practisau meddygon teulu, a gynhaliwyd yn 2019, drosolwg o allu practisau meddygon teulu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac i ba raddau yr oeddent yn credu bod ganddynt ddigon o sgiliau Cymraeg o fewn eu gweithlu i ddiwallu anghenion eu cleifion (Llywodraeth Cymru, 2019b). Mae data'r arolwg hwn yn cynnig cipolwg o'r gallu cyffredinol yn y Gymraeg sydd ar gael ar draws lleoliadau meddygon teulu. Fodd bynnag, nid yw'n darparu'r data manwl sy'n ofynnol i ddatblygu cynlluniau datblygu'r gweithlu sydd â ffocws i fynd i'r afael â bylchau a phrinder sgiliau Cymraeg mewn meysydd penodol.
- 4.18 Yn y sector gofal cymdeithasol, mae data sy'n ymwneud ag argaeledd sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu a'r galw am wasanaethau Cymraeg hefyd i weld yn brin. Casglwyd peth data ar sgiliau Cymraeg ar lefel awdurdodau lleol yn ogystal ag ar lefel genedlaethol drwy Bartneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Unwaith eto, mae'r data hyn yn cynnig cipolwg o'r sgiliau Cymraeg sydd ar gael ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol ond nid yw'n cynnig y manylion sy'n ofynnol i gynhyrchu cynlluniau datblygu iaith Gymraeg wedi'u teilwra i feysydd penodol o'r gweithlu.
- 4.19 Yn gyffredinol, dengys y canfyddiadau fod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â bodloni amcan casglu data *Mwy na geiriau*, er bod bylchau sylweddol yn parhau yn y data - yn enwedig yn y sector gofal sylfaenol. Nid

yw'r prosesau casglu data cyfredol yn cyd-fynd â disgwyliad y theori newid y byddai systemau'n cael eu rhoi ar waith ar draws y sector i gofnodi data ar angen yn ymwneud â'r Gymraeg a'r gallu yn y Gymraeg sydd ar gael i ddiwallu'r angen hwn. At hynny, lle mae prosesau wedi bod ar waith i gofnodi dewis iaith neu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, prin yw'r dystiolaeth i awgrymu y gwnaed defnydd effeithiol helaeth ohonynt.

Systemau a llwyfannau digidol sy'n ofynnol i gofnodi a rhannu gwybodaeth

- 4.20 Adolygodd y gwerthusiad hefyd i ba raddau y mae'r Gymraeg wedi'i phrif ffrydio i'r llwyfannau a'r systemau digidol sydd ar waith ar draws y sector yng Nghymru.
- 4.21 Ar hyn o bryd mae'r cyfrifoldeb am ddarparu a chefnogi technoleg iechyd a gofal yng Nghymru yn gorwedd gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sy'n helpu GIG Cymru i gynhyrchu systemau gofal iechyd digidol gan gynnwys meddalwedd, caledwedd a chymorth ar ffurf rhannu gwybodaeth.⁸ Mae hyn yn cynnwys cyflwyno gwasanaethau ar-lein i gleifion a datblygu arbenigwyr TG mewn gofal iechyd.
- 4.22 Er bod cymorth i ddatblygu systemau penodol i Gymru ar gael gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, nododd y rhanddeiliaid, yn eu profiad hwy, mai dim ond yn Saesneg y gellir cael gafael ar bron yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau a gofnodir ar y systemau hyn. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn, hyd nes y bydd systemau'n cael eu datblygu sy'n galluogi ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gael mynediad at wybodaeth yn Gymraeg neu Saesneg, mai Saesneg fydd prif iaith neu iaith ddiofyn y sector o hyd.
- 4.23 Roedd y rhesymau a nodwyd gan rai rhanddeiliaid ynghylch pam nad oedd y Gymraeg wedi'i hintegreiddio ymhellach i llwyfannau a systemau digidol hyd yn hyn yn cynnwys y risg glinigol ganfyddedig sy'n gysylltiedig â data yn cael eu dehongli'n anghywir wrth gyfieithu o un iaith i'r llall. Hefyd, er bod rhai systemau sy'n benodol i Gymru ar gael, mae llawer o systemau (yn enwedig rhai'r GIG) wedi'u cynllunio ar lefel y DU gyfan; felly, mae

⁸ [Iechyd a Gofal Digidol Cymru](#) - Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn flaenorol a sefydlwyd yn 2010

ymgorffori swyddogaethau sydd ond yn berthnasol i anghenion dwyieithog Cymru yn cyflwyno heriau.

- 4.24 Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid eraill yn anghytuno â'r honiadau hyn ac roeddent o'r farn mai'r prif reswm pam nad yw'r Gymraeg wedi'i hymgorffori'n llawn mewn llwyfannau a systemau digidol ar draws y sector yng Nghymru yw am nad yw'n rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru ac eraill wedi'i ystyried wrth gomisiynu eu datblygiad a chynllunio eu gweithrediad. Yn hynny o beth, ym marn y rhanddeiliaid hyn, mae'r Gymraeg wedi'i hystyried yn 'atodiad' i systemau ar ôl iddynt gael eu datblygu yn lle sicrhau bod systemau'n ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cysylltu â'r gofynion arweinyddiaeth sy'n gysylltiedig ag Amcan 1 y fframwaith a amlinellir ym mhennod 3.

'Pan ofynnwch i'r [rhai] sy'n gyfrifol am systemau digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, pam nad oes systemau digidol ar gael yn Gymraeg - mae'n amlwg nad ydyn nhw'n deall dwyieithrwydd na'r angen am systemau Cymraeg ac nid ydyn nhw hyd yn oed wedi ystyried gwneud darpariaeth ar gyfer yr iaith [Gymraeg] mewn systemau digidol.' (rhanddeiliad)

Ymchwil

- 4.25 Noda amcan 2 dogfen fframwaith olynol *Mwy na geiriau* y dylid cynnal ymchwil mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i gryfhau'r sylfaen o dystiolaeth sy'n dangos y cysylltiad rhwng canlyniadau gofal o safon uchel a gofal sy'n sensitif i anghenion iaith pobl. Dylai'r ymchwil hefyd weithio i nodi ymyriadau effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau.
- 4.26 Un o ragdybiaethau'r theori newid yw, er mwyn i ymchwil ddylanwadu ar ymyriadau'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau sy'n cefnogi'r Cynnig Rhagweithiol, byddai angen rhannu'r canfyddiadau'n eang ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Felly adolygodd y gwerthusiad y math o ymchwil a gynhyrchwyd hyd yma ac i ba raddau y mae'r ymchwil wedi'i ddefnyddio i lywio cynlluniau cyflenwi gwasanaethau.
- 4.27 Fel rhan o'r ymchwil desg ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, cyfeiriwyd y gwerthusiad tuag at ystod eang o ddogfennau ymchwil yn ymwneud â

darparwyr gwasanaethau yn diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau canlyniadau gofal ac iechyd cadarnhaol (gweler adran 2.17 am restr o'r dogfennau ymchwil a nodwyd). Mae llawer o'r dogfennau hyn yn cynnwys argymhellion penodol ar yr angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i grwpiau sy'n agored i niwed. Rhoddwyd sylw arbennig er enghraifft ar yr angen i fynd i'r afael ag anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg â dementia.

- 4.28 Mae'r dogfennau ymchwil hyn wedi cadarnhau'r angen am y Cynnig Rhagweithiol a phwysigrwydd darparu'r cynnig hwn. Mewn rhai achosion, maent hefyd wedi amlinellu bylchau mewn gwasanaethau Cymraeg ac argymhellion ar sut i fynd i'r afael â nhw: er enghraifft, adroddiad Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg (Cymdeithas Alzheimer a Chomisiynydd y Gymraeg, 2018). Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod ymchwil o'r natur hon wedi bod yn bwysig o ran dylanwadu ar bolisi a'i lywio yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ymhlith ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach o bwysigrwydd darparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r rhai sydd eu hangen.
- 4.29 Nododd y rhanddeiliaid, er bod y dogfennau ymchwil y cyfeirir atynt uchod yn dangos tystiolaeth o bwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg, prin yw'r ymchwil ar ymyriadau effeithiol yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod y rhan fwyaf o bobl bellach yn deall pam mae cyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol yn bwysig, ond mae angen tystiolaeth ac arweiniad o hyd ar sut i'w gyflawni'n effeithiol.
- 4.30 Mae enghreifftiau o arferion sydd wedi gweithio'n dda yn bodoli, ac mae llawer o'r rhain wedi'u dogfennu. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn nad yw'r enghreifftiau hyn wedi'u rhannu mor eang ag y gallent fod. Mae hyn, yn eu barn nhw, wedi cyfyngu ar i ba raddau y gellid efelychu'r arferion hyn mewn mannau eraill ar draws y sector. Nododd rhai rhanddeiliaid y dylid dathlu, cymeradwyo a rhannu arferion da ymhellach mewn perthynas â chyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol.
- 4.31 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir uchod yn amlinellu bod ymchwil sy'n nodi'r angen am ddarpariaeth Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol ar gael, ac yn unol â rhagdybiaeth y theori newid, wedi bod ar gael yn eang ar draws y sector. Dengys y canfyddiadau hefyd fod yr ymchwil hwn wedi'i

ddefnyddio'n effeithiol i ddylanwadu ar bolisi iaith Gymraeg ar draws y sector. Fodd bynnag, er mwyn i'r ymchwil hwn ddylanwadu ar newidiadau ymarferol o ran y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, mae angen tystiolaeth ynghylch ymyriadau effeithiol o ran cyflenwi gwasanaethau ac enghreifftiau o arfer da i gyd-fynd â hynny.

5. Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu, Contractio a Chynllunio'r Gweithlu

5.1 Dengys amcan 3 o fframwaith olynol *Mwy na geiriau* fod gan gynllunio'r gweithlu a chynllunio gwasanaethau ran ganolog i'w chwarae o ran cynyddu gallu'r gweithlu yn y Gymraeg. Mae'r theori newid yn tybio y byddai nodau a chymau gweithredu sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y cynlluniau hyn yn cael eu cefnogi a'u gweithredu.

5.2 Adolygodd y gwerthusiad i ba raddau y mae cynlluniau'r gweithlu a chyflenwi gwasanaethau yn cynnwys nodau sy'n ymwneud â chynyddu gallu'r gweithlu yn y Gymraeg a chynyddu'r modd y darperir gwasanaethau Cymraeg. Adolygodd y gwerthusiad hefyd i ba raddau y mae'r nodau hyn wedi'u rhoi ar waith.

Cynlluniau cyflenwi gwasanaethau lleol a datblygu'r gweithlu

5.3 Amlinellir i ba raddau y mae'r Gymraeg a nodau *Mwy na geiriau* wedi'u cynnwys mewn cynlluniau cyflenwi gwasanaethau lleol a datblygu'r gweithlu yn adrannau 3.18 i 3.22. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adrannau hynny yn cynnwys y ffaith bod cyfeiriadau at nodau *Mwy na geiriau* a'r Cynnig Rhagweithiol i'w gweld fwyaf amlwg mewn strategaethau sgiliau dwyieithog. Mae pob bwrdd ac ymddiriedolaeth ieuchyd yng Nghymru wedi datblygu strategaeth sgiliau dwyieithog, ac yn y rhan fwyaf o achosion, cynhyrchwyd y rhain o ganlyniad uniongyrchol i fframwaith olynol *Mwy na geiriau*. Nododd rhai rhanddeiliaid, fodd bynnag, mewn llawer o achosion, fod strategaethau sgiliau dwyieithog a chynlluniau lleol eraill yn ymwneud â'r gweithlu a chyflenwi gwasanaethau yn cynnwys nodau uchelgeisiol sy'n ymwneud â'r Gymraeg ond nad ydynt o reidwydd yn cynnwys cynlluniau manwl sy'n ymwneud â sut y dylid rhoi'r dyheadau hyn ar waith. Nododd y rhanddeiliaid fod y diffyg manylion ymarferol yn debygol o fod wedi deillio, yn rhannol o leiaf, o'r symiau cymharol fach o ddata sydd ar gael yn ymwneud â sgiliau Cymraeg y gweithlu ac anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau - gweler pennod 4. Mae'n ymddangos bod cydnabyddiaeth gynyddol o'r angen i gynnwys canllawiau ymarferol ochr yn ochr â nodau uchelgeisiol sy'n ymwneud â gwasanaethau Cymraeg (gweler hefyd adran 3.24). Er enghraifft, mae hyn wedi ysgogi un bwrdd ieuchyd i adolygu ei

strategaeth sgiliau dwyieithog i gynnwys polisiau sy'n fwy ymarferol i'w gweithredu - gweler enghraifft 5.

Enghraifft 5 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Lansiodd Hywel Dda ei bolisi iaith Gymraeg ar 1 Mawrth 2021. Roedd y polisi'n disodli strategaeth sgiliau dwyieithog y teimlwyd ei bod yn eithaf hiraeth ac yn eithaf anodd ei defnyddio. Teimlai tîm y Gymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd hefyd fod cael polisi yn ei alluogi i ganolbwyntio mwy ar gamau sy'n fwy ymarferol i'w rhoi ar waith yn hytrach na nodau uchelgeisiol. Nod y ddogfen ddiwygiedig yw bod yn ddogfen ymarferol hawdd ei defnyddio y gall rheolwyr ac ymarferwyr droi ati i arwain y Bwrdd Iechyd tuag at ei nod o sicrhau bod gan 50% o'i weithlu sgiliau Cymraeg ar lefel sylfaen o leiaf o fewn y 10 mlynedd nesaf.

Un o'r camau penodol yn y polisi newydd yw cynnwys mwy o fanylion yn ymwneud â'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol mewn swydd-disgrifiadau ar gyfer ymgyrchoedd recriwtio. Bydd y polisi newydd yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr ychwanegu at y termau deuaidd 'dymunol' neu 'hanfodol' drwy ddarparu disgrifiadau manylach o'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol. Er enghraifft, gall swydd-ddisgrifiadau nodi ei bod yn hanfodol bod gan ymgeiswyr sgiliau Cymraeg ar lefel 1 ar gyfer ysgrifennu a lefel 4 ar gyfer cyfathrebu ar lafar - neu ddim ond gallu cyfarch pobl yn Gymraeg. Y nod yw ennyn diddordeb ymgeiswyr sydd ag ystod ehangach o sgiliau a gallu yn y Gymraeg, a darparu arweiniad clir ynghylch lefel y sgiliau Cymraeg y bydd yn ofynnol i ymgeiswyr eu defnyddio yn eu swydd o ddydd i ddydd.

Y gallu i roi cynlluniau ar waith

- 5.4 Cynigiwyd enghreifftiau gan randdeiliaid o sut mae'r nodau sydd wedi'u cynnwys yn y strategaethau sgiliau dwyieithog wedi'u hadlewyrchu mewn rhai arferion adnoddau dynol (AD) ac arferion cyflenwi gwasanaethau ehangach mewn rhai achosion. Fodd bynnag, yn eu barn nhw, roedd hyn yn aml yn gyd-ddigwyddiad, ac roedd y strategaeth sgiliau dwyieithog yn annhebygol o fod wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar yr arferion hyn.

5.5 Mynegodd y rhanddeiliaid yr heriau y mae lleoliadau yn eu hwynebu wrth weithredu nodau ac amcanion yn ymwneud â'r Gymraeg a gynhwysir mewn cynlluniau ar lefel leol. Ymysg rhai o'r heriau ymarferol a nodwyd roedd amharodrwydd ymhlith rhai gweithwyr i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg sydd ganddynt (gweler hefyd adran 8.11); trosiant uchel ymhlith staff mewn swyddi rheoli 'haen ganol' sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i sefydlu polisïau neu arferion newydd; yn ogystal ag amharodrwydd ymhlith rheolwyr i gynnwys sgiliau Cymraeg fel gofyniad mewn swydd-ddisgrifiadau, yn enwedig ar gyfer swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi.

'Mae swyddi gwag ar draws ardaloedd y bwrdd iechyd yn parhau i fod yn anodd eu llenwi. O ystyried yr heriau recriwtio hyn, mae denu ymgeiswyr â sgiliau Cymraeg yn her ychwanegol. Felly, er gwaethaf y strategaeth ddwyieithog, nid yw'r Gymraeg fel gofyniad hanfodol byth yn cael ei gynnwys mewn swydd-ddisgrifiadau wrth recriwtio staff newydd.' (rhanddeiliad)

5.6 Ochr yn ochr â'r ystyriaethau ymarferol hyn, mae'r theori newid yn tybio bod gweithredu camau'n ymwneud â'r Gymraeg yn llwyddiannus yn dibynnu ar barodrwydd cyfarwyddwyr gweithredol a phenaethiaid gwasanaethau i'w cefnogi. Fel yr amlinellwyd yn adran 3.10, roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod llawer o'r rhwystrau gweithredu yn digwydd ar y lefel reoli weithredol 'haen ganol'. Roedd y rhanddeiliaid hyn o'r farn y gellid goresgyn llawer o'r heriau gweithredu ymarferol ond mae rheolwyr haen ganol ar draws y sector yn aml yn eu hystyried yn anorchfygol ac felly'n rhy anodd eu hystyried hyd yn oed.

'Mae rheolwyr gweithredol ar draws byrddau iechyd dan lawer o bwysau i gyrraedd targedau clinigol ac nid ydynt yn gwneud y cysylltiad rhwng cyrraedd y targedau clinigol hyn a darparu gwasanaethau Cymraeg. Mae canolbwyntio ar anghenion yn ymwneud â'r Gymraeg yn aml yn cael ei ystyried yn un her yn ormod pan fydd darparu gwasanaeth Saesneg yn "ddigon da" i gadw rhywun yn fyw'. (rhanddeiliad)

5.7 Ategir y farn hon gan ganfyddiadau mewn papur gan Brifysgol Bangor, sy'n cyfeirio at yr haen ganol hon fel y lefel 'meso', gyda Llywodraeth Cymru ar y

lefel macro a defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau cynrychioliadol ar y lefel micro (Prys, Hodges a Roberts, 2021). Daw'r adroddiad i'r casgliad fod nodau strategol a deddfwriaeth ar y lefel macro ac anghenion a nodwyd ar lefel micro yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth Gymraeg sy'n ofynnol gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, mae cynllunio a gweithredu gwasanaethau Cymraeg yn dibynnu ar y lefel meso. Ar y lefel hon mae'r ffocws yn fwy ar oblygiadau darparu gwasanaethau Cymraeg i'r ymarferwyr dan sylw nag ar y manteision i'r defnyddwyr gwasanaethau y maent yn eu cefnogi. Mae canfyddiadau'r papur yn atgyfnerthu canfyddiadau'r gwerthusiad hwn ei bod yn debygol y bydd angen cefnogaeth barhaus ar y lefel meso / haen ganol hon i annog cynnydd mewn arferion sy'n cefnogi darparu gwasanaethau Cymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol.

- 5.8 Nododd rhai rhanddeiliaid fod yr heriau o ran cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn seiliedig ar fwy na dim ond agweddau ac awydd. Mae'r prinder data, ac felly tystiolaeth o angen, a amlinellir ym mhennod 4 yn aml wedi'i gwneud yn anodd i benaethiaid gwasanaethau gyfiawnhau dyrannu adnoddau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, yn enwedig pan fo blaenoriaethau clinigol eraill y mae data ar angen wedi bod ar gael ar eu cyfer, yn cystadlu am yr adnoddau hyn.
- 5.9 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn ei bod yn ymddangos bod cynnydd pellach o ran gweithredu polisïau a chymau gweithredu sy'n ymwneud â'r Gymraeg wedi'u gwneud o fewn y maes gofal cymdeithasol. Gwelsom dystiolaeth i awgrymu bod mwy o ganllawiau gweithredu ar gael yn y maes hwn yn ymwneud â chynyddu gallu'r gweithlu yn y Gymraeg ac ar sut i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn ymarferol. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu'r ddogfen '[Sgiliau iaith Gymraeg eich gweithlu](#)' (Cyngor Gofal Cymru (GCC bellach), 2014). Mae'r ddogfen, ymhlith pethau eraill, yn rhoi arweiniad i ymarferwyr gofal cymdeithasol ar y camau y gallant eu cymryd i greu a gweithredu Cynllun Sgiliau iaith syml. Mae hyn yn cynnwys Siartiau Llif Sgiliau iaith ar gyfer Cymraeg llafar ac ysgrifenedig y gall cyflogwyr eu defnyddio i ddeall pa sgiliau iaith sydd eu hangen yn eu gweithlu.
- 5.10 Mae'r theori newid yn cynnwys y rhagdybiaeth y byddai amser ac adnoddau'n cael eu hymrwymo ar draws y sector i gefnogi gweithredu nodau sy'n ymwneud â'r Gymraeg sydd wedi'u cynnwys yn nogfennau polisi

a chynllunio gwasanaethau cymdeithasol byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol.

5.11 Yr ymrwymiad amlycaf o ran adnoddau o fewn y sector gofal iechyd fu penodi swyddogion iaith Gymraeg. Mae pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru wedi penodi swyddog iaith Gymraeg, ac mae rhai wedi mynd ymhellach ac wedi buddsoddi mewn datblygu is-adrannau'r Gymraeg i gefnogi'r iaith ar draws eu lleoliadau. Darganfu gwaith maes y gwerthusiad enghreifftiau o arferion a mentrau a gefnogwyd gan y swyddogion iaith hyn sydd wedi cryfhau'r ffocws ar y Gymraeg yn unol â nodau strategol sydd wedi'u cynnwys ym mholisiâu a chynlluniau'r bwrdd iechyd lleol. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi hyfforddiant Cymraeg i'r gweithlu a chynnwys nodau *Mwy na geiriau* mewn sesiynau sefydlu ar gyfer staff newydd - gweler hefyd adran 8.23.

5.12 Fodd bynnag, roedd swyddogion iaith o'r farn bod yr amser a'r adnoddau sydd ar gael iddynt i ddylanwadu ar arferion ar draws y bwrdd iechyd yn aml yn gyfyngedig. O'r herwydd, mae'r mentrau y maent yn eu cefnogi yn aml wedi'u cyfyngu i feysydd neu leoliadau penodol. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y gallai rhai byrddau iechyd fod yn or-ddibynnol ar swyddogion iaith i gefnogi eu holl ofynion yn ymwneud â'r Gymraeg. Gall hyn, yn eu barn hwy, adlewyrchu credoau ymhlith rhai uwch bersonél mai penodi swyddog iaith Gymraeg oedd y cyfan y byddai angen ei wneud er mwyn bodloni gofynion *Mwy na geiriau*.

'Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi dros 14,000 o aelodau o staff sy'n gweithio mewn gwahanol adrannau a lleoliadau ar draws [ardal y bwrdd iechyd] - mae'n amhosibl i [un swyddog iaith] gysylltu â'r holl unigolion hyn i'w cefnogi i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle' .
(rhanddeiliad)

5.13 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cydnabod bod adnoddau ariannol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn brin iawn. O'r herwydd, mae'r gost ariannol ganfyddedig sy'n gysylltiedig â chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn unrhyw leoliad yn aml wedi bod yn rhwystr uniongyrchol i weithredu'r amcanion. Fodd bynnag, ym marn rhai rhanddeiliaid, yn aml nid yw'r goblygiadau, gan gynnwys costau ariannol, yn sgil methu â darparu gofal

priodol, gan gynnwys costau ariannol, drwy beidio â darparu gwasanaethau yn Gymraeg, wedi cael eu hystyried. Nododd y rhanddeiliaid y gellir darparu gwasanaethau Cymraeg yn aml mewn modd cost-effeithiol drwy aildrefnu'r gwasanaethau presennol neu feddwl yn greadigol am sut i gyflenwi gwasanaethau.

- 5.14 Dengys y canfyddiadau a gyflwynir uchod nad yw'n ymddangos, yn y rhan fwyaf o achosion, bod rhagdybiaeth y theori newid y byddai nodau ac amcanion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn dogfennau cynllunio gwasanaethau a'r gweithlu lleol yn cael eu gweithredu ar draws y sector wedi cael ei gwireddu. Er bod pocedi o arfer da yn ymwneud â gweithredu'r nodau hyn, nid ydynt wedi'u gweithredu mewn modd cyson ar draws y sector. Dengys y canfyddiadau hefyd fod y rhagdybiaeth yn y theori y byddai amser ac adnoddau'n cael eu neilltuo i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion *Mwy na geiriau* wedi cael ei gwireddu o ran y ffaith bod pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd wedi penodi swyddogion iaith Gymraeg. Fodd bynnag, awgryma'r dystiolaeth y gallai fod gorddibyniaeth neu ddisgwyliadau afrealistig ar y swyddogion hyn o ran y newidiadau i wasanaethau Cymraeg y byddent yn gallu dylanwadu arnynt ar draws y sector.

6. Hybu ac Ymgysylltu

Arwyddion gweledol

- 6.1 Mae amcan 4 y fframwaith olynol *Mwy na geiriau* yn amlinellu, er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach, y dylid defnyddio arwyddion gweledol fel y logo Iaith Gwaith i alluogi defnyddwyr gwasanaethau i adnabod aelodau o staff sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r theori newid yn tybio y byddai'r holl staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn barod i arddangos arwyddion gweledol eu bod yn siaradwr Cymraeg.
- 6.2 Adolygodd y gwerthusiad a yw staff rheng flaen, Cymraeg eu hiaith ar draws y sector wedi bod yn defnyddio'r arwyddion gweledol hyn, a yw defnyddwyr gwasanaethau yn adnabod yr arwyddion gweledol a ddefnyddir, ac i ba raddau y mae'r arwyddion hyn wedi ysgogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau ble y darperir gwasanaeth.
- 6.3 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn, yn y mwyafrif o achosion, bod staff rheng flaen Cymraeg eu hiaith mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn defnyddio llinynnau gwddf Iaith Gwaith ynghyd ag arwyddion gweledol eraill fel bathodynau a gwisgoedd wedi'u brodio, i hysbysu pobl eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Nododd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau Cymraeg yr ymgynghorwyd â hwy hefyd eu bod wedi sylwi ar gynnydd yn y defnydd o'r arwyddion gweledol hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf a roedd hyn wedi cynyddu eu hyder i ryngweithio yn Gymraeg ag aelodau o staff mewn lleoliadau iechyd a gofal.
- 6.4 Adroddwyd am rai eithriadau. Nododd rhai swyddogion iaith fod lleiafrif o staff mewn byrddau iechyd a oedd yn rhugl yn y Gymraeg yn amharod i ddefnyddio arwyddion gweledol i ddatgan eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r rhesymau a awgrymir dros amharodwydd rhai gweithwyr i wneud hyn yn adlewyrchu pwyntiau a drafodir mewn penodau eraill: pryder ynghylch cael cyfrifoldebau ychwanegol yn adran 4.12, a diffyg hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a'u pryderon ynghylch camgyfleu gwybodaeth ym mhennod 8.
- 6.5 Nododd rhai defnyddwyr gwasanaethau a gafodd eu cyfweld hefyd enghreifftiau o ymarferwyr gofal iechyd y gwyddent eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn dewis peidio â gwisgo llinynnau gwddf i hybu hyn. Nododd un

defnyddiwr gwasanaethau enghraifft lle roedd ymarferydd yn gwisgo llinyn gwddf Cymraeg ond yn dal i wrthod ateb cwestiynau a ofynnir iddo yn Gymraeg. (Gweler enghreifftiau 1 a 2 gan ddefnyddwyr gwasanaethau).

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: enghraifft 1

Mae'r enghraifft ganlynol yn seiliedig ar brofiadau defnyddiwr gwasanaeth a oedd yn cael triniaeth arferol fel claf allanol yn ei ysbyty lleol. Yn yr ysbyty roedd y nyrs yn siarad Saesneg ag ef a chan nad oedd ganddi llinyn gwddf iaith Gwaith, roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn tybio nad oedd hi'n gallu siarad Cymraeg. Roedd y defnyddiwr gwasanaeth wedi siarad Cymraeg â'i feddyg teulu or cychwyn ac wedi cymryd yn ganiataol bod gwybodaeth am ei ddewis iaith wedi'i chynnwys yn y cofnodion yr oedd y nyrs yn eu hadolygu.

Pan gadarnhaodd y nyrs gyfeiriad cartref y defnyddiwr gwasanaeth, nododd ei bod yn gyfarwydd â'r ardal a gofynnodd iddo a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Pan gadarnhaodd ei fod, roedd y nyrs wedi ei synnu a dechreuodd siarad Cymraeg ag ef, ac o ganlyniad roedd gweddill yr ymgynghoriad yn llawer mwy hamddenol.

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: enghraifft 2

Mae'r enghraifft ganlynol yn seiliedig ar brofiadau defnyddiwr gwasanaeth yn ystod sesiwn rhoi gwaed yr oedd yn ei mynychu'n rheolaidd. Fe wnaeth yr ymarferydd a gymerodd ei waed ar y diwrnod hwn siarad Saesneg ag ef ac nid oedd yn gwisgo llinyn gwddf iaith Gwaith. Fodd bynnag, sylwodd y defnyddiwr gwasanaeth ar yr enw Cymraeg ar fathodyn enw'r ymarferydd a gofynnodd a oedd hi'n gallu siarad Cymraeg. Cadarnhaodd yr ymarferydd ei bod, a pharhau â'r sgwrs yn Gymraeg. Pe na bai'r defnyddiwr gwasanaeth wedi gwneud y cysylltiad hwn ac wedi holi, byddai'r sgwrs wedi parhau yn Saesneg.

- 6.6 Nododd swyddogion iaith fod aelodau o staff a oedd yn dysgu Cymraeg, yn siaradwyr newydd neu a oedd yn llai hyderus eu Cymraeg yn cael cynnig llinyn gwddf 'dysgwr'. Nododd y rhanddeiliaid fod llawer o aelodau o staff yn teimlo'n fwy cyfforddus yn gwisgo'r eitemau gweledol hyn gan ei fod yn

gwahodd o leiaf rywfaint o ymgysylltiad yn y Gymraeg gan ddefnyddwyr gwasanaethau heb godi eu disgwyliadau y gallant gynnal sgwrs lawn yn Gymraeg.

- 6.7 Nododd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau eu bod yn llai ymwybodol o'r arwyddion gweledol laith Gwaith yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau gofal sylfaenol, gan gynnwys meddygfeydd teulu, deintyddion ac optegwyr. Fodd bynnag, roedd y defnyddwyr gwasanaethau hyn hefyd yn cydnabod y gallai hyn fod oherwydd bod llai o staff Cymraeg yn y lleoliadau hyn yn hytrach na llai o ddefnydd o'r llinynnau gwddf a'r eitemau eraill gan y rhai a oedd yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, dangosodd arolwg gan Lywodraeth Cymru o feddygfeydd teulu (2019b) nad oedd dros hanner y staff mewn meddygfeydd teulu a oedd yn gallu siarad Cymraeg, yn gwisgo bathodyn neu linydd gwddf laith Gwaith.
- 6.8 At ei gilydd, awgryma'r dystiolaeth y gallai defnyddio'r logo laith Gwaith fod wedi cynyddu gallu defnyddwyr gwasanaethau i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg ac ymgysylltu â nhw yn Gymraeg. Mae'n ymddangos bod y rhagdybiaeth yn y theori newid y byddai staff sy'n siarad Cymraeg yn barod i wisgo arwyddion gweledol sy'n datgan eu bod yn siaradwyr Cymraeg yn wir yn y mwyafrif o achosion ond ni ym mhob un, sy'n gam cadarnhaol tuag at gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol.

Rhannu arfer da

- 6.9 Mae fframwaith olynol *Mwy na geiriau* yn nodi, 'er mwyn cynorthwyo staff i gyflawni amcanion y fframwaith strategol hwn, mae'n bwysig bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn gallu cyfathrebu a rhannu arfer da'. Fel y nodwyd yn adran 4.29, mae enghreifftiau o arfer da o ran cefnogaeth i'r Gymraeg a chyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol yn bodoli, ond nid ydynt wedi'u rhannu mor eang ag y gallent fod. O'r herwydd, prin yw'r cyfleoedd i efelychu arferion da mewn meysydd eraill.
- 6.10 Mae'r theori newid yn tybio y byddai enghreifftiau o arfer da a rennir ar draws lleoliadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn cael eu defnyddio gan reolwyr ac ymarferwyr i arwain a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaeth yn eu lleoliadau. Nododd y rhanddeiliaid fod cyflawni hyn wedi dibynnu ar i ba

raddau y mae rheolwyr ac ymarferwyr yn deall sut y gellid efelychu'r enghreifftiau hyn yn eu lleoliad hwy. Mae hefyd wedi bod yn rhannol ddibynnol ar frwdfrydedd a chymhelliant ymarferwyr i gefnogi a gweithredu arferion tebyg yn eu lleoliad.

- 6.11 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod dathlu arferion da yn un ffordd o annog mwy o frwdfrydedd e mwyn efelychu'r enghreifftiau hyn. Fe wnaethant gyfeirio at ddylanwad cadarnhaol Gwobrau'r Gymraeg mewn iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol wrth ddathlu llwyddiant a chynnig cymhelliant ychwanegol i leoliadau wneud cynnydd pellach tuag at gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol.

Hyrwyddo'r angen am siaradwyr Cymraeg yng ngweithlu'r dyfodol

- 6.12 Mae fframwaith olynol *Mwy na geiriau* yn amlinellu y dylai 'Swyddogion Cymraeg (yn GIG Cymru) a Hyrwyddwyr y Gymraeg (yn y gwasanaethau cymdeithasol) ddod yn Llysgenhadon Busnes gyda Gyrfa Cymru er mwyn hybu'r angen am staff sy'n siarad Cymraeg yn y sectorau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol mewn ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru'. Un o ragdybiaethau'r theori newid yw y dylai hyn annog unigolion sy'n ystyried gyrfa mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu ofal cymdeithasol i gynnal neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn eu haddysg a'u hyfforddiant parhaus. Dylai hyn, yn ei dro, arwain at gynnydd yng ngallu Cymraeg cyffredinol newydd-ddyfodiaid i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.
- 6.13 Nododd y rhanddeiliaid nad yw'r angen am sgiliau Cymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol bob amser wedi bod yn amlwg i'r rhai nad ydynt yn gweithio yn y sector eto oherwydd bod cyflogwyr yn aml wedi bod yn amharod i gynnwys sgiliau Cymraeg fel gofyniad hanfodol mewn swydd-ddisgrifiadau, yn enwedig ar gyfer swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi (gweler adran 5.5). O ganlyniad, nid yw unigolion sy'n ystyried gweithio yn y sector yn y dyfodol o reidrwydd yn ystyried bod y gallu i siarad Cymraeg yn gryfder a fydd yn gwella eu rhagolygon gyrfa. Felly roedd y rhanddeiliaid o'r farn y gellid gwneud mwy i hyrwyddo manteision sgiliau Cymraeg i ddisgyblion ysgol sy'n ystyried gyrfa yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

'Nid yw pobl ifanc a allai fod yn ystyried gweithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol yn y dyfodol fel arfer yn ystyried y Gymraeg yn sgil a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer eu rhagolygon gyrfa'. (rhanddeiliad)

- 6.14 Nodwyd enghreifftiau gan un swyddog iaith o weithgareddau yr oedd wedi'u hwyluso mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru mewn ysgolion lleol i hybu'r rôl bwysig y mae sgiliau Cymraeg yn ei chwarae mewn gyrfaedd yn y sector iechyd. Ni chynigiwyd unrhyw enghreifftiau eraill o'r natur hon gan swyddogion na hyrwyddwyr y Gymraeg.
- 6.15 Nododd cynrychiolwyr Gyrfa Cymru eu bod nhw, fel sefydliad, yn aml yn amlinellu manteision sgiliau Cymraeg i lwybrau gyrfa o fewn amryw o sectorau, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol. Roeddent hefyd yn croesawu rhagor o gyfleoedd i weithio gyda swyddogion a hyrwyddwyr y Gymraeg yn y sector iechyd a gofal i gynnal gweithgareddau ar y cyd mewn ysgolion a cholegau sy'n hyrwyddo gyrfaedd yn y sector hwn sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg neu lle y byddai sgiliau Cymraeg yn fanteisiol.
- 6.16 Cynigiwyd enghreifftiau hefyd o fodiwlau a sesiynau a gyflwynwyd yn ddiweddar gan SAB a sefydliadau addysg uwch (SAU) i'w cyrsiau iechyd a gofal sy'n cyflwyno myfyrwyr i'r Cynnig Rhagweithiol ac felly'n hyrwyddo'r angen am fwy o siaradwyr Cymraeg yn y sector. Trafodir hyn yn fanylach ym mhennod 7 - Addysg Broffesiynol.
- 6.17 At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n dangos bod cynnydd da wedi'i gyflawni mewn perthynas ag annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws lleoliadau drwy ddefnyddio arwyddion gweledol. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i rannu enghreifftiau o arferion da ac annog yr enghreifftiau hyn i gael eu hefelychu mewn meysydd eraill yn y sector. Gellid gwneud mwy hefyd i hyrwyddo i ddysgwyr mewn ysgolion a cholegau y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio sgiliau Cymraeg mewn gyrfaedd iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

7. Addysg Broffesiynol

- 7.1 Noda amcan 5 fframwaith olynol *Mwy na geiriau* 'er mwyn i'r gweithlu iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol allu cyflawni'r Cynnig Rhagweithiol...bydd buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol drwy gynllunio strategol a dyrannu adnoddau'n ymatebol mewn addysg cyn-gofrestru yn sicrhau'r capasiti i ddarparu'r gwasanaethau lle mae fwyaf eu hangen'.
- 7.2 Adolygodd y gwerthusiad i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru ac AaGIC wedi cynyddu darpariaeth cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch Cymraeg neu ddwyieithog a rhaglenni hyfforddi mewn iechyd a gofal cymdeithasol ers lansio *Mwy na geiriau* yn 2016.⁹
- 7.3 Mae'r theori newid yn rhagdybio y byddai manteisio ar y ddarpariaeth hon yn dibynnu ar fyfyrwyr yn cydnabod yr angen am sgiliau Cymraeg yn y sector ac felly perthnasedd cofrestru ar gyrsiau iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n rhagdybio ymhellach y byddai defnyddio'r ddarpariaeth Gymraeg yn arwain at gynnydd yn sgiliau Cymraeg gweithlu'r dyfodol. Mae'r bennod yn trafod y canfyddiadau o ran y nifer sy'n dilyn y cyrsiau hyn o safbwynt rhanddeiliaid a myfyrwyr.
- 7.4 Canfu'r gwerthusiad gynnydd sylweddol ers 2016 yn y cyrsiau Cymraeg newydd a ddarperir yn ogystal ag yn y ffocws ar y Cynnig Rhagweithiol mewn cyrsiau sy'n bodoli eisoes. Bu cynnydd mawr yn y buddsoddiad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol dros y degawd diwethaf i gefnogi'r cyrsiau a modiwlau addysg uwch Cymraeg ac addysg ddwyieithog sydd ar gael mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Cynyddodd hyn o swm bach iawn o fuddsoddiad yn y cyrsiau hyn pan benodwyd staff darlithio cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011, i bron i 20 y cant o'i fuddsoddiad yn yr holl gyrsiau yn 2019.
- 7.5 Mae grantiau buddsoddi wedi bod ar gael i gefnogi darpariaeth Gymraeg mewn cyrsiau nyrsio er 2011. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae ardaloedd newydd hefyd wedi derbyn grantiau i ddatblygu eu darpariaeth

⁹ Sefydlwyd AaGIC ar 1 Hydref 2018, ac mae ganddo rôl arweiniol mewn addysg, hyfforddiant a datblygiad y gweithlu gofal iechyd yng Nghymru.

cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys bydwreigiaeth, fferylliaeth, gwyddoniaeth barafeddygol a deintyddiaeth.

- 7.6 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn, drwy dynnu sylw at yr angen am gynnydd yn y ddarpariaeth o gyrsiau Cymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, bod *Mwy na geiriau* wedi annog y cynnydd yn y buddsoddiad a wnaed yn y cyrsiau addysg uwch hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid eraill o'r farn y byddai'r cynnydd ym muddsoddiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi'r ddarpariaeth hon wedi digwydd beth bynnag, heb *Mwy na geiriau*.
- 7.7 Mae contract 10 mlynedd newydd a gyhoeddwyd gan AaGIC i SAU sy'n darparu cyrsiau iechyd a gofal yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddangos bod pob cwrs yn cynnwys sesiwn awr o hyd bob blwyddyn i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o bwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. O dan y contract newydd, rhaid i bob cwrs hefyd gynnwys prawf blynyddol o allu myfyrwyr i ddefnyddio termau a chyfarchion Cymraeg sylfaenol. Mae'r gofynion contractiol newydd hyn yn adlewyrchu nodau *Mwy na geiriau* yn ogystal â gofynion Safonau'r Gymraeg. Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod gofynion contractiol newydd AaGIC yn angenrheidiol i sicrhau bod darparwyr addysg yn rhoi mwy o ffocws ar y Gymraeg yn y cyrsiau y maent yn eu darparu.
- 7.8 Nid yw'r gwaith o ddarparu cyrsiau o dan y contract newydd hwn wedi dechrau eto. Fodd bynnag, erbyn 2024, bydd y garfan gyntaf o fyfyrwyr wedi graddio a dylai pob un ohonynt feddu ar ddealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal iechyd yn ogystal â gallu sylfaenol o leiaf i ddefnyddio rhai termau Cymraeg. Nododd un fyfyrwraig nyrsio ei bod hi ac eraill sy'n astudio ei chwrs eisoes wedi cael sesiwn ar bwysigrwydd y Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol er nad oedd y gofynion contractiol a osodwyd ar ddarparwr ei chwrs wedi dechrau eto - gweler profiad myfyriwr SE1. Dywedodd mai'r sesiynau hyn a barodd iddi sylweddoli pa mor bwysig yw darpariaeth Gymraeg.

Profiad myfyriwr: SE1

Roedd SE1 yn fyfyrwr blwyddyn gyntaf yn astudio cwrs nyrsio oedolion yn Ne Cymru. Nid oedd SE1 yn hanu o Gymru yn wreiddiol ac nid oedd yn gallu siarad Cymraeg ond roedd yn bwriadu gweithio yng Nghymru ar ôl cymhwyso yn 2023. Cyn dechrau'r cwrs nid oedd SE1 yn ymwybodol bod cymaint o bobl yn siarad Cymraeg.

'Roeddwn i'n ymwybodol bod pobl yn siarad yr iaith ond yn cymryd yn ganiataol mai Saesneg oedd iaith gyntaf pawb, ac mai dim ond mewn rhai sefyllfaoedd penodol yr oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio - yn debyg i'r Lladin'.

Roedd rhan o gwrs blwyddyn gyntaf SE1 yn cynnwys sesiwn ar bwysigrwydd darparu gwasanaethau yn Gymraeg, yn enwedig i gleifion hŷn a bregus. Cyfeiriodd y sesiwn hefyd at y Cynnig Rhagweithiol. Dim ond ar ôl y sesiwn hon y sylweddolodd SE1 pa mor bwysig oedd siarad Cymraeg i rai cleifion.

Roedd SE1 hefyd wedi bod ar leoliad gwaith mewn ysbyty lleol ac wedi sylwi bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi yn ystod eu hasesiad cychwynnol. Sylweddolodd SE1 bwysigrwydd gwneud hyn.

Nid oedd SE1 wedi cael amser i ddysgu Cymraeg eto, ond roedd dysgu rhywfaint o Gymraeg sylfaenol yn rhywbeth yr oedd SE1 yn ceisio ei wneud cyn dechrau gyrfa fel nyrs yng Nghymru.

- 7.9 Nododd un myfyriwr fod rhai o'r modiwlau ar ei gwrs yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg i grwpiau o fyfyrwyr a oedd yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a myfyrwyr di-Gymraeg. Ym marn y myfyriwr, roedd hyn yn annog cefnogaeth bellach i'r Gymraeg ymhlith myfyrwyr di-Gymraeg - gweler profiad myfyrwyr SE2.

Profiad Myfyriwr: SE2

Roedd SE2 yn fyfyrwr yn y drydedd flwyddyn yn astudio cwrs gradd nyrsio ym Mhrifysgol Bangor. Gan fod SE2 wedi cwblhau Safon Uwch yn Gymraeg, penderfynodd ymchwilio i opsiynau ar gyfer astudio cwrs nyrsio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ystyriodd SE2 amrywiol sefydliadau ond nid oedd yn siŵr faint o'r cwrs a oedd ar gael yn Gymraeg mewn rhai prifysgolion. Gan fod Prifysgol Bangor yn cynnig y rhan fwyaf o'r cwrs nyrsio yn Gymraeg (hyd at 60 y cant), dewisodd SE2 astudio yno.

Nododd SE2 fod y mwyafrif o ddarlithoedd, ond nid pob un, yn y modiwlau Cymraeg wedi'u cyflwyno'n ddwyieithog. Roedd rhai darlithoedd wedi cael eu traddodi yn Saesneg, gyda sleidiau dwyieithog. Yn aml, cyflwynwyd y darlithoedd hyn i grwpiau o fyfyrwyr, rhai ohonynt yn siaradwyr Cymraeg ac eraill yn ddi-Gymraeg. Ym marn SE2, roedd defnyddio rhywfaint Cymraeg mewn darlithoedd yn fuddiol i bobl ddi-Gymraeg ar y cwrs gan ei fod yn codi eu hymwybyddiaeth bod y Gymraeg yn iaith a ddefnyddir mewn sefyllfaoedd bob dydd ac yn annog pobl ddi-Gymraeg i ddatblygu rhai sgiliau Cymraeg.

Roedd SE2 o'r farn bod gwerth pendant i sgiliau dwyieithog yn y proffesiwn nyrsio:

'Mae fy ngallu i siarad â chleifion yn Gymraeg neu Saesneg ymhlith y pethau pwysicaf y gallaf eu cynnig fel nyrs i'r rhai rwy'n gofalu amdanynt'

Yn yr enghreifftiau o brofiadau myfyrwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, defnyddir rhagenwau lluosog yn hytrach nag unigol er mwyn sicrhau nad oes modd eu hadnabod.

- 7.10 Nododd rhai ymarferwyr gofal iechyd a swyddogion iaith eu bod eisoes wedi gweld mwy o ymwybyddiaeth o'r Cynnig Rhagweithiol a'r angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ymhlith recriwtiaid newydd. Fe wnaethant nodi hefyd bod yr ymwybyddiaeth hon wedi'i hatgyfnerthu yn ystod sesiynau sefydlu a fynychwyd gan yr holl recriwtiaid newydd - gweler hefyd bennod 8.
- 7.11 Er gwaethaf y cynnydd, mae tystiolaeth o fylchau yn y cyrsiau Cymraeg sydd ar gael mewn rhai pynciau iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd adroddiad ar y Gymraeg mewn gwasanaethau gofal sylfaenol (Pwyllgor

Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2019) nad oedd y llwybrau hyfforddi yn ddigonol i greu gweithlu dwyieithog, yn enwedig mewn meysydd fel deintyddiaeth, optometreg ac ymwelwyr iechyd. Nododd y rhanddeiliad hefyd fylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyrsiau seicoleg, sy'n cyfyngu ar yr ymarferwyr Cymraeg cymwys sydd ar gael i gefnogi'r rhai â salwch meddwl.

- 7.12 Er ei bod yn ymddangos bod nifer y cyrsiau a modiwlau iechyd a gofal cymdeithasol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael wedi cynyddu ers 2016, nododd rhai rhanddeiliaid nad yw'r galw amdanynt o reidrwydd wedi cynyddu i'r un graddau. Er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cyflwyno ysgoloriaeth i fyfyrwyr sy'n dilyn modiwlau Cymraeg mewn rhai cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn wedi annog rhai myfyrwyr na fyddent o bosibl wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg fel arall i wneud hynny - gweler profiad myfyrwyr SE3.
- 7.13 Nododd rhai rhanddeiliaid y gellid priodoli'r ffaith bod niferoedd llai na'r disgwyl wedi manteisio ar fodiwlau Cymraeg ar rai cyrsiau i'r ffaith nad oedd myfyrwyr yn ymwybodol bod cyrsiau ar gael yn Gymraeg. Efallai fod myfyrwyr eraill wedi cael eu hatal rhag cofrestru ar gyrsiau Cymraeg oherwydd nad oedd ganddynt yr hyder yn eu sgiliau a'u gallu Cymraeg. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mhrofiad myfyrwyr SE4, mae rhai SAU wedi cynnig sesiynau gwirfoddol i fyfyrwyr wella eu Cymraeg er mwyn gwella eu gallu a'u hyder i astudio eu cwrs cyfan neu ran o'u cwrs yn Gymraeg.

Profiad Myfyriwr: SE3

Roedd SE3 yn fyfyrwr yn y drydedd flwyddyn yn astudio ar gyfer gradd mewn nyrsio iechyd meddwl. Cyflwynwyd traean o gwrs SE3 (40 credyd o blith 120) yn Gymraeg. Roedd SE3 hefyd wedi'i ddyrannu i leoliad profiad gwaith lle y byddent yn cael eu cefnogi gan fentor sy'n siarad Cymraeg. Cafodd penderfyniad SE3 i astudio canran o'r cwrs yn Gymraeg ei ddylanwadu'n bennaf gan y ffaith bod ysgoloriaeth a gael gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

'Roedd yr ysgoloriaeth yn gymhellant mawr i mi astudio rhai modiwlau yn Gymraeg. Rwy'n siarad Cymraeg ond mae Cymraeg academiaidd yn llawer anoddach. Mae'r traethodau'n cymryd llawer mwy o amser i mi eu hysgrifennu gan fod y gramadeg yn llawer anoddach. Dw i ddim credu y byddwn i wedi astudio modiwlau Cymraeg oni bai am yr ysgoloriaeth.'

Roedd SE3 yn ymwybodol o'r Cynnig Rhagweithiol ond yn eu barn nhw, nid oedd yn ymddangos bod hyn yn 'rhan o'r ffordd o weithio' yn y lleoliadau iechyd meddwl yr oeddent wedi gweithio ynddyn nhw o'r blaen. Credai SE3 fod llwyddiant *Mwy na geiriau* yn dibynnu i raddau helaeth ar a oedd y rheolwyr o fewn gwasanaethau yn gallu siarad Cymraeg - sylwodd SE3 ar wahaniaeth mawr yn y pwyslais a roddir ar y Gymraeg mewn lleoliadau sy'n cael eu harwain gan reolwr Cymraeg.

Roedd gan SE3 ddiddordeb arbennig mewn gweithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl sy'n cefnogi pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, nid oedd SE3 o'r farn bod llawer o alw am sgiliau Cymraeg yn y maes gwaith hwn. Roedd SE3 yn credu ei bod yn bwysig i gleifion gael y dewis i gyfathrebu yn Gymraeg. Yn eu barn nhw, roedd y gallu i siarad Cymraeg â defnyddwyr gwasanaethau yn bwysicach na gallu cwblhau traethodau academiaidd yn Gymraeg.

Ar ôl graddio, roedd SE3 yn bwriadu dechrau ymgeisio am swyddi, ond roedd yn disgwyl y byddai'r mwyafrif yn cynnig contractau chwe mis yn unig. Nododd SE3 fod angen i'r mwyafrif o raddedigion dderbyn swydd lle bynnag y gallant ddod o hyd i un, lle bynnag y byddai hynny - y tu allan i Gymru o bosibl. O ganlyniad, efallai na fydd bob amser yn bosibl i raddedigion fel SE3 ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y lleoliad lle y byddant yn gweithio ynddo.

Profiad Myfyriwr: SE4

Roedd SE4 yn fyfyrwr blwyddyn gyntaf yn astudio ar gyfer gradd mewn nyrsio oedolion. Cyn gwneud cais am y cwrs, nid oedd SE4 yn ymwybodol bod cyrsiau a oedd yn cynnig rhai modiwlau Cymraeg ar gael ac felly cafodd ei siomi ar yr ochr orau pan ddaeth o hyd i gwrs lle roedd hyd at 40 y cant ohono ar gael yn Gymraeg.

Er gwaetha'r ffaith eu bod yn gallu siaradwr Cymraeg yn rhugl, roedd SE4 yn poeni na fyddai eu sgiliau Cymraeg yn ddigon da i astudio cwrs ar y lefel hon yn Gymraeg. Fel rhan o'r cwrs, roedd SE4 yn gallu manteisio ar sesiwn i wella'u Cymraeg a oedd, yn eu barn nhw, o fudd mawr ac yn help iddynt ddatblygu mwy o hyder i ddefnyddio'r iaith mewn lleoliadau mwy ffurfiol.

'Prif fantais astudio elfennau o'r cwrs yn Gymraeg yw gallu deall a defnyddio terminoleg feddygol Gymraeg. Mae hyn wedi bod o fudd mawr tra roeddwn i ar leoliad ac yn delio â staff eraill a chleifion sy'n siarad Cymraeg.'

Roedd SE4 yn credu bod galw am sgiliau Cymraeg yn y maes nyrsio oedolion, ond bod hyn yn amrywio o un lleoliad i'r llall. Ar leoliadau gwaith mewn ysbytai sylwodd SE4 ar fanteision clir gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Er enghraifft, byddai rhai o'r cleifion hyn yn gofyn 'beth ddywedodd e?' pan oedd meddyg yn esbonio rhywbeth yn Saesneg. Roedd SE4 yn credu ei bod yn hynod bwysig y gallent, fel nyrs, egluro i gleifion unrhyw agweddau ar adborth meddyg nad oeddent wedi'u deall. Roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod y cyfnod COVID-19, pan nad oedd gan gleifion berthnasau gyda nhw ar y ward i egluro'r hyn yr oedd staff meddygol wedi'i ddweud.

- 7.14 Nododd rhai rhanddeiliaid hefyd y gallai'r ffaith bod nifer llai na'r disgwyl yn astudio cyrsiau a modiwlau Cymraeg adlewyrchu tuedd gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o fyfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ymgymryd â'u hastudiaethau addysg uwch y tu allan i Gymru, lle nad oes darpariaeth Gymraeg ar gael. Mae adroddiad ar hyfforddiant gofal sylfaenol (Comisiynydd y Gymraeg, 2019) yn amlinellu bod nifer y darpar fyfyrwyr a oedd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a ddewisodd astudio mewn

prifysgolion y tu allan i Gymru wedi cynyddu o 33 y cant yn 2011 i 42 y cant yn 2015.

- 7.15 Adroddodd rhanddeiliaid y gallai'r galw am gyrsiau a ddarperir yn Gymraeg hefyd fod wedi bod yn is oherwydd, fel y nodir yn adran 6.13, efallai na fydd myfyrwyr bob amser yn cydnabod yr angen am sgiliau Cymraeg i gefnogi eu gyrfa yn y sector. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r rhagdybiaeth yn Amcan 5, sydd wedi'i hategu yn y theori newid (gweler adran 7.3), y byddai myfyrwyr yn cydnabod yr angen am sgiliau Cymraeg ac felly perthnasedd cofrestru ar gyrsiau iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir yn ddwyieithog neu yn Gymraeg, wedi bod yn wir dros y cyfnod hwn. Mae hyn yn ategu ymhellach yr awgrym bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o fanteision cael sgiliau Cymraeg mewn gyrfaoedd yn y sector, ac felly fanteision astudio cyrsiau neu fodiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 7.16 At ei gilydd, dengys y dystiolaeth y gwnaed cynnydd sylweddol o ran darparu cyrsiau Cymraeg newydd ac o ran y ffocws a roddir ar y Cynnig Rhagweithiol mewn cyrsiau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, noda hefyd efallai nad oedd cynnydd tebyg yn y galw am gyrsiau Cymraeg wedi dod law yn llaw â'r cynnydd yn y ddarpariaeth. Awgryma'r canfyddiadau fod cymhellion, fel ysgoloriaethau, wedi annog rhai myfyrwyr i ddilyn cyrsiau Cymraeg neu ddwyieithog. Maent hefyd yn dangos bod cyflwyno cyrsiau a modiwlau Cymraeg a dwyieithog, ynghyd â sesiynau ar y Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol mewn cyrsiau Saesneg, wedi cynyddu ymwybyddiaeth rhai myfyrwyr o bwysigrwydd y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

8. Y Gymraeg yn y Gweithle

- 8.1 Noda Amcan 6 strategaeth olynol *Mwy na geiriau*, er mwyn cyflawni amcanion y strategaeth, 'bydd GIG Cymru ac adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu strategaeth recriwtio a dargadw effeithiol i sicrhau bod gan dimau staff y gallu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg'. Mae Amcan 6 hefyd yn amlinellu pwysigrwydd datblygu sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddiant iaith ac adnoddau eraill i wella hyder staff wrth ddarparu gofal yn Gymraeg a chyflawni'r Cynnig Rhagweithiol.
- 8.2 Adlewyrchir hyn yn y theori newid, sy'n nodi y byddai angen ffocws clir ar y Gymraeg o fewn cynlluniau a chamau gweithredu lleol ar ddatblygu'r gweithlu, hyfforddi, recriwtio, sefydlu a chyflenwi gwasanaethau er mwyn cyflawni nodau *Mwy na geiriau*. Mae'r theori yn tybio y byddai'r ffocws ar y Gymraeg o fewn y cynlluniau a'r camau gweithredu hyn yn cael ei lywio gan ddata sy'n ymwneud â sgiliau Cymraeg y gweithlu ac anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r theori newid hefyd yn tybio y byddai aelodau presennol y gweithlu yn ymgymryd â hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus.
- 8.3 Adolygodd y gwerthusiad i ba raddau y mae lleoliadau ar draws y sector wedi datblygu cynlluniau, polisiau ac arferion recriwtio a hyfforddi sy'n canolbwyntio ar gynyddu gallu yn y Gymraeg a defnydd o'r iaith yn y gweithle.

Uwchsgilio'r gweithlu presennol

- 8.4 Cyfeiriodd y rhanddeiliaid at amrywiol enghreifftiau o hyfforddiant iaith Gymraeg a gynigiwyd i aelodau o'r gweithlu, ac y manteisiwyd arno. Roedd y rhain yn amrywio o hyfforddiant a gynigiwyd i'r holl aelodau o staff â diddordeb a ddarparwyd gan diwtor Cymraeg penodedig mewn un bwrdd iechyd, i aelodau o staff yn cael eu cyfeirio at gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg lleol ac adnoddau hyfforddiant ar-lein mewn byrddau iechyd eraill. Nododd nifer o swyddogion iaith Gymraeg eu bod wedi cyfeirio staff a oedd â diddordeb mewn dysgu Cymraeg at adnoddau hyfforddiant Cymraeg ar-

lein am ddim, wedi'u teilwra ar gyfer gweithwyr yn y sector iechyd a gofal, sydd ar gael drwy Cymraeg Gwaith.¹⁰

- 8.5 Mae'n ymddangos bod y mwyafrif o enghreifftiau o hyfforddiant Cymraeg a gynigiwyd ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi'u hanelu at y rhai a oedd yn dysgu Cymraeg ar lefel mynediad neu ar lefel sylfaen. Nodwyd llai o enghreifftiau o hyfforddiant wedi'i anelu at y rhai â sgiliau canolradd neu lefel uwch. Fodd bynnag, nododd rhai rhanddeiliaid mai gweithwyr â sgiliau Cymraeg canolradd neu lefel uwch sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r sgiliau hyn yn y gweithle os oes ganddynt yr hyder ac os cânt gyfle i wneud hynny - gweler hefyd adran 8.10.
- 8.6 Mae'n ymddangos bod yr agwedd gyffredinol tuag at hyfforddiant a chefnogaeth o ran y Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd yn seiliedig ar anogaeth garedig. Yn ôl swyddogion iaith, mae'r dull hwn wedi gweithio'n dda mewn llawer o achosion ac mae rhanddeiliaid yn ei ystyried yn gyffredinol fel y dull mwyaf priodol, o ystyried y pwysau gwaith sylweddol y mae llawer o weithwyr gofal iechyd eisoes yn ei ysgwyddo. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn adlewyrchu'r hyfforddiant iaith Gymraeg wedi'i dargedu y nododd rhai rhanddeiliaid y byddai ei angen er mwyn sicrhau cynnydd sylweddol yng ngallu'r gweithlu presennol yn y Gymraeg. Nid yw'n ymddangos ychwaith bod y dull hwn yn adlewyrchu'r rhagdybiaeth yn y theori newid y byddai hyfforddiant i wella sgiliau Cymraeg yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus ar draws y gweithlu. Fodd bynnag, prin yw'r data sydd ar gael ar sgiliau Cymraeg y gweithlu a'r blychau yn y sgiliau hynny i lywio datblygiad dulliau hyfforddi wedi'u targedu - gweler adran 4.19.
- 8.7 Yn y sector gofal cymdeithasol, bu GCC yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2018-19 i gyflwyno hyfforddiant ac iddo fwy o ffocws drwy'r rhaglen beilot Cymraeg Gwaith. Y nod oedd cynyddu nifer y gweithwyr gofal a allai weithio drwy gyfrwng y Gymraeg - gweler enghraifft

¹⁰ Rhaglen a ddyluniwyd i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle yw [Cymraeg Gwaith](#). Ariennir y cynllun gan Lywodraeth Cymru ac fe'i datblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Enghraifft 6. Cymraeg Gwaith yn y Sector Gofal Cymdeithasol

Er 2016, mae cynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cynnig cyfleoedd i weithwyr yng Nghymru wella eu sgiliau Gymraeg a'u hyder i ddefnyddio'r iaith yn eu gweithle.

Yn ystod 2018-19, gweithiodd y Ganolfan gyda GCC i ddatblygu cynllun penodol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol. Nod y cynllun oedd cynyddu nifer y gweithwyr gofal sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant i'w galluogi i wella eu sgiliau iaith. Yr amcan oedd gwella safon y gwasanaethau i'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth, a chyfrannu tuag at y weledigaeth a amlinellir yn *Mwy na geiriau*.

Roedd y cynllun yn cynnwys asesiad o lefel y Gymraeg i nodi anghenion dysgu'r gweithlu, cwrs ar-lein yn benodol ar gyfer y sector gyda chynllun hyrwyddo i'r gweithlu, a strwythur i dreialu dysgu dwys dros gyfnod estynedig gan ddilyn modelau dysgu amrywiol.

Mae peth o waith GCC wedi cael ei lywio gan Gynllun Gweithredu ar gyfer Dementia Llywodraeth Cymru 2018-22 (2018c). Mae gan GCC gysylltiadau agos â'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia. Yn hynny o beth, ymrwymodd y sefydliad i sicrhau bod gweithwyr sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia yn cymryd rhan yng nghynllun Cymraeg Gwaith 2019-20.

Casglodd GCC adborth ar effaith y cynllun ar ddysgwyr. Cyn cymryd rhan yn y cynllun, roedd mwyafrif y dysgwyr wedi dweud bod eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn gyfyngedig. Ar ôl cymryd rhan, nododd y dysgwyr fod eu hyder i ddefnyddio'r iaith wedi cynyddu ac y byddent yn:

- ymarfer eu Cymraeg gyda chydweithwyr
- ateb y ffôn yn Gymraeg
- siarad â chleifion yn Gymraeg
- defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol bob dydd.

8.8 Nododd y rhanddeiliaid, er bod mentrau fel yr un yn enghraifft 6 yn annog gweithwyr i fanteisio ar hyfforddiant iaith, roedd rhai gweithwyr gofal cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r amser i fynychu cyrsiau wyneb yn wyneb. Dywedodd y rhanddeiliaid fod rhai gweithwyr gofal cymdeithasol hefyd yn amharod i gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant Cymraeg, gan eu bod yn ofni'r disgwyliadau academaidd a allai fod yn gysylltiedig â hynny. Nodwyd ymhellach fod rhai cyflogwyr mewn cartrefi gofal yn amharod i gynnig hyfforddiant Cymraeg i'w staff oherwydd, yn eu barn nhw, ei bod yn aml yn anodd cadw staff a chanddynt sgiliau Cymraeg.

'Yn aml, gall gofalwyr sydd â sgiliau Cymraeg ddod o hyd i waith mewn sectorau eraill sy'n cynnig cyflogau uwch - felly gall fod yn anodd dal gafael ynddyn nhw.' (rhanddeiliad, yn cyfeirio at sgiliau Cymraeg mewn cartrefi gofal)

8.9 Er mwyn annog rhagor o weithwyr yn y sector gofal cymdeithasol i fanteisio ar yr hyfforddiant iaith Gymraeg a gynigir, nododd rhai rhanddeiliaid fod angen rhagor o ymdrechion tebyg i'r rhai a amlinellir yn adran 8.22 i wneud gweithwyr yn ymwybodol o'r gwahaniaeth cadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei wneud i'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i siaradwyr Cymraeg sydd dan eu gofal.

Defnyddio sgiliau Cymraeg yn y gweithle

8.10 Nid yw annog a chefnogi gweithwyr i ddatblygu a gwella eu sgiliau Cymraeg ynddo'i hun yn sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod yna lawer o weithwyr ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gallu siarad Cymraeg ond nad ydynt yn defnyddio'r iaith yn eu gwaith o ddydd i ddydd. O ran y gweithwyr hyn, nid cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach sydd ei angen arnynt o reidrwydd, ond anogaeth a chefnogaeth i ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddynt eisoes.

8.11 Dywedodd y rhanddeiliaid fod llawer o'r amharodrwydd ymhlith gweithwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle yn deillio o ddiffyg hyder yn ogystal â phryderon efallai na fydd eu sgiliau Cymraeg yn ddigon da. Mae peth o'r amharodrwydd hefyd yn seiliedig ar ofnau y gallent gamddehongli

gwybodaeth glinigol a rennir yn Gymraeg, a allai arwain at ganlyniadau difrifol. Fodd bynnag, nododd rhai rhanddeiliaid y gallai methu â darparu gwybodaeth glinigol yn Gymraeg arwain at gam-gyfleu gwybodaeth mewn rhai achosion, a allai arwain at ganlyniadau yr un mor ddifrifol.

- 8.12 Dywedodd y rhanddeiliaid fod rhai ymarferwyr meddygol yn ofni y bydd dechrau sgwrs yn Gymraeg yn gwneud i gleifion ddisgwyl i bob agwedd ar eu hymgyngoriad gael ei chynnal yn Gymraeg. Felly mae rhai ymarferwyr yn cuddio eu sgiliau Cymraeg er mwyn osgoi codi disgwyliadau nad ydynt yn teimlo y gallant eu bodloni.

'Wrth ystyried siarad Cymraeg â chleifion, yr ymateb cyntaf gan lawer o ymarferwyr gofal iechyd yw panig a dweud "ond dwi ddim yn gwybod y termau meddygol yn Gymraeg - efallai y byddaf yn defnyddio'r geiriau anghywir". (rhanddeiliad)

- 8.13 Nododd y rhanddeiliaid hefyd fod rhai unigolion yn y sector (yn enwedig yn y sector iechyd) yn ystyried mai Saesneg yw iaith 'broffesiynol' y gweithle ac felly mai dyma'r brif iaith, os nad yr unig iaith, y dylid ei defnyddio mewn sefyllfaoedd clinigol.

'O ran sgysiau meddygol neu dechnegol, Saesneg yn aml yw'r norm... ystyrir mai Saesneg yw'r iaith broffesiynol ac felly'r iaith â statws.' (rhanddeiliad)

- 8.14 Er mwyn annog gweithwyr i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg sydd ganddynt, nododd rhai rhanddeiliaid fod angen gwneud mwy o ymdrech i chwalu rhai o'r 'mythau' a nodir uchod sy'n 'gwaethygu ofnau a phryderon' ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Roedd y rhanddeiliaid hyn o'r farn bod angen hefyd i leoliadau greu amgylchedd lle mae gweithwyr yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg o leiaf heb boeni y byddant yn cael eu beirniadu neu eu barnu am safon neu ansawdd eu sgiliau iaith.

- 8.15 Gall hyd yn oed defnyddio rhywfaint o Gymraeg wneud gwahaniaeth mawr i ddefnyddwyr gwasanaethau. Nododd rhai defnyddwyr gwasanaethau y gallai dim ond cael eu cyfarch yn Gymraeg wneud iddyn nhw a'u perthnasau deimlo'n fwy cartrefol - gweler enghreifftiau 3 a 4 o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau isod. Gall hwn fod yn bwynt y mae angen ei bwysleisio ymhellach ar draws y gweithlu.

- 8.16 Mae'r theori newid yn tybio y byddai hyfforddiant sgiliau Cymraeg a ddarperir i staff yn cynnwys gweithgareddau sydd â'r nod o annog a galluogi siaradwyr Cymraeg i ddatblygu'r hyder sydd ei angen i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle.

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: enghraifft 3

Mae'r enghraifft ganlynol yn seiliedig ar brofiad defnyddiwr gwasanaeth gyda'i meddyg teulu lleol. Nododd y defnyddiwr gwasanaeth fod un o'r meddygon teulu yn ei phractis lleol yn gallu siarad Cymraeg ac o'r herwydd byddai'n gwneud pwynt o siarad Cymraeg â'r meddyg teulu wrth ymweld â'r practis. Fodd bynnag, nododd y defnyddiwr gwasanaeth ei bod yn amlwg nad oedd y meddyg yn teimlo'n hollol gyfforddus yn siarad Cymraeg yn ôl gyda hi. Tybiodd y defnyddiwr gwasanaeth mai diffyg hyder y meddyg o ran siarad Cymraeg oedd i'w gyfrif am hyn. Byddai'r meddyg yn aml yn ymddiheuro am ei Gymraeg gan nodi mai dim ond 'Cymraeg Gorllewin Cymru' oedd ganddo, fel pe bai hyn yn israddol rhyw fodd. Nododd y defnyddiwr gwasanaeth nad oedd yn credu ei bod yn bwysig pa mor dda yr oedd y meddyg yn gallu siarad Cymraeg; y ffaith ei fod yn siarad Cymraeg o gwbl oedd yr hyn a wnaeth iddi deimlo'n fwy cartrefol.

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: enghraifft 4

Mae'r enghraifft ganlynol yn seiliedig ar brofiadau defnyddiwr gwasanaeth yr oedd ei ewythr wedi derbyn gofal mewn cartref gofal ychydig flynyddoedd yn ôl. Roedd rhai o staff y cartref yn gallu siarad Cymraeg ond nid eraill. Roedd gan ewythr y defnyddiwr gwasanaeth ddementia ac er ei fod yn gallu deall Cymraeg a Saesneg daeth yn amlwg oherwydd ei gyflwr bod y ffaith bod staff gofal yn siarad ag ef yn Saesneg yn hytrach nag yn Gymraeg yn ei gynhyrfu ai wneud yn fwy pigog. Nododd y defnyddiwr gwasanaeth nad oedd ei hewythr angen i bawb gael sgysiau hir ag ef yn Gymraeg. Pethau syml fel gofyn iddo yn Gymraeg a oedd yn iawn oedd y cyfan oedd ei angen - 'gallai unrhyw un ddysgu gwneud hynny'.

'Hyd yn oed pe gallen nhw [staff cartrefi gofal] ofyn iddo yn Gymraeg a oedd eisiau paned - byddai hynny wedi gwneud byd o wahaniaeth - ond ni wnaethant yr ymdrech i wneud hyd yn oed hynny.'

- 8.17 Nodwyd rhai enghreifftiau o grwpiau a rhwydweithiau a oedd wedi'u sefydlu mewn rhai lleoliadau i annog gweithwyr i siarad Cymraeg â'i gilydd mewn amgylchedd anffurfiol - er enghraifft yn ystod amser coffi neu amser cinio. Roedd y sesiynau grŵp anffurfiol hyn yn aml yn cael eu hwyluso gan swyddog iaith ac wedi'u hanelu at weithwyr a allai siarad Cymraeg ond nad oedd ganddynt yr hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Y bwriad oedd y byddai defnyddio mwy o Gymraeg yn anffurfiol gyda chydweithwyr yn cynyddu eu hyder i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn eu gwaith.
- 8.18 Nododd y swyddogion iaith fod grwpiau anffurfiol fel y rhain yn aml yn boblogaidd ymhlith ymarferwyr, ond bod dod o hyd i amser cyfleus i gwrdd â'i gilydd wedi bod yn her yn y gorffennol. Gwaethygodd yr heriau hyn ymhellach yn ystod y pandemig COVID-19 gan fod cyfleoedd i weithwyr gwrdd mewn grwpiau o unrhyw fath i gymryd rhan mewn unrhyw fath o weithgaredd dysgu yn gyfyngedig.
- 8.19 Mae swyddogion a hyrwyddwyr y Gymraeg hefyd wedi annog gweithwyr i ddefnyddio mwy ar eu sgiliau Cymraeg drwy godi eu hymwybyddiaeth o

bwysigrwydd darpariaeth Gymraeg a'r angen i gyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol. Gwnaed hyn drwy gyflwyno enghreifftiau ysgrifenedig a fideos i weithwyr yn amlinellu'r effaith gadarnhaol y mae cynnig gwasanaethau Cymraeg wedi'i chael ar ganlyniadau iechyd a llesiant defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg - gweler hefyd adrannau 8.22-8.23 ar sefydlu.

Recriwtio a sefydlu

- 8.20 Mae Pennod 5 yn cyfeirio at enghraifft lle y gwnaed cynnydd mewn practisau i recriwtio mwy o staff â sgiliau Cymraeg ar gyfer rhai swyddi mewn lleoliadau gofal iechyd (gweler enghraifft 5). Noda Adran 5.5. hefyd fod amharodrwydd o hyd i gynnwys sgiliau Cymraeg fel gofyniad mewn swydd-ddisgrifiadau, yn enwedig ar gyfer swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi.
- 8.21 Fodd bynnag, nododd rhai rhanddeiliaid enghreifftiau lle roedd cydweithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol wedi eu siomi ar yr ochr orau gan nifer ac ansawdd yr ymgeiswyr a oedd wedi ymgeisio am swyddi a oedd yn cynnwys sgiliau Cymraeg fel gofyniad yn y swydd-ddisgrifiad. Ym marn y rhanddeiliaid hyn, dylid rhannu enghreifftiau o ganlyniadau recriwtio cadarnhaol yn eang ar draws y sector, er mwyn herio'r hyn yr oeddent yn ei ystyried mewn sawl achos yn 'bryderon diangen' ynghylch cynnwys sgiliau Cymraeg fel gofyniad wrth recriwtio.
- 8.22 Er ei bod yn ymddangos bod y cynnydd o ran gweithredu prosesau sydd wedi'u hanelu'n benodol at recriwtio mwy o staff â sgiliau Cymraeg i'r gweithlu yn gyfyngedig mewn sawl maes o'r sector, ymddengys fod cynnydd pellach wedi'i wneud o ran codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg ymhlith recriwtiaid newydd. Nododd swyddogion iaith fod nodau *Mwy na geiriau* a'r Cynnig Rhagweithiol yn cael eu cyflwyno i'r holl staff newydd fel rhan o'u proses sefydlu. Yn ystod sesiynau sefydlu, dangosir clipiau fideo byr a gwybodaeth arall i recriwtiaid newydd sy'n dangos sut y gall darparu gwasanaethau Cymraeg gefnogi canlyniadau gofal iechyd cadarnhaol i lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn ôl swyddogion y Gymraeg, mae enghreifftiau ymarferol o'r natur hon wedi ennyn ymateb cadarnhaol ymysg y mwyafrif o recriwtiaid newydd ym mhob math o swyddi.

- 8.23 Adroddodd y rhanddeiliaid fod recriwtiaid newydd o fewn byrddau iechyd lleol hefyd yn cael cynnig gwybodaeth yn aml fel rhan o'u pecynnau sefydlu am gyfleoedd i gael hyfforddiant iaith Gymraeg, yn ogystal â chanllawiau sy'n cynnwys termau Cymraeg y gallant eu defnyddio yn y gweithle. Roedd y cyfleoedd i ddarparu sesiynau sefydlu wedi bod yn gyfyngedig o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19. Fodd bynnag, nododd swyddogion iaith fod sicrhau bod yr holl recriwtiaid newydd yn ymwybodol o'r angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn parhau i fod yn un o'u bwriadau allweddol.
- 8.24 Mewn perthynas â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sector, mae'r canfyddiadau uchod yn dangos bod cynnydd wedi'i wneud o ran yr hyfforddiant iaith Gymraeg sydd ar gael wedi'i anelu at weithwyr sy'n newydd i'r Gymraeg a'r nifer sy'n manteisio arno. Gwnaed cynnydd hefyd mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth gweithwyr, yn enwedig recriwtiaid newydd, o'r angen am wasanaethau Cymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol. Roedd llai o dystiolaeth i gefnogi'r rhagdybiaeth yn y theori newid y byddai hyfforddiant ac arferion datblygu'r gweithlu eraill yn annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle. Hefyd, dim ond ambell enghraifft a oedd ar gael o gyflwyno arferion i recriwtio mwy o sgiliau Cymraeg i'r sector.

9. Rheoleiddio ac Arolygu

- 9.1 Noda fframwaith olynol *Mwy na geiriau* fod rôl yr arolygiadau yn hanfodol o ran asesu a yw gwasanaethau'n dilyn egwyddorion y Cynnig Rhagweithiol ac o ran nodi a yw defnyddwyr gwasanaethau yn cael 'gofal ieithyddol addas.'
- 9.2 Un o'r rhagdybiaethau yn y theori newid yw y byddai iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a lleoliadau gofal cymdeithasol yn cael eu dwyn i gyfrif yn rheolaidd mewn perthynas â'r cynnydd a wnânt tuag at wella gallu eu gweithlu yn y Gymraeg a darparu gwasanaethau Cymraeg.
- 9.3 Adolygodd y gwerthusiad i ba raddau y mae cynnydd yn erbyn nodau *Mwy na geiriau* wedi cael ei asesu, i ba raddau y mae gwasanaethau wedi cael eu dwyn i gyfrif mewn perthynas â chynnydd tuag at gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol a phwy sydd wedi cael ei ddwyn i gyfrif.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

- 9.4 Mae AGIC yn arolygu pob math o leoliadau'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys ysbytai, meddygfeydd, deintyddion y GIG yn ogystal â llawer o leoliadau iechyd annibynnol. Fel rhan o'r rôl hon, mae'r arolygiaeth yn gwirio bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu gan wasanaethau gofal iechyd¹¹.
- 9.5 Mae'r dystiolaeth werthuso a gasglwyd yn dangos bod arolygiadau AGIC yn blaenoriaethu ymchwilio i safonau clinigol y lleoliadau y maent yn ymweld â nhw. Er bod y defnydd o'r Gymraeg yn ystyriaeth glinigol, mae i ba raddau y gall AGIC archwilio sut mae lleoliadau'n defnyddio'r Gymraeg yn aml wedi'i gyfyngu i adolygu i ba raddau y mae arwyddion a gwybodaeth Gymraeg ar gael yn ogystal ag i ba raddau y defnyddir llinynnau gwddf i alluogi pobl i adnabod pa aelodau o staff sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ynghylch a allant gael mynediad at wasanaethau Cymraeg yn cael ei gofnodi mewn holiaduron defnyddwyr gwasanaethau y mae AGIC yn eu dosbarthu o bryd i'w gilydd.

¹¹ [Datganiad Iaith Gymraeg Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru](#)

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

- 9.6 Mae AGC yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau a lleoliadau sy'n amrywio o warchodwyr plant i gartrefi i bobl hŷn. Fel rhan o'i chylch gwaith, mae AGC yn adolygu a yw Cynnig Rhagweithiol yn cael ei wneud i ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn adrodd ar hynny yn ogystal ag arolygu i ba raddau y mae lleoliadau gofal yn defnyddio'r Gymraeg ar arwyddion ac mewn arddangosfeydd gwybodaeth gyhoeddus ac yn cadw at nodau *Mwy na geiriau*¹².
- 9.7 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos bod sicrhau bod gan staff ganllawiau hyfforddi a sefydlu sy'n ymwneud â'r Cynnig Rhagweithiol yn flaenoriaeth i AGC. Mae gan AGC arolygwyr sy'n siarad Cymraeg hefyd a all ganolbwyntio ar y pwyntiau hyn yn ystod ymweliadau â lleoliadau. Fodd bynnag, mae adolygu'r cynnydd a gyflawnwyd mewn perthynas â'r Gymraeg yn un o ystod eang o flaenoriaethau arolygu eraill y mae AGC yn ymgymryd â nhw.
- 9.8 Nododd un rhanddeiliad, mewn rhai achosion, fod canllawiau a gynigiwyd i gartrefi gofal gan GCC ynghylch meysydd y dylid eu blaenoriaethu er mwyn cyflawni nodau *Mwy na geiriau* wedi bod yn wahanol i'r meysydd a flaenoriaethwyd mewn arolygiadau gan AGC wrth adolygu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r un nodau. Mewn rhai achosion mae hyn wedi achosi dryswch a rhwystredigaeth i'r lleoliadau gofal dan sylw. Mewn ymateb i hyn, mae GCC ac AGC wedi bod yn cydweithio i sicrhau bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu gan y ddau sefydliad.
- 9.9 Nododd rhai rhanddeiliaid nad AGC ac AGIC sy'n gwbl gyfrifol am asesu cynnydd lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn erbyn nodau *Mwy na geiriau* ac nad y nhw ddylai fod yn gwbl gyfrifol am hynny ychwaith. Yn lle hynny, nodwyd y dylai arweinwyr mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol fod yn atebol am eu cynnydd eu hunain. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a ganfuwyd yn y gwerthusiad i awgrymu bod arweinwyr mewn lleoliadau ar draws y sector hyd yma wedi dwyn eu hunain i gyfrif fel hyn.

¹² Arolygiaeth Gofal Cymru - [Mwy na geiriau: cynllun gweithredu ar gyfer Cymraeg ym maes iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol](#)

Adrodd ar gynnydd

- 9.10 Bu'n ofynnol i swyddogion a hyrwyddwyr y Gymraeg adrodd i Lywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd ar y cynnydd yn erbyn nodau *Mwy na geiriau*. Fodd bynnag, ym marn rhai swyddogion Cymraeg, mae'r wybodaeth y bu'n ofynnol iddynt adrodd arni bob tro wedi'i seilio ar yr un themâu cyffredinol; o ganlyniad, mae'r wybodaeth a ddarperir ganddynt wedi bod yn ailadroddus ac yn amwys yn aml. Yn ogystal â hynny, nododd rhai swyddogion Cymraeg nad ydynt bob amser wedi derbyn adborth ar y cynnydd y maen nhw'n ei adrodd na'r ffordd maen nhw'n adrodd arno. Nododd y swyddogion iaith hyn fod diffyg adborth, ochr yn ochr â'r ffaith ei bod yn hysbys nad oedd unrhyw ganlyniadau mewn gwirionedd i fethu â chyflawni nodau *Mwy na geiriau*, ar adegau wedi creu anghymhellant i adrodd yn fanwl ar gynnydd.
- 9.11 Mae Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei gadeirio ganddi, yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer o gyrff proffesiynol. Mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi chwarae rhan bwysig a dylanwadol wrth ddadansoddi a chraffu ar gynnydd mewn perthynas â nodau *Mwy na geiriau*. Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd Partneriaeth unrhyw bwerau ffurfiol i ddwyn gwasanaethau i gyfrif mewn perthynas â'r cynnydd a gyflawnwyd yn erbyn y nodau hyn.

Fforymau Mwy na geiriau

- 9.12 Mae fforymau *Mwy na geiriau* wedi'u sefydlu mewn sawl rhan o Gymru; fodd bynnag, ymddengys mai fforwm Gogledd Cymru oedd y mwyaf gweithgar a'r un â'r cyfraddau mynychu uchaf. Mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o'r maes ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ledled Gogledd Cymru. Mae hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector addysg yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Nod y fforwm fu annog cydweithredu a chefnogaeth ar draws yr holl sefydliadau a lleoliadau perthnasol yng Ngogledd Cymru er mwyn cyflawni gofynion *Mwy na geiriau*. Adroddodd yr aelodau fod y fforwm yn cydnabod nad oedd pob ardal ddaearyddol ledled Gogledd Cymru yn dechrau o'r un man mewn perthynas

â chyflawni nodau *Mwy na geiriau*. Yn hynny o beth, un o'i nodau sylfaenol fu galluogi gwasanaethau i ddysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu arferion da.

- 9.13 Nid yw'r fforwm wedi dwyn unrhyw wasanaethau i gyfrif mewn perthynas â'u cynnydd yn erbyn nodau *Mwy na geiriau*. Fodd bynnag, gosodwyd cyd-dargedau cyflawni, ac mae'r aelodau wedi adrodd ar eu cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn ystod cyfarfodydd y fforwm. Nododd rhai aelodau o'r fforwm fod y broses o gwrdd yn rheolaidd â sefydliadau eraill ac adrodd ar gynnydd, wedi annog mwy o hunanatebolrwydd am gynnydd mewn amgylchedd cefnogol.

Safonau'r Gymraeg

- 9.14 Ym mis Mawrth 2016 daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar gyfer gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2019 daeth y safonau i rym ar gyfer sefydliadau'r GIG. O ganlyniad, mae gan leoliadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol rwymedigaeth statudol bellach i gyrraedd y safonau a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Gall Comisiynydd y Gymraeg gynnal ymchwiliadau statudol i amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â'r safonau, a gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i bobl berthnasol gydymffurfio â'r safonau neu roi cosb sifil iddynt yn y pen draw.
- 9.15 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu'r angen am y fframwaith strategol *Mwy na geiriau* nawr bod y safonau ar waith i ddwyn sefydliadau i gyfrif mewn perthynas â darparu gwasanaethau Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r safonau'n amlinellu'r fframwaith cyfreithiol y mae'n rhaid i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol gydymffurfio ag ef; mae *Mwy na geiriau* yn gosod fframwaith strategol sy'n amlinellu'r hyn y mae angen i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ei wneud er mwyn cryfhau darpariaeth Gymraeg a chyflawni egwyddorion y Cynnig Rhagweithiol. Felly roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn gwerthfawrogi eu bod yn chwarae rolau gwahanol, ond ategol, o ran cyflawni'r un nod o gynyddu gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. O'r herwydd, roedd mwyafrif y rhanddeiliaid o'r farn bod angen y ddau ar y sector.

'Os ydym yn defnyddio *Mwy na geiriau* fel y lens ar gyfer edrych ar Safonau'r Gymraeg, yna daw pwysigrwydd y safonau'n gliriach.'
(rhanddeiliad)

Atebolrwydd Mwy na geiriau mewn lleoliadau gofal sylfaenol annibynnol

- 9.16 Mae nodau *Mwy na geiriau* yn ymwneud â'r holl wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Roedd y rhanddeiliaid o'r farn, mewn llawer o achosion, bod effaith *Mwy na geiriau* ar ddarpariaeth Gymraeg wedi cael ei chryfhau gan ddylanwad statudol Safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae lleoliadau gofal sylfaenol annibynnol (e.e. practisau meddygon teulu, practisau deintyddol ac optegwyr) wedi'u heithrio o'r safonau ar hyn o bryd, er mai drwy ofal sylfaenol y daw'r rhan fwyaf o unigolion i gysylltiad â gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru.
- 9.17 Nododd un rhanddeiliad, heb bŵer statudol y safonau, ei bod yn aml wedi bod yn heriol annog meddygfeydd teulu i flaenoriaethu cyflawni nodau *Mwy na geiriau*. Nododd arolwg yn 2019 o'r Gymraeg mewn practisau meddygon teulu nad oedd y mwyafrif o feddygfeydd yn ymwybodol o'r Cynnig Rhagweithiol (58 y cant) a bod llai nag un o bob pump (19 y cant) yn ymwybodol ohono ac wedi gwneud rhywfaint o ymdrech i'w weithredu'n rhannol (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae hyn yn awgrymu bod gan *Mwy na geiriau* rôl arbennig o bwysig i'w chwarae o hyd o ran codi ymwybyddiaeth o'r angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a chamau gweithredu sy'n cefnogi cyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol ymhlith practisau meddygon teulu.
- 9.18 Mae'r canfyddiadau uchod yn dangos bod y graddau y mae gwasanaethau wedi'u dwyn i gyfrif am eu cynnydd tuag at gyflawni amcanion *Mwy na geiriau*, yn aml wedi bod yn gyfyngedig ac yn anghyson. Fodd bynnag, mae Safonau'r Gymraeg wedi cyflwyno mwy o atebolrwydd. Er nad yw'r atebolrwydd hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â *Mwy na geiriau*, drwy gydymffurfio â gofynion y safonau, mae gwasanaethau hefyd yn cyflawni llawer o'r nodau a gynhwysir yn *Mwy na geiriau*. Mae'r safonau, felly, yn anuniongyrchol, wedi darparu'r atebolrwydd y tybir ei fod yn angenrheidiol o fewn y theori newid.

10. **Barn defnyddwyr gwasanaethau ar argaeledd gwasanaethau Cymraeg**

10.1 Yr hyn sydd wrth wraidd fframwaith olynol *Mwy na geiriau* a'r Cynnig Rhagweithiol yw'r nod o ddiwallu anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r bennod hon yn cyflwyno safbwyntiau a fynegwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau ynghylch i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod gwasanaethau Cymraeg ar gael iddynt a'r gwahaniaeth a wnaeth hynny i ansawdd y gwasanaethau iechyd a gofal a gawsant. Cyflwynir y canfyddiadau mewn perthynas â thri phrif faes cyflenwi gwasanaethau:

- Cyswllt cychwynnol â gwasanaethau - argaeledd gwasanaeth Cymraeg pan wneir apwyntiad gyda darparwr gwasanaeth neu yn ystod cyswllt cychwynnol â staff y dderbynfa mewn lleoliadau gwasanaeth
- Derbyn gwybodaeth ysgrifenedig ac ar-lein yn Gymraeg - argaeledd gwybodaeth a gohebiaeth yn Gymraeg
- Y Cynnig Rhagweithiol - gwasanaethau Cymraeg ar gael ac yn cael eu darparu heb orfod gofyn amdanynt.

Cyswllt cychwynnol â gwasanaethau

10.2 I lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau, y cyswllt cychwynnol amlaf a gawsant â'r maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol oedd gyda thimau derbynfa mewn lleoliadau gofal sylfaenol. Nododd rhai defnyddwyr gwasanaethau a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r gwerthusiad hwn, yn bennaf y rhai sydd wedi'u lleoli mewn rhannau o Gymru lle y siaredir Cymraeg yn bennaf, fod eu cyswllt cyntaf â staff derbynfa mewn lleoliadau gofal sylfaenol fel arfer yn Gymraeg. Fodd bynnag, nododd defnyddwyr gwasanaethau mewn ardaloedd eraill mai prin oedd y cyfleoedd, os o gwbl, i siarad â staff y dderbynfa mewn lleoliadau gofal sylfaenol yn Gymraeg.

10.3 Canfu arolwg a gynhaliwyd gan Is-Grŵp Iechyd Cymdeithas yr Iaith (2020) nad oedd bron i hanner yr ymatebwyr (48 y cant) yn gallu cael unrhyw ddarpariaeth Gymraeg - nid hyd yn oed gyfarchiad Cymraeg gan staff y

dderbynfa - pan oeddent yn cysylltu â'u practis meddygon teulu lleol.¹³ Nododd arolwg o'r Gymraeg mewn practisau meddygon teulu a gynhaliwyd yn 2019 nad oedd gan y mwyafrif o feddygfeydd yng Nghymru (86 y cant) bolisi o ran pa iaith/ieithoedd y dylai staff eu defnyddio wrth ateb y ffôn (Llywodraeth Cymru, 2019).

- 10.4 Nododd dau ddefnyddiwr gwasanaeth o Dde Cymru eu bod wedi cael eu siomi ar yr ochr orau yn ddiweddar bod y neges ffôn awtomataidd ar gyfer eu meddygfa yn cynnig opsiwn i dderbyn gwybodaeth wedi'i recordio yn Gymraeg neu Saesneg. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr achosion hynny, nid oedd y derbynnydd y siaradwyd ag ef yn y pen draw yn gallu siarad Cymraeg.
- 10.5 Nododd rhai defnyddwyr gwasanaethau eu bod yn gyfarwydd â staff y dderbynfa yn y lleoliadau gofal sylfaenol a/neu gymdeithasol yr oeddent yn eu defnyddio'n rheolaidd. Felly roedd defnyddwyr gwasanaethau'n gwybod pa dderbynyddion oedd yn siarad Cymraeg ac roedd y derbynyddion Cymraeg yn gwybod pwy oedd y defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg. O'r herwydd, roedd y rhyngweithio â staff y dderbynfa yn Gymraeg yn digwydd yn awtomatig.
- 10.6 Fodd bynnag, nododd defnyddwyr gwasanaethau eu bod fel arfer yn ansicr a allai staff derbynfa mewn ysbytai siarad Cymraeg ai peidio, yn enwedig wrth gysylltu dros y ffôn. Nododd defnyddwyr gwasanaethau oni bai eu bod yn cael eu cyfarch gan staff y dderbynfa mewn ysbytai yn Gymraeg neu yn achos cyswllt wyneb yn wyneb, os nad oedd yr aelod o staff yn gwisgo'r llinyn gwddf neu'r bathodyn laith Gwaith, byddent yn tybio na allai'r aelod o staff siarad Cymraeg. Yn yr achosion hyn, roedd defnyddwyr gwasanaethau'n teimlo rheidrwydd i ddechrau a pharhau eu sgwrs â staff y dderbynfa yn Saesneg, hyd yn oed pe bai'r aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg.
- 10.7 Nododd mwyafrif y defnyddwyr gwasanaethau nad oeddent yn disgwyl cael pob gwasanaeth yn Gymraeg. Fodd bynnag, roedd llawer o'r farn hefyd y byddai'n gymharol hawdd i staff y dderbynfa ddefnyddio cyfarchion

¹³ Dylid nodi bod y canfyddiadau hyn yn seiliedig ar sampl gymharol fach, ac nad yw'n gynrychioliadol o'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau.

Cymraeg gyda'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau, hyd yn oed pe na allent barhau â'r sgwrs yn Gymraeg. Byddai hyn ynddo'i hun, yn eu barn nhw, yn gynydd cadarnhaol tuag at normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg.

'Pe gallai mwy o staff gyfarch pobl yn Gymraeg, neu hyd yn oed ddweud geiriau syml yn Gymraeg, byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr - dylai pawb allu gwneud hynny o leiaf.'
(defnyddiwr gwasanaeth)

- 10.8 Mae Pennod 6 yn nodi bod arwyddion gweledol i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg wedi helpu defnyddwyr gwasanaethau i adnabod y rhai y gallent ryngweithio â nhw yn Gymraeg mewn lleoliadau iechyd a gofal. Fodd bynnag, nid oeddent o reidrwydd yn cael eu defnyddio gan yr holl aelodau o staff.

Derbyn gwybodaeth Gymraeg wedi'i hargraffu ac ar-lein

- 10.9 Nododd defnyddwyr gwasanaethau fod y graddau y mae gwybodaeth ddwyieithog ar gael yn amrywio ar draws gwasanaethau. Nododd un defnyddiwr gwasanaeth â chanser fod y rhan fwyaf o'r llythyrau a'r wybodaeth gyffredinol a gafodd gan yr ysbyty a gwasanaethau meddygol a chymdeithasol eraill yn ystod ei brofiad o gael triniaeth ar gyfer canser wedi cael eu darparu'n ddwyieithog. Fodd bynnag, nododd hefyd fod gwybodaeth benodol yn ymwneud â'i gyflwr yn aml ar gael yn Saesneg yn unig - gweler enghraifft 5 o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau. Nododd rhai rhanddeiliaid, fodd bynnag, fod camau cadarnhaol wedi'u cymryd mewn perthynas â chynhyrchu mwy o wybodaeth ddwyieithog, a chynigiwyd enghreifftiau o rai byrddau iechyd yn cynyddu eu buddsoddiad mewn gwasanaethau cyfieithu.

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: - enghraifft 5

Mae'r enghraifft ganlynol yn adlewyrchu profiadau defnyddiwr gwasanaeth a oedd yn byw gyda chanser ac wedi cael sawl gweithdrefn ac amrywiol driniaethau gan ystod o wasanaethau. Gan amlaf, roedd y wybodaeth a gafodd gan y darparwyr gwasanaethau hyn yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg, a oedd yn siom ar yr ochr orau.

Pan gafodd y defnyddiwr gwasanaeth driniaeth arbenigol yn yr uned ganser, cynigiwyd taflenni gwybodaeth amrywiol iddo yn ymwneud â'i fath penodol o ganser. Fodd bynnag, dim ond yn Saesneg yr oedd y wybodaeth hon ar gael. Pan ofynnodd pam nad oedd y wybodaeth ar gael yn Gymraeg, dywedwyd wrtho fod y taflenni gwybodaeth yn cael eu cynhyrchu yn Lloegr ac felly nad oedd fersiynau Cymraeg wedi'u cynhyrchu.

Dywedodd staff yr uned ganser hefyd wrth y defnyddiwr bod y geiriau a'r termau meddygol a ddefnyddir yn y dogfennau gwybodaeth yn gymhleth ac felly'n anodd iawn eu cyfieithu. Dywedwyd wrtho, hyd yn oed pe bai modd cyfieithu'r wybodaeth, mae'n annhebygol y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd â'r termau technegol hyn yn Gymraeg.

Dywedodd y defnyddiwr gwasanaeth ei fod yn cytuno y byddai rhywfaint o'r jargon technegol yn anodd ei ddeall yn Gymraeg, ond serch hynny, byddai wedi gwerthfawrogi cael y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn Gymraeg hyd yn oed pe bai'n cynnwys termau technegol Saesneg - os dyma'r termau a ddefnyddir yn gyffredin yn y ddwy iaith.

- 10.10 Nododd mwyafrif y defnyddwyr gwasanaethau eu bod yn derbyn llythyrau apwyntiad gan ysbytai yn Gymraeg a Saesneg, ond nid oedd hyn o reidrwydd yn wir am apwyntiadau gyda gwasanaethau gofal sylfaenol.
- 10.11 Nododd rhai defnyddwyr gwasanaethau mai dim ond yn Saesneg y cynigiwyd ffurflenni cofrestru iddynt pan oeddent yn defnyddio gwasanaethau yn y lle cyntaf. Hefyd, nododd rhai defnyddwyr gwasanaethau, hyd yn oed pan oedd ffurflen gofrestru yn gofyn iddynt nodi eu dewis iaith, nad oedd hyn o reidrwydd yn cael ei gydnabod yn y

gwasanaeth yr oeddent yn ei gael wedi hynny - gweler enghreifftiau 6 a 12 o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau.

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: enghraifft 6

Mae'r enghraifft ganlynol yn adlewyrchu profiadau defnyddiwr gwasanaeth a gofrestrodd fel claf newydd gyda meddygfa yn Ne Cymru. Dim ond yn Saesneg yr oedd y ffurflen gofrestru ar gael a dywedwyd wrtho nad oedd ffurflenni Cymraeg ar gael. Ar y ffurflen roedd blwch a oedd yn gofyn 'beth yw eich dewis iaith?' Nododd y defnyddiwr gwasanaeth mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith, ond nid oedd yn credu mai bwriad y cwestiwn hwn oedd holi am ddewisiadau o ran y Gymraeg a'r Saesneg, ond yn hytrach adnabod clefion nad oeddent yn gallu siarad Saesneg ac yr oedd angen gwasanaethau cyfieithu arnynt yn ystod ymgynghoriadau. Felly roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn teimlo braidd yn lletchwith yn rhoi Cymraeg ar y ffurflen ac yn teimlo efallai na ddylai fod wedi gwneud hynny. Ni chyfeiriwyd erioed at ei ddewis iaith, ac roedd y gwasanaeth a gafodd wedi hynny yn Saesneg yn unig.

- 10.12 Nododd un defnyddiwr gwasanaeth, er bod ffurflenni cofrestru a chydsynio Cymraeg a Saesneg ar gael mewn lleoliad yr oeddent yn ei fynychu, yn aml dim ond fersiynau Saesneg o'r ffurflenni hyn yr oeddent yn eu cynnig. Roeddent yn teimlo bod hyn yn rhwystredig ac, yn eu barn hwy, dangosodd y flaenoriaeth isel a roddwyd i'r Gymraeg mewn rhai lleoliadau gofal iechyd.

'Es i i'r ysbyty ychydig flynyddoedd yn ôl i gael llawdriniaeth [...].

Cefais ffurflen gydsynio i'w chwblhau cyn y driniaeth. Gofynnais am fersiwn Gymraeg - roeddwn yn siŵr bod un ganddyn nhw, ond dywedodd yr aelod o staff yno, "Does gen i ddim amser i hynny."

(Defnyddiwr gwasanaeth)

- 10.13 Nododd rhai defnyddwyr gwasanaethau, pan ddarparwyd gwybodaeth iddynt yn ddwyieithog, bod y fersiynau Cymraeg yn aml yn cynnwys termau nad oeddent yn gyfarwydd â nhw, neu nad oeddent yn defnyddio Cymraeg clir; roedd hyn, yn eu barn nhw, yn gwneud y wybodaeth yn anodd ei darllen a'i deall. Priodolodd un rhanddeiliad hyn i'r ffaith bod deunydd wedi'i

argraffu a ddefnyddir gan wasanaethau yn cael eu dylunio yn Saesneg, ac yna eu cyfieithu i'r Gymraeg yn ddiweddarach.

'Mae'n debyg bod hygyrchedd y wybodaeth ysgrifenedig a gynhyrchir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a pha mor hawdd ei deall ydyw yn cael ei ystyried yn y fersiwn Saesneg; fodd bynnag, mae llawer o hyn yn cael ei golli yn ystod y broses o'i chyfieithu i'r Gymraeg.'
(rhanddeiliad)

- 10.14 Nid gwybodaeth ysgrifenedig oedd yr unig ffynhonnell wybodaeth ddwyieithog a gynigiwyd i ddefnyddwyr gwasanaethau. Nododd un defnyddiwr gwasanaeth a gyfeiriwyd at wybodaeth iechyd meddwl ar-lein fod ansawdd rhai o'r fideos gwybodaeth Cymraeg sydd ar gael ar wefan y GIG yn is nag ansawdd gwybodaeth debyg a gyflwynir yn yr un fformat yn Saesneg yn ei barn hi - gweler enghraifft 7 o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau.

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: enghraifft 7

Mae'r enghraifft ganlynol yn adlewyrchu profiadau defnyddiwr gwasanaeth a oedd yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl. Cyfeiriodd y nyrs iechyd meddwl y defnyddiwr gwasanaeth at wybodaeth iechyd meddwl ddwyieithog a oedd ar gael ar-lein. Roedd llawer o'r wybodaeth hon, yn ei barn hi, yn dda iawn. Fodd bynnag, roedd peth o wybodaeth iechyd meddwl y GIG a oedd ar gael yn Gymraeg yn 'ofnadwy' yn ei barn hi.

Nododd y defnyddiwr gwasanaeth nad oedd y fideos Cymraeg a oedd ar gael ar rai o'r gwefannau wedi'u golygu'n iawn yn yr un ffordd â'r fersiynau Saesneg, ac roedd un person a oedd yn darparu gwybodaeth mewn fideo Cymraeg yn ymddangos yn anghyfforddus yn siarad yr iaith.

'Roedd yn swnio fel pe bai'n darllen o awtociw. Ar un adeg fe wnaeth gamgymeriad a dechrau chwerthin, fel pe bai'n gwatwar. Dylai hyn fod wedi cael ei olygu gan fod ei wyllo pan oedd fy meddwl yn fregus wedi peri gofid mawr i mi. '

Y Cynnig Rhagweithiol

- 10.15 Nododd defnyddwyr gwasanaethau amryw o brofiadau'n ymwneud â'r graddau y cynigiwyd gwasanaethau iddynt yn Gymraeg heb orfod gofyn amdano - h.y. y Cynnig Rhagweithiol. Roedd gallu defnyddwyr gwasanaethau i gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg yn amrywio ar draws ardaloedd daearyddol yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y nododd llawer o randdeiliaid, mae defnyddwyr gwasanaethau sydd angen gwasanaethau yn Gymraeg yn byw ym mhob rhan o Gymru nid dim ond yn yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn ehangach.
- 10.16 Mewn ardaloedd lle mae cyfrannau uwch o'r boblogaeth leol yn siarad Cymraeg, nododd y rhan fwyaf o'r defnyddwyr gwasanaethau a gyfwelwyd y gallent gael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol lleol yn Gymraeg heb orfod gofyn am hynny. Nododd defnyddwyr gwasanaethau mewn ardaloedd lle roedd cyfran is o'r boblogaeth leol yn siarad Cymraeg ei bod yn anodd cael gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol Cymraeg yn lleol, a phrin y cynigiwyd hynny iddynt heb iddynt orfod gofyn amdano.
- 10.17 Ymddengys fod defnyddio arwyddion gweledol i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg wedi rhoi hyder i lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau ryngweithio â staff yn Gymraeg (gweler adran 6.3) gan wella i ba raddau yr oedd defnyddwyr yn gallu manteisio ar Gynnig Rhagweithiol.
- 10.18 Nododd rhai o'r defnyddwyr gwasanaethau a oedd yn byw mewn ardaloedd lle roedd llai o wasanaethau Cymraeg ar gael y gallent weithiau gael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol yn Gymraeg pe byddent yn mynd ati i chwilio am leoliadau lle roedd y ddarpariaeth hon ar gael. Fodd bynnag, nid oedd y gwasanaethau hyn bob amser yn lleol iddynt ac roedd gallu defnyddwyr gwasanaethau i'w defnyddio yn aml yn dibynnu ar gael cludiant i deithio i'r lleoliadau lle roeddent yn cael eu darparu. Hyd yn oed pan oedd hyn wedi bod yn bosibl, nododd defnyddwyr gwasanaethau nad oeddent bob amser yn sicr o allu cael y gwasanaethau yr oeddent eu heisiau yn Gymraeg - gweler enghraifft 8 o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau.

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: enghraifft 8

Mae'r enghraifft ganlynol yn seiliedig ar ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n byw ym Mhowys a oedd â merch ifanc a oedd ond yn gallu siarad Cymraeg. Roedd mwyafrif y gwasanaethau gofal sylfaenol yn yr ardal yn cael eu darparu gan ymarferwyr Saesneg eu hiaith. Pan gyflogodd practis lleol feddyg teulu a oedd yn siarad Cymraeg, cafodd defnyddiwr y gwasanaeth ei siomi ar yr ochr orau a chofrestru ei hun a'i merch yn y practis hwn er mwyn cael gwasanaeth Cymraeg.

Roedd cofrestru yn y feddygfa yn broses syml, a chafodd gyfle i nodi yn ystod y broses honno eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, wrth drefnu apwyntiadau gyda'r feddygfa, canfu nad oedd bob amser yn bosibl nodi pa feddyg yr oeddent am ei weld. O'r herwydd, nid oedd sicrwydd y gallent gael apwyntiad gyda'r meddyg teulu a oedd yn gallu siarad Cymraeg er mai dyma'r prif reswm iddynt gofrestru gyda'r practis.

- 10.19 Nododd defnyddwyr gwasanaethau eraill a oedd yn byw mewn rhannau o Gymru lle mae cyfrannau is o'r boblogaeth leol yn siarad Cymraeg nad oeddent wedi gallu cael gwasanaethau gofal sylfaenol neu ofal cymdeithasol lleol yn Gymraeg hyd yn oed os oeddent yn gofyn amdano, gan nad oeddent ar gael. I rai o'r defnyddwyr gwasanaethau hyn, roedd diffyg gwasanaethau Cymraeg wedi achosi trallod iddynt ac mewn un achos, adroddwyd eu bod wedi cael sgil-ffeithiau niweidiol ar aelodau eraill o'r teulu - gweler enghraifft 9 o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau.
- 10.20 Fel y nodir uchod, cyfeiriodd rhai defnyddwyr gwasanaethau at enghreifftiau lle roeddent wedi newid darparwr gwasanaeth gofal sylfaenol er mwyn cael mynediad at wasanaeth Cymraeg. Fodd bynnag, roedd gallu defnyddwyr gwasanaethau i ddewis ym mha ysbyty yr oeddent yn cael triniaeth yn fwy cyfyngedig. Yn hynny o beth, roedd gallu defnyddwyr gwasanaethau i gael mynediad at wasanaethau Cymraeg mewn ysbytai, yn ôl rhanddeiliaid, fel arfer yn dibynnu a oedd gwasanaethau Cymraeg ar gael ar y pryd.

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: enghraifft 9

Roedd tad un defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a chafodd driniaeth yn y gymuned. Oherwydd cyflwr iechyd y tad, roedd angen i ofalwyr ddod i'r tŷ i ofalu amdano yn ystod y dydd. Daeth gofalwyr i'r tŷ am gyfnod byr. Fodd bynnag, nid oedd yr un ohonynt yn siarad Cymraeg ac roedd y tad yn anghyfforddus yn siarad â nhw yn Saesneg ac yn cynhyrfu ac yn mynd yn ofidus pan oedden nhw'n ymweld ag ef. Gofynnodd y teulu a allent gael gofalwyr sy'n siarad Cymraeg ond dywedwyd wrthynt nad oedd un ar gael. Ymhen tipyn, penderfynodd y teulu roi'r gorau i dderbyn gwasanaeth gofal cartref oherwydd ei fod yn peri gofid i'r tad.

Roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn sicr pe bai'r gofalwyr yn siarad Cymraeg - hyd yn oed pe baent ond yn cynnig cyfarchiad yn Gymraeg cyn troi i'r Saesneg - y byddai ei thad wedi teimlo'n fwy cyfforddus o'u cael yn y tŷ. Oherwydd bod y tad wedi gwrthod cael gofalwyr yn y tŷ, roedd y baich o ofalu amdano yn disgyn ar ei wraig oedrannus. Teimlai'r defnyddiwr gwasanaeth fod y pwysau o ofalu am ei gŵr dros amser wedi arwain at ddirywiad yn ei hiechyd, neu wedi cyfrannu ato.

- 10.21 Nododd defnyddwyr gwasanaethau a oedd yn honni y byddent yn aml yn gofyn am wasanaeth Cymraeg mewn sefyllfaoedd eraill pe na bai un yn cael ei gynnig iddynt yn awtomatig, eu bod yn amharod i wneud yr un peth â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig ysbytai. Y prif reswm oedd nad oeddent am 'greu ffwdan' na bod yn 'lletchwith', yn enwedig o gofio bod staff yn y lleoliadau hyn fel arfer yn 'brysur iawn' ac 'o dan lawer o bwysau'. Nododd rhai defnyddwyr gwasanaethau hefyd eu bod yn amharod i ofyn am wasanaeth Cymraeg pe na bai un yn cael ei gynnig iddynt yn awtomatig rhag ofn y gallai hyn arwain at orfod aros yn hwy am y gwasanaeth, a allai gael effaith negyddol ar eu gofal.

'Nid oes unrhyw arwydd amlwg yn y rhan fwyaf o leoedd [lleoliadau iechyd] i roi gwybod i chi ei bod hi'n iawn i siarad Cymraeg yma - felly rydych chi'n tueddu i siarad â phobl yn Saesneg yn unig.' (defnyddiwr gwasanaeth)

- 10.22 Nododd defnyddwyr gwasanaethau nad oedd gwasanaethau Cymraeg, yn enwedig gwasanaethau gofal iechyd arbenigol mewn ysbytai, ar gael o gwbl hyd yn oed mewn ardaloedd lle y siaredir Cymraeg yn bennaf. Nododd rhai defnyddwyr gwasanaethau y gofynnwyd iddynt beth oedd eu dewis iaith cyn mynychu apwyntiadau ysbyty. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn achosion pan nodwyd mai Cymraeg oedd eu dewis, nid oedd yn dilyn yn awtomatig eu bod yn derbyn gwasanaeth yn Gymraeg - gweler enghraifft 10 o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau.
- 10.23 I'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau a gafodd eu cyfweld - yn enwedig y rhai mewn ardaloedd lle roedd cyfran is o'r boblogaeth leol yn siarad Cymraeg, - roedd cael gwasanaethau Cymraeg yn yr ysbyty fel arfer yn digwydd ar hap. Nododd mwyafrif y defnyddwyr gwasanaethau nad oeddent yn disgwyl cael gwasanaeth Cymraeg mewn ysbytai, ac nid oedd yr un ohonynt wedi gofyn am wasanaethau Cymraeg mewn ysbyty pe na bai'n cael ei gynnig. Fodd bynnag, nododd defnyddwyr gwasanaethau a oedd wedi cael gwasanaeth Cymraeg mewn ysbyty ei fod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol mawr iddynt - gweler enghraifft 11 o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau.

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: enghraifft 10

Mae'r canlynol yn seiliedig ar brofiadau claf canser. Cynhaliwyd llawer o'r trafodaethau cynnar am ei ddiagnosis gyda'i feddyg teulu a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Roedd cael gwybodaeth am ei gyflwr yn anodd, ond roedd gallu gofyn cwestiynau, cyfleu ei bryderon a chael ymateb gan ei feddyg teulu yn ei iaith gyntaf, yn rhoi sicrwydd iddo ei fod yn deall orau y gallai beth oedd y sefyllfa. Roedd gallu siarad Cymraeg yn ystod yr ymgynghoriadau hyn hefyd yn gwneud iddo deimlo'n fwy cartrefol yn yr hyn a oedd eisoes yn sefyllfa ingol ac emosiynol.

Cyn mynychu ei apwyntiad cyntaf yn yr uned ganser yn ei ysbyty lleol, derbyniodd lythyr apwyntiad dwyieithog a oedd yn cynnig yr opsiwn iddo nodi ei ddewis iaith - Cymraeg neu Saesneg. Dewisodd y Gymraeg. Fodd bynnag, pan aeth i'w apwyntiad cyntaf yn yr uned ganser, nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth o'i ddewis iaith.

'Roedd yr holl wybodaeth a gefais gan yr uned yn uniaith Saesneg; roedd yr holl staff yn siarad Saesneg gyda mi; fe wnaeth hyd yn oed y nyrs a oedd yn gwisgo llinyn gwddf Cymraeg fy ateb yn Saesneg pan ofynnais gwestiwn iddi yn Gymraeg. Fe wnaeth hyn i mi feddwl tybed beth oedd pwynt cynnig dewis iaith i mi'.

Nododd y defnyddiwr gwasanaeth fod diffyg gwasanaeth Cymraeg yn yr ysbyty yn golygu nad oedd bellach yn teimlo mor sicr a chartrefol ynghylch yr hyn a oedd yn digwydd ag yr oedd wedi bod yn ystod y trafodaethau gyda'i feddyg teulu a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Bob tro yr oedd yn cael triniaethau arbenigol fel pelydr-X, sgan CAT a chemotherapi, roedd yn ymddangos mai Saesneg oedd yr unig iaith yr oedd yr ymarferwyr a oedd yn darparu'r gwasanaethau hyn yn ei siarad. Ar wardiau ysbytai cyffredinol ac mewn gwasanaethau nyrsio cymunedol, roedd y Gymraeg yn cael ei siarad yn amlach. Fodd bynnag, yn ystod ei driniaeth yn yr unedau arbenigol yr oedd yn teimlo fwyaf agored i niwed, ac ar yr adegau hyn y byddai wedi gwerthfawrogi fwyaf gallu siarad â rhywun yn Gymraeg.

'Roedd yn ymddangos i mi ar y pryd bod nyrsys a meddygon am ryw reswm yn teimlo ei bod yn angenrheidiol siarad Saesneg yn unig yn unedau arbenigol yr ysbyty hyd yn oed os oedden nhw'n gallu siarad Cymraeg'.

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: enghraifft 11

Mae'r enghraifft ganlynol yn seiliedig ar brofiadau defnyddiwr gwasanaeth a oedd yn ddioddef o sglerosis ymledol (MS). Roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn ystyried ei hun yn gwbl ddwyieithog ac felly yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd yn gallu sgwrsio cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pan gafodd ddiagnosis o MS gyntaf, bu'n rhaid iddi deithio dros y ffin i gael triniaeth. Nododd fod ei chyflwr yn ei rhoi dan ddigon o straen yn barod ond roedd gorfod teithio ymhell i dderbyn triniaeth yn ychwanegu at y straen. Fel mae'n digwydd, roedd un o'r meddygon yno'n gallu siarad Cymraeg.

'Pan sylweddolais fod y meddyg yn yr ysbyty yn gallu siarad Cymraeg, roeddwn i'n teimlo'n dawlach ar unwaith ac yn teimlo'n agosach rywsut at y meddyg. Gan fy mod wedi gallu ymlacio mwy, gallwn egluro'n well sut roeddwn i'n teimlo, ac roedd yn ymddangos bod y meddyg hefyd yn haws siarad ag ef ac roedd yn ymddangos ei fod yn defnyddio termau ac ymadroddion a oedd yn teimlo'n agosach at fy lefel i wrth esbonio pethau - fe wnaeth wahaniaeth mawr'.

Wrth i'w chyflwr ddatblygu, er ei bod yn dal i allu siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl, roedd yn teimlo ei bod weithiau'n ei chael hi'n anodd cofio termau neu eiriau Saesneg yr oedd eu hangen arni er mwyn cyfleu i ymarferwyr iechyd Saesneg eu hiaith sut roedd hi'n teimlo. Nododd y defnyddiwr gwasanaeth un enghraifft lle roedd myfyriwr Cymraeg yn bresennol yn ei sesiwn gyda Therapydd Galwedigaethol Saesneg ei iaith. Yn ystod y sesiwn canfu ei bod yn troi'n awtomatig at y myfyriwr i egluro pethau yn Gymraeg gan fod hyn yn llawer haws nag esbonio'r un peth yn glir i'r Therapydd Galwedigaethol.

- 10.24 Mae fframwaith olynol *Mwy na geiriau* yn amlinellu bod argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn 'elfen fwy sylfaenol fyth o'r gwasanaeth a ddarperir' i rai grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, pobl â dementia, pobl sydd wedi cael strôc a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith. Mae'r enghreifftiau a nodwyd yn gynharach yn y bennod hon yn ailddatgan pwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg i rai unigolion sy'n agored i niwed, er

enghraifft pobl hŷn - gweler enghreifftiau 9 a 12 o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau; plant ifanc - gweler enghraifft 8 o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau, a defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl - gweler enghraifft 7 o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau. Amlygwyd hefyd yr effaith a gafodd anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau cwnsela Cymraeg ar rai pobl ifanc mewn [erthygl gan y BBC](#) (2021). Disgrifiodd yr erthygl brofiadau dau berson ifanc a oedd wedi cael trafferth dod o hyd i gymorth cwnsela Cymraeg, a oedd, yn eu barn hwy, wedi effeithio ar eu cynnydd. Mae'r enghreifftiau hyn yn tynnu sylw at yr angen am wasanaethau Cymraeg sydd wedi'u hanelu'n benodol at ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed ac yn ategu ymhellach neges graidd *Mwy na geiriau* sef bod 'y defnydd o'r Gymraeg yn fwy na mater o ddewis yn unig, ei fod hefyd yn fater o angen... mae'n arbennig o bwysig i nifer o bobl agored i niwed a'u teuluoedd'.

- 10.25 Er mai barn a phrofiadau sampl fach o ddefnyddwyr gwasanaethau a adlewyrchir yn y canfyddiadau a gyflwynir uchod, maent yn cynnig arwydd o'r cynnydd, neu'r diffyg cynnydd, wrth gyflawni amcanion *Mwy na geiriau* o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn elfen hollbwysig o *Mwy na geiriau*. Roedd yn ymddangos bod y graddau yr oedd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol a'r math o wasanaeth a ddefnyddiwyd. Lle na wnaed Cynnig Rhagweithiol a lle nad oedd argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn glir, nododd defnyddwyr gwasanaethau eu bod fel arfer yn amharod i ofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Awgryma Pennod 4 fod barn defnyddwyr gwasanaethau yn adlewyrchu barn y rhanddeiliaid bod cynnydd wedi'i wneud o ran defnyddio arwyddion gweledol. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau hefyd yn adlewyrchu barn rhanddeiliaid a amlinellwyd yn adran 5.14 - h.y. bod enghreifftiau o arferion da, sy'n ymwneud ag argaeledd cyffredinol gwasanaethau Cymraeg, yn bodoli, ond prin ydynt o ran niferoedd ac maent yn anghyson.

11. Dylanwad COVID-19

- 11.1 Cynhaliwyd y gwaith ymchwil ar gyfer y gwerthusiad yn ystod ail don y pandemig COVID-19. Er bod llawer o'r gwaith ymchwil ar gyfer y gwerthusiad yn canolbwyntio ar ddylanwad *Mwy na geiriau* yn ystod y cyfnod cyn y pandemig, newidiodd COVID-19 y sefyllfa o ran lle roedd gwasanaethau'n cael eu defnyddio a'u darparu. Efallai y bydd rhai o'r newidiadau hyn yn cael dylanwad hirdymor neu barhaol o bosibl ar y ffordd y mae'r sector yn gweithredu ac felly ar wasanaethau Cymraeg a nodau *Mwy na geiriau* yn yr hirdymor o bosibl. O'r herwydd, rydym o'r farn ei bod yn briodol adolygu dylanwad COVID-19 yng nghyd-destun *Mwy na geiriau* fel thema benodol. Roedd y cyfweiliadau ar gyfer rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau yn cynnwys cwestiwn am newidiadau mewn gwasanaethau Cymraeg yng nghyd-destun COVID-19 (gweler Atodiadau 1 a 2), a chyflwynir eu barn yn y bennod hon. Mae rhai pwyntiau hefyd wedi'u cynnwys ym mhennod 8 (gweler adrannau 8.18 ac 8.23).
- 11.2 Nododd rhai rhanddeiliaid, yn eu barn hwy, fod y ffocws a roddwyd yn flaenorol ar y Gymraeg wedi lleihau mewn rhai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig. Mewn sawl achos efallai fod hyn yn ddealladwy wrth i flaenoriaethau symud tuag at wasanaethau iechyd a gofal brys. Cafodd rhai aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys rhai swyddogion Cymraeg, eu hadleoli yn ystod 2020 i gynorthwyo cydweithwyr i ddelio â'r heriau ychwanegol a ddeilliodd o'r pandemig. Nododd y rhanddeiliaid fod hyn yn golygu bod llai o staff â sgiliau Cymraeg ar gael i ddarparu a chefnogi gwasanaethau Cymraeg mewn rhai meysydd.
- 11.3 Nododd rhai rhanddeiliaid fod y pandemig COVID-19 yn dangos ymhellach bwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg, yn enwedig i unigolion sy'n agored i niwed. Roedd cyfyngiadau COVID-19 yn atal perthnasau neu ffrindiau rhag mynd gyda'r unigolion hyn i leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol neu ymweld â nhw, ac felly eu gallu i gefnogi'r cyfathrebu neu gynnig geiriau o gysur ac anogaeth yn y Gymraeg. Mae'r safbwyntiau hyn ac enghreifftiau eraill a nodwyd yn ystod gwaith maes y gwerthusiad (gweler profiad defnyddiwr gwasanaeth - enghraifft 12) yn amlinellu'r rôl bwysig y mae ffrindiau ac aelodau o'r teulu sy'n siarad Cymraeg yn ei

chwarae wrth lenwi'r bwlch rhwng anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau a'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

- 11.4 Felly roedd y canfyddiad bod blaenoriaeth is yn cael ei rhoi i'r Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn yn adlewyrchu, ym marn y rhanddeiliaid hyn, ddiffyg dealltwriaeth barhaus o'r angen am wasanaethau Cymraeg ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol a phwysigrwydd hynny.

Profiad defnyddiwr gwasanaeth: enghraifft 12

Mae'r enghraifft ganlynol yn ymwneud â phrofiad defnyddiwr gwasanaeth y bu'n rhaid iddi fynd â'i mam oedrannus i adran Damweiniau ac Achosion Brys ar ôl damwain. Cymraeg oedd iaith gyntaf y fam, ac roedd hi'n tueddu i fod yn ddryslyd ar brydiau. Cyn y pandemig COVID-19, byddai'r defnyddiwr gwasanaeth wedi mynd gyda'i mam ar ymweliadau ysbyty o'r math hwn. Roedd hyn yn sicrhau y gallai helpu ei mam i egluro ei sefyllfa a'i chyflwr yn Saesneg i staff nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg. Fe wnaeth hefyd ei galluogi i ddehongli neu gyfieithu gwybodaeth a ddarparwyd gan y staff meddygol o'r Saesneg i'r Gymraeg i'w mam lle bo angen.

Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ni lwyddodd i fynd gyda'i mam i'r ysbyty y tro hwn. O'r herwydd, nid oedd yn gwybod a oedd gan ei mam fynediad at staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg ac felly a allai ei mam esbonio'r hyn a ddigwyddodd neu ddeall yr hyn a ddywedwyd wrthi. Creodd hyn sefyllfa bryderus iawn i'r teulu cyfan.

Nododd y defnyddiwr gwasanaeth ei bod yn gwerthfawrogi mai'r flaenoriaeth oedd darparu'r driniaeth feddygol sy'n ofynnol i sicrhau bod ei mam yn gwella. Fodd bynnag, yn ei barn hi, roedd y cyfyngiadau yn amlygu ymhellach yr angen am fwy o wasanaethau Cymraeg i bobl agored i niwed sy'n siarad Cymraeg, fel ei mam.

- 11.5 Fodd bynnag, mae rhai o'r newidiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i COVID-19 wedi creu cyfleoedd yn ogystal â heriau mewn perthynas â darparu gwasanaethau Cymraeg. Darparodd rhanddeiliaid enghreifftiau o sut y gellid gwnaed mwy o ddefnydd o dechnoleg ar-lein, neu sut y gellid gwneud hynny, er mwyn gwella mynediad at wybodaeth a gwella cyfathrebu. Roedd

y rhain yn cynnwys cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant Cymraeg ar-lein i weithwyr ar draws y sector. Fe wnaeth hyn greu cyfleoedd hefyd i ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaethau ar-lein a thrwy hynny gyrraedd mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n medru'r Gymraeg ar draws ardal ddaearyddol ehangach.

- 11.6 Nododd y rhanddeiliaid fod y pandemig, i lawer o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol, wedi cynyddu eu cyfrifoldebau o ran cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol. Canlyniad hyn mewn sawl achos yw lleihau eu gallu uniongyrchol i ganolbwyntio ar feysydd eraill o ddatblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys o bosibl datblygiad eu sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir am yr holl ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector. Nododd un nyrs gofal dwys yn Ne Cymru mewn [erthygl newyddion](#) ei bod yn teimlo bod dysgu Cymraeg yn rhywbeth pleserus a oedd yn symud ei meddwl yn ystod cyfnod a oedd fel arall wedi bod yn straen mawr (Nation.Cymru, 2021). Roedd y nyrs hefyd yn defnyddio'r sgiliau Cymraeg a ddysgodd yn y gweithle wrth siarad â chydweithwyr a chleifion.
- 11.7 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir uchod yn cynnig cipolwg ar rai o'r heriau a'r cyfleoedd y mae COVID-19 wedi'u creu mewn perthynas â chyflenwi a defnyddio gwasanaethau Cymraeg. Casglwyd data'r gwerthusiad a lywiodd y canfyddiadau hyn ar adeg pan oedd cyfyngiadau COVID-19 yn dal i fod ar waith. O'r herwydd, maent yn cynnig cipolwg ar y cyfleoedd a'r cyfyngiadau a oedd yn bodoli bryd hynny. Bydd angen rhagor o ymchwil yn y dyfodol i adolygu'r effaith tymor hwy y mae COVID-19 wedi'i chael ar yr angen am wasanaethau Cymraeg ar draws y sector ac argaeledd y gwasanaethau hynny.

12. Casgliadau

- 12.1 Mae'r nodau a'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn fframwaith olynol *Mwy na geiriau* wedi darparu cyfeiriad ac arweiniad strategol i alluogi'r sector iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i gynyddu a chryfhau ei wasanaethau Cymraeg. I lawer o randdeiliaid ar draws y sector, roedd amcanion y fframwaith yn darparu sylfaen ar gyfer paratoi i gyflwyno Safonau'r Gymraeg.

Meysydd o gynnydd

- 12.2 Mae'r gwerthusiad hwn wedi adolygu'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r saith amcan a gynhwysir yn fframwaith olynol *Mwy na geiriau*. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod cynnydd da wedi'i gyflawni wrth sicrhau bod *Mwy na geiriau* a'r Cynnig Rhagweithiol yn cael eu cydnabod a bod cyfeiriad uniongyrchol atynt mewn dogfennau strategol iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol a lleol. Cyflawnwyd cynnydd hefyd mewn perthynas ag amcan y fframwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sector. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys cynnydd yn y defnydd o arwyddion gweledol i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â chynnydd yn y ffocws a roddir ar gyflwyno staff newydd i'r Cynnig Rhagweithiol a phwysigrwyd darpariaeth Gymraeg yn ystod rhaglenni sefydlu.
- 12.3 Mae tystiolaeth hefyd bod peth cynnydd wedi'i gyflawni mewn perthynas â'r amcan data a mapio yn y fframwaith. Casglwyd mwy o ddata'n ymwneud â sgiliau Cymraeg y gweithlu ar draws y mwyafrif o fyrddau iechyd. Fodd bynnag, erys bylchau yn y data, yn enwedig ym maes gofal sylfaenol. Hefyd ychydig iawn o enghreifftiau sy'n bodoli sy'n dangos sut y defnyddiwyd y data hyn i lywio cynlluniau datblygu'r gweithlu a chyflenwi gwasanaethau.
- 12.4 Gwnaed cynnydd sylweddol mewn perthynas ag amcan addysg broffesiynol y fframwaith. Mae'r buddsoddiad mewn datblygu a darparu cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol Cymraeg ar draws SAU yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, nododd y rhanddeiliaid nad yw hyn o reidrwydd wedi dod law yn llaw â chynnydd sylweddol yn y galw am gyrsiau Cymraeg a'r nifer sy'n manteisio ar gyrsiau o'r fath.

- 12.5 Gwnaed cynnydd hefyd o ran y gofynion a roddir ar ddarparwyr addysg i ganolbwyntio ar y Gymraeg yn y cyrsiau y maent yn eu darparu. Mae hyn i'w weld yn y contract diweddaraf a gyhoeddwyd gan AaGIC i ddarparwyr addysg a gomisiynwyd i ddarparu cyrsiau gofal iechyd, sy'n cynnwys gofyniad i ddarparwyr gynnwys yn eu cyrsiau sesiynau sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o bwysigrwydd y Gymraeg mewn gwasanaethau gofal iechyd.
- 12.6 Mae'r theori newid sy'n sail i'r gwerthusiad hwn yn nodi rhagdybiaethau y mae cyflawni amcanion *Mwy na geiriau* yn llwyddiannus yn dibynnu arnynt. Un o'r rhagdybiaethau hyn yw bod y fframwaith yn annog mwy o gefnogaeth i'r Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol. Awgryma'r dystiolaeth, drwy roi egwyddor y Cynnig Rhagweithiol wrth wraidd ei nodau strategol, bod *Mwy na geiriau* wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu gwasanaeth Cymraeg nid yn unig fel hawl neu ddewis, ond hefyd fel angen hollbwysig i lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg. Er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod ymwybyddiaeth o'r angen am wasanaethau Cymraeg wedi cynyddu, mae'n ymddangos bod llai o gynnydd wedi'i gyflawni ar draws y mwyafrif o leoliadau mewn perthynas â chyflawni'r Cynnig Rhagweithiol.
- 12.7 Awgryma canfyddiadau'r gwerthusiad fod mwy o gynnydd wedi'i wneud o bosibl gyda nodau strategol *Mwy na geiriau* yn y maes gofal cymdeithasol nag yn y sector iechyd. Gellid priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith bod Safonau'r Gymraeg mewn gofal cymdeithasol wedi'u cyflwyno'n gynharach nag yn y maes gofal iechyd. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu y gellid priodoli hyn i rôl GCC, sydd wedi cymryd perchnogaeth o nodau *Mwy na geiriau* a dangos arweinyddiaeth gref o ran cefnogi'r sector gofal cymdeithasol i roi'r nodau hyn ar waith. Efallai y bydd cyfleoedd i'r sector iechyd ddysgu o rai o'r arferion a welir ym maes gofal cymdeithasol. Efallai y bydd rôl hefyd i *Mwy na geiriau* gefnogi sefydliadau unigol i rannu arferion cadarnhaol yn ehangach ar draws y sector cyfan.

Bylchau o ran cyflawniad

- 12.8 Awgryma tystiolaeth y gwerthusiad, er bod *Mwy na geiriau* wedi gosod cyfeiriad strategol clir ac wedi codi ymwybyddiaeth o'r angen am gynnydd

parhaus yn y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir, bod bylchau o hyd yn y cynnydd. Er bod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â phob un o saith amcan y strategaeth, ni ellir ystyried bod yr un o'r amcanion wedi'i gyflawni'n llawn eto.

- 12.9 Dengys y gwerthusiad fod diffyg cydraddoldeb yn parhau rhwng darpariaeth Gymraeg a Saesneg mewn sawl maes o'r sector, ac mae rhai cynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i gwestiynu hyfywedd darparu gwasanaethau Cymraeg. Awgryma'r dystiolaeth fod *Mwy na geiriau* wedi ennill calonnau a meddyliau llawer o lunwyr polisïau yn ogystal ag ymarferwyr rheng flaen ar lefel strategol, ond mae'r her sy'n gysylltiedig â newid diwylliant a meddylfryd wedi bod yn fwy ar y lefel cynllunio gweithredol.
- 12.10 Un o ragdybiaethau sylfaenol y theori newid yw er mwyn cyflawni amcanion strategol *Mwy na geiriau*, rhaid gweithredu nodau, sy'n adlewyrchu'r amcanion hyn o fewn cynlluniau cyflawni cenedlaethol a lleol. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau sy'n dangos sut mae cynlluniau iaith Cymraeg wedi'u gweithredu'n gynhwysfawr ac yn gyson ac yn aml maent wedi'u cyfyngu i bocedi o arfer da.
- 12.11 Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw at nifer o heriau ymarferol wrth weithredu nodau *Mwy na geiriau*. Mae'r rhain yn cynnwys anghysondeb rhwng deall pam mae angen cynyddu darpariaeth Gymraeg a dealltwriaeth o sut i wneud hyn yn effeithiol yn ymarferol. Maent hefyd yn cynnwys canfyddiad ymhlith rhai rheolwyr ar lefel weithredol bod gweithredu'r amcanion yn rhy anodd. Nodwyd bod diffyg amser ac adnoddau yn her. Ymhlith yr heriau eraill roedd amharodrwydd i gynnwys sgiliau Cymraeg mewn swydd-ddisgrifiadau ac amharodrwydd ymhlith rhai staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau. O ganlyniad, mae'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir mewn llawer o leoliadau wedi bod yn fwy cyfyngedig nag y dylent fod, ac mae'r sgiliau Cymraeg sydd ar gael mewn rhai rhannau o'r gweithlu yn parhau i gael eu tanddefnyddio.
- 12.12 Mewn rhai rhannau o'r sector canolbwyntiwyd ar ddarparu cyfleoedd hyfforddiant iaith Gymraeg i weithwyr. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod llawer o'r hyfforddiant hwn wedi'i anelu at weithwyr nad oes ganddynt

unrhyw sgiliau Cymraeg neu sgiliau Cymraeg cyfyngedig iawn ac nad ydynt wedi'u targedu'n strategol tuag at feysydd penodol o'r gweithlu lle y nodwyd yr angen mwyaf am ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Nid yw'r hyfforddiant wedi bod yn rhan o gynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr unigol fel arfer. Ychydig iawn o enghreifftiau a ganfuwyd yn ystod y gwerthusiad o'r sgiliau a ddatblygwyd yn cael eu rhoi ar waith yn y gweithle. Awgryma'r dystiolaeth mai ychydig iawn o'r hyfforddiant a ddarparwyd sydd wedi'i anelu at gefnogi'r rhai sydd eisoes â sgiliau Cymraeg ond nad oes hyder ganddynt i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn y gweithle, er bod nifer o weithwyr ar draws y sector yn y categori hwn.

- 12.13 Mae'r ffaith bod data anghyson a chyfyngedig ar gael am anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethu a gallu'r gweithlu yn y Gymraeg wedi gosod cyfyngiadau pellach ar y graddau y gellir cynllunio a gweithredu gwasanaethau Cymraeg. Gwelir diffyg systemau digidol sy'n gydnaws â dwyieithrwydd hefyd, sy'n cyfyngu ar y graddau y gellir rhannu unrhyw ddata sy'n ymwneud â'r Gymraeg neu a gofnodir yn Gymraeg o fewn a rhwng gwasanaethau a lleoliadau.
- 12.14 Canfu'r gwerthusiad fod y cynnydd mewn perthynas â chyflawni nodau *Mwy na geiriau* yn gyfyngedig iawn mewn rhai rhannau o'r sector e.e. mewn rhai lleoliadau gofal ysbyty arbenigol a gofal sylfaenol. Er y nodwyd enghreifftiau lle roedd gwasanaethau Cymraeg ar gael mewn rhai lleoliadau gofal sylfaenol, megis practisau meddygon teulu mewn ardaloedd lle y siaredir Cymraeg yn bennaf, roedd y rhain i'w priodoli i gyd-ddigwyddiad bod staff yn y lleoliadau hyn yn siaradwyr Cymraeg, yn hytrach nag unrhyw gynllun bwriadol i annog a chefnogi darparu gwasanaethau Cymraeg. Awgryma'r dystiolaeth fod y diffyg cynnydd tuag at gyflawni nodau *Mwy na geiriau* mewn gofal sylfaenol annibynnol o bosibl yn adlewyrchiad o'r ffaith nad yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i'r lleoliadau hyn ar hyn o bryd. O ystyried mai gofal sylfaenol yw'r pwynt cyswllt cyntaf, ac yn aml yr unig bwynt cyswllt, sydd gan lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau â'r sector, mae'r diffyg cynnydd tuag at gyflawni nodau'r fframwaith yn y maes hwn yn golygu bod mwyafrif y defnyddwyr gwasanaethau eto i weld manteision y cynnydd a wnaed tuag at gynyddu darpariaeth Gymraeg.

- 12.15 Yn gyffredinol, dengys y canfyddiadau mai un o'r prif rwystrau i gyflawni nodau ac amcanion strategol *Mwy na geiriau* fu diffyg sgiliau Cymraeg yn ogystal â thanddefnyddio'r sgiliau Cymraeg sydd eisoes yn bodoli ymysg y gweithlu. Rhwystr arall fu dealltwriaeth, yn enwedig ar lefel cyfarwyddwyr gweithredol neu reolwyr, o sut i roi camau ar waith sy'n cefnogi ymhellach gyflenwi gwasanaethau Cymraeg. Mae diffyg data cyson yn ymwneud â sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ogystal ag anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau unigol, ynghyd â diffyg systemau a phrosesau i gasglu a rhannu'r data hyn, wedi bod yn rhwystrau pellach i gyflawni hyn.

Rôl Mwy na geiriau yn y dyfodol

- 12.16 Awgryma'r dystiolaeth fod *Mwy na geiriau* wedi cael ei hybu'n sylweddol gan weinidogion Llywodraeth Cymru pan lansiwyd y strategaeth i ddechrau yn 2012. Fodd bynnag, mae cefnogaeth o ran hybu'r strategaeth ar y lefel hon wedi dod yn llai amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae'r graddau y mae gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi dylanwadu neu annog y sector yn uniongyrchol i symud ymlaen tuag at gyflawni amcanion y strategaeth hefyd wedi lleihau i ryw raddau dros amser.
- 12.17 Ymddengys hefyd fod y ddealltwriaeth o rôl *Mwy na geiriau* a'r angen am y strategaeth hefyd wedi dod yn llai eglur ymhlith rhai darparwyr gwasanaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae cyflwyno strategaethau, polisiau ac arferion cenedlaethol eraill ers i fframwaith olynol *Mwy na geiriau* cael ei chyflwyno yn debygol o fod wedi cyfrannu at y lleihad hwn mewn eglurder. Er enghraifft, mae Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd yn 2016 yn y maes gofal cymdeithasol ac yn 2019 yn y maes gofal iechyd, bellach yn cael eu hystyried yn brif ffactor sy'n ysgogi cyflwyno a hybu gwasanaethau Cymraeg ar draws y sector. Mewn enghreifftiau eraill, ers ei sefydlu yn 2018 un o gyfrifoldebau AaGIC fu cryfhau'r ffocws ar y Gymraeg mewn addysg, hyfforddiant a datblygiad y gweithlu yn y sector iechyd. Hefyd, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar yn gyfrifol am gefnogi systemau gofal iechyd digidol gan gynnwys rhannu gwybodaeth, a fydd yn cael dylanwad pwysig ar y ffordd y mae gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei chasglu a'i rhannu ar draws y sector. Mae'r datblygiadau hyn wedi newid y cyd-destun ehangach y mae *Mwy na geiriau*

yn gweithredu ynddo, ac mae angen ystyried y rhain o fewn ei rôl a'i bwrpas yn y dyfodol.

- 12.18 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn dangos bod angen parhaus am *Mwy na geiriau*, er efallai y bydd angen newid ei rôl a'i ffocws ar ôl cyflwyno Safonau'r Gymraeg ac oherwydd natur yr heriau sy'n parhau. Yn aml, roedd y rhanddeiliaid yn ystyried mai rôl bresennol *Mwy na geiriau* oedd tynnu sylw at yr angen a'r galw am ddarpariaeth Gymraeg, cefnogi'r sector i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu'r angen hwn a rhaeadru tystiolaeth o arferion gorau mewn ffordd sy'n ategu fframwaith rheoliadol Safonau'r Gymraeg: yr abwyd sy'n cyd-fynd â'r ffon. Yn hynny o beth, er bod Safonau'r Gymraeg a *Mwy na geiriau* yn gweithio tuag at yr un nod, mae ganddynt rolau gwahanol ond rolau sy'n ategu ei gilydd wrth wneud hynny. Rydym felly'n dod i'r casgliad bod lle i'r ddau a bod angen am y ddau. O ran y dyfodol, yr her i *Mwy na geiriau* yw sicrhau eglurder o ran ei rôl a sut y gall gefnogi'r sector i ehangu ei wasanaethau Cymraeg mewn ffordd sy'n ategu yn hytrach na dyblygu Safonau'r Gymraeg. Mae'r un peth yn wir hefyd am rôl *Mwy na geiriau* mewn perthynas â Cymraeg 2050, strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- 12.19 Yn seiliedig ar y dystiolaeth, rydym yn argymhell y dylai *Mwy na geiriau* ystyried canolbwyntio ar ei rôl fel galluogwr, gan gefnogi'r sector i roi nodau strategol y fframwaith ar waith. Gellid cyflawni hyn drwy roi arweiniad ymarferol i'r sector yn ymwneud â chamau gweithredu penodol ac enghreifftiau o arferion da lle mae cynlluniau i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg wedi'u gweithredu'n llwyddiannus. Byddai hyn yn gofyn i *Mwy na geiriau* newid o fod yn fframwaith strategol y gall y sector ei ddefnyddio i gynllunio darpariaeth, i gynllun gweithredu i arwain y sector tuag at weithredu arferion sy'n cefnogi darparu gwasanaethau Cymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol.
- 12.20 Gallai *Mwy na geiriau* ganolbwyntio mwy ar gydnabod a chymeradwyo arferion da a chyflawni rôl eirioli sy'n cyfathrebu i'r sector sut y gall arferion gorau arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Byddai hyn yn sicrhau ymhellach bod ei rôl yn cael ei chydabod fel un dra gwahanol i Safonau'r Gymraeg, ond sydd hefyd â chysylltiad agos â nhw.

- 12.21 Bydd cynyddu a chryfhau darpariaeth Gymraeg ar draws y sector yn gofyn am newid diwylliant pellach. Mae hyn yn debygol o gymryd peth amser i'w gyflawni, ond mae'r daith yn dechrau gydag ennill calonnau a meddyliau llunwyr polisïau a darparwyr gwasanaethau. Mae *Mwy na geiriau* eisoes wedi dangos ei allu i gyflawni'r rôl hon dros y blynyddoedd diwethaf. Dylai cadw'r ffocws hwn felly barhau i fod yn un o nodau *Mwy na geiriau*.
- 12.22 Mae rôl barhaus i *Mwy na geiriau* o ran cefnogi darpariaeth Gymraeg mewn rhannau o'r sector lle nad yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol - gwasanaethau gofal sylfaenol annibynnol yn fwyaf penodol. Gallai *Mwy na geiriau* barhau i gynnig arweiniad yn y maes hwn o'r sector drwy barhau i ddangos pam mae angen canolbwyntio ar y Gymraeg a chynnig arweiniad ar sut y gellir cyflawni hyn.
- 12.23 Mae gan *Mwy na geiriau* hefyd rôl o ran cefnogi'r sector ymhellach i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa ym maes iechedd a gofal cymdeithasol sy'n gofyn am, neu'n elwa o sgiliau Cymraeg.
- 12.24 Arweiniodd y pandemig COVID-19 at newidiadau angenrheidiol i'r ffordd y mae iechedd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu yng Nghymru, gan gynnwys mwy o ddefnydd o lwyfannau digidol. Mae mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol wedi cyflwyno heriau a chyfleoedd o ran y ffordd y mae defnyddwyr gwasanaethau yn ymgysylltu â gwasanaethau, yn ogystal â'r ffordd y mae'r rhai sy'n gweithio yn y sector yn cael gafael ar wybodaeth a hyfforddiant. Mae angen sicrhau bod y sector yn parhau i fod yn ymwybodol o'r risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer darpariaeth Gymraeg sy'n cyd-fynd â newidiadau mewn cyflenwi gwasanaethau fel y rhain. O ran y dyfodol, efallai bod gan *Mwy na geiriau* rôl o ran darparu cymorth ac arweiniad sy'n sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan sylfaenol o newidiadau ehangach i gyflenwi gwasanaethau. Efallai fod gan *Mwy na geiriau* hefyd rôl o ran adolygu'r effeithiau tymor hwy y gall y pandemig COVID-19 eu cael ar anghenion yn ymwneud â gwasanaethau Cymraeg a darpariaeth Gymraeg.
- 12.25 Mae'r adrannau uchod yn darparu argymhellion lefel uchel ar gyfeiriad *Mwy na geiriau* yn y dyfodol. Mae'r rhain yn arwain at y gyfres o argymhellion mwy penodol a nodir isod:

Argymhellion

1. Gan fod *Mwy na geiriau* bellach yn frand cydnabyddedig a chryf, mae angen i Lywodraeth Cymru barhau i'w ddefnyddio ynghyd â'r egwyddorion sylfaenol y mae'n eu cynrychioli, i gefnogi ac arwain y ffordd o ran cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.
2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod *Mwy na geiriau* yn esblygu o fod yn fframwaith strategol ar gyfer darpariaeth Gymraeg i fod yn fframwaith gweithredu tair i bum mlynedd sy'n cynnig arweiniad ymarferol i gefnogi'r sector i gynyddu ei ddefnydd o'r Gymraeg a symud ymlaen ymhellach tuag at gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol.
3. O fewn ei rôl yn cynnig arweiniad ymarferol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod *Mwy na geiriau* yn ymgymryd â rôl galluogwr, gan gefnogi'r sector i roi arferion ar waith sy'n cadw at Safonau'r Gymraeg.
4. Dylai darparwyr gwasanaethau ar draws y sector barhau i gofnodi enghreifftiau o arferion sy'n ymwneud â'r ffordd y maent yn defnyddio'r Gymraeg ar draws y sector. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu porth canolog ar-lein i hwyluso'r broses o gasglu'r enghreifftiau hyn a'u gwneud yn hygyrch ar draws y sector cyfan. Dylai enghreifftiau o weithredu'n llwyddiannus bolisïau ac arferion sy'n cefnogi'r Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol, y mae Llywodraeth Cymru hefyd yn eu hystyried yn arfer da, gael eu cydnabod a'u dathlu ymhellach o dan y brand *Mwy na geiriau*.
5. Gan ddefnyddio egwyddorion *Mwy na geiriau*, dylai Llywodraeth Cymru barhau â'r ymdrechion i ennill calonnau a meddyliau drwy ganolbwyntio ar y Cynnig Rhagweithiol a defnyddio enghreifftiau sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaethau i ddangos yr angen am ddarpariaeth Gymraeg. Bydd hyn yn ffactor allweddol o ran cefnogi'r newid mewn diwylliant sy'n ofynnol i annog cynnydd parhaus mewn darpariaeth Gymraeg.

6. Dylai byrddau iechyd unigol a chyirff cynrychioliadol eraill y sector benodi aelod o'u huwch dîm / tîm gweithredol fel hyrwyddwr *Mwy na geiriau*. Byddai'r hyrwyddwyr hyn yn gyfrifol am annog a chefnogi gweithredu arferion sy'n cefnogi'r Gymraeg a chyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol yn eu lleoliadau.
7. Dylai Llywodraeth Cymru, o dan y brand *Mwy na geiriau*, roi pwyslais penodol ar alluogi arferion sy'n cefnogi'r Gymraeg i gael eu gweithredu mewn gofal sylfaenol, yn ogystal ag unrhyw feysydd eraill o'r sector lle nad yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol ar hyn o bryd.
8. Er bod Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gadw cofnod o sgiliau Cymraeg eu staff, dylai *Mwy na geiriau* roi pwyslais ar ei rôl yn arwain y sector i gasglu data cyson yn ymwneud ag anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau a defnyddio'r data hyn i fynd i'r afael â phrinder sgiliau Cymraeg. Gallai'r sector hefyd elwa o gymorth pellach yn ymwneud â sut y gellid defnyddio data a gesglir am gleifion a'r gweithlu i gynllunio'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu a chyflenwi gwasanaethau - a chanllawiau er mwyn rhoi'r cynlluniau hyn ar waith.
9. Mae angen i uwch gynrychiolwyr ar draws y sector fabwysiadu dull mwy strategol wedi'i dargedu tuag at ddysgu Cymraeg er mwyn sicrhau cynnydd sylweddol yng nghymhwysedd y gweithlu yn y Gymraeg, gan ganolbwyntio ar annog defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn enwedig ymysg y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg ond nad oes ganddynt yr hyder i wneud hynny.
10. Mae angen i lechyd a Gofal Digidol Cymru gefnogi'r gwaith o ddatblygu systemau TG sy'n ymgorffori dwyieithrwydd yn y cam dylunio a datblygu, yn enwedig systemau sy'n cofnodi gwybodaeth am ddewis iaith a sgiliau'r gweithlu.
11. Mae angen i swyddogion y Gymraeg, hyrwyddwyr y Gymraeg a chynrychiolwyr eraill ar draws y sector hybu ymhellach gyfleoedd gyrfa

ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg neu lle y byddai sgiliau o'r fath yn fantais. Gellid cyflawni hyn drwy hwyluso cysylltiadau agosach â phartneriaid eraill gan gynnwys Gyrfa Cymru i drefnu ymweliadau ag ysgolion a cholegau lle y gallai cyn-fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sydd bellach yn gweithio yn y sector amlinellu i fyfyrwyr beth yw manteision sgiliau Cymraeg i'w gyrfa.

12. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu rôl a phwrrpas Bwrdd Partneriaeth *Mwy na geiriau* yng nghyd-destun yr angen i gyflawni swyddogaeth graffu a chefnogi mewn perthynas â gweithredu polisïau'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Fel rhan o'r adolygiad hwn dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi cyfrifoldeb i'r Bwrdd Partneriaeth i barhau i gadw llygad manwl ar ddatblygiadau newydd mewn perthynas â'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar draws y sector. Byddai hyn yn cynnwys cynnig cefnogaeth ac arweiniad, lle bo angen, i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn llawn mewn unrhyw newidiadau cyffredinol o ran cyflenwi gwasanaethau sy'n digwydd ar draws y sector.
13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ail-lansio *Mwy na geiriau* i gyd-daro â dechrau tymor gweinyddu'r llywodraeth newydd. Gallai hyn gynnwys annog gweinidogion Llywodraeth Cymru i ddangos cefnogaeth gyhoeddus i *Mwy na geiriau* a chyfathrebu sut mae'n ategu Safonau'r Gymraeg. Byddai hyn yn rhoi cyfle i godi proffil *Mwy na geiriau* o fewn y sector a chyfleu bwriad a phwrrpas y fframwaith ar gyfer y dyfodol, gan ystyried y cyd-destun strategol a'r cyd-destun polisi newydd y bydd yn gweithredu ynddo.
14. Daw canfyddiadau'r gwerthusiad hwn i'r casgliad, er bod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â saith amcan *Mwy na geiriau*, ni ellir ystyried bod yr un ohonynt wedi'i gyflawni'n llawn eto. O'r herwydd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu gwerthusiad arall i adolygu'r cynnydd a wneir yn ystod y tair neu bedair blynedd nesaf. Dylai unrhyw werthusiad yn y dyfodol hefyd ganolbwyntio ar effaith barhaus / tymor

hwy COVID-19 ar yr angen am wasanaethau Cymraeg a gallu'r sector i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

15. Er mwyn cynorthwyo gyda gwerthusiadau yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru annog y sector i gasglu a rhannu gwybodaeth arferol a fyddai'n helpu i asesu cynnydd yn y dyfodol a mynd i'r afael â rhai o'r bylchau yn y data a ganfuwyd yn y gwerthusiad hwn. Gallai hyn gynnwys data ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau a manylion gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael ar draws lleoliadau - yn enwedig gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at grwpiau blaenoriaeth.

Cyfeiriadau

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC). (2020) *Cymru Iachach: Ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol* (AaGIC a GCC, 2020) Ar gael o: [Strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol - AaGIC \(Gig.Cymru\)](#)

BBC. (2021) [Dylai gofal iechyd meddwl 'ddim fod yn fater o lwc'](#).

Comisiynydd y Gymraeg (2019) Hyfforddiant Gofal Sylfaenol a'r Gymraeg. Caerdydd: Comisiynydd y Gymraeg

Cyngor Gofal Cymru (2014) [Sgiliau iaith Gymraeg eich gweithlu](#).

Cymdeithas Alzheimer Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg (2018) *Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg*. Caerdydd: Cymdeithas Alzheimer Cymru a Chomisiynydd iaith Cymraeg

Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC). (2019) Rhaglen Cymraeg Gwaith (Cam 2 - 2019/20) Gwerthusiad. Caerdydd: Gofal Cymdeithasol Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC). [Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol i Ofal Cymdeithasol yng Nghymru: Ein Cynllun Strategol 2017 - 2022](#). Caerdydd: Gofal Cymdeithasol Cymru.

Is-grŵp Iechyd Cymdeithas yr Iaith. (2020) *Arolwg o'r Gymraeg mewn gofal iechyd*. Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Llywodraeth Cymru (2016a) [Mwy Na Geiriau - Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019a) [Mwy na geiriau ... cynllun gweithredu 2019-2020. Caerdydd: Llywodraeth Cymru](#).

Llywodraeth Cymru (2019b) *Arolwg o'r Gymraeg mewn practisau meddygon teulu*. Heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru (2019c) Datganiad Ystadegol Cyntaf: [Meddygon Teulu yng Nghymru, ar 30 Medi 2018](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru a NHW Cymru (2019) [Fframwaith Cynllunio GIG Cymru](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2011). [Mesur iaith Gymraeg \(Cymru\) 2011](#).

Llywodraeth Cymru. (2012) *Mwy Na Geiriau - fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2014) [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014.](#)

Llywodraeth Cymru. (2015) [Safonau'r Gymraeg.](#)

Llywodraeth Cymru. (2015). [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015.](#)

Llywodraeth Cymru. (2015b) [Safonau Iechyd a Gofal.](#) Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2016) [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016.](#)

Llywodraeth Cymru. (2017a) *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2017b) [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.](#) Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2018a) [Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Chwyldro o'r tu mewn: Trawsnewid iechyd a gofal yng Nghymru.](#) Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2018b) [Cymru Iachach.](#) Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2018c). [Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022.](#)

Nation.Cymru. (2021) ['An enjoyable distraction during a difficult time': Nurse embraces Welsh lessons during Covid-19.](#)

Prys. C., Hodge, R., a Roberts, G. (2021) [A Critical Review of Language Policy and Legislation Governing Official Minority Language Use in Health and Social Care in Wales](#) *Minorités linguistiques et société / Linguistic Minorities and Society*, (15-16), 87–110.

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. (2019) [Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol\) \(Diwygiadau Amrywiol\) \(Cymru\) 2019.](#)

Ymchwil Arad ac Ymchwil OB3. (2020) [Gwerthusiad o Mwy na geiriau..., y fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19: Theori Newid \(TN\).](#) Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Atodiad 1: Cwestiynau cyfweld ar gyfer rhanddeiliaid

Nod y cyfweiliad fydd casglu barn rhanddeiliaid am y cynnydd yn ogystal â hwyluswyr a rhwystrau, a brofir ar draws y sector mewn perthynas â chyflawni amcanion *Mwy na geiriau* a gweithio tuag at gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol.

Trosolwg cyffredinol o'r cynnydd / cyfyngiadau:

- Faint o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni neu weithio tuag at Cynnig Rhagweithiol?
 - Beth yw'r prif ffactorau sydd wedi cefnogi unrhyw gynnydd tuag at gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol?
 - Beth yw'r prif rwystrau a allai fod wedi cyfyngu cynnydd tuag at gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol?
- Beth yw'r meysydd lle bu'r cynnydd mwyaf?
- Beth yw'r meysydd / agweddau lle bu'r cynnydd lleiaf?
- A yw'r meysydd hyn o gynnydd a/neu gyfyngiadau wedi bod yn fwy amlwg mewn rhannau / gwasanaethau penodol ar draws y sector?
 - Beth, yn eich barn chi, fu'r rheswm dros hyn?
- I ba raddau a sut mae bodolaeth strategaeth olynol *Mwy na geiriau* wedi dylanwadu ar unrhyw feysydd o gynnydd a gyflawnwyd?
 - A fyddai'r un cynnydd wedi'i wneud yn absenoldeb *Mwy na geiriau*? - esboniwch eich ateb.
- A yw profiad defnyddwyr gwasanaethau sy'n dymuno / angen cael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg wedi'i effeithio gan unrhyw newidiadau neu gynnydd a wnaed tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol?
 - **Os ydy** – ym mha ffordd?
 - Sut ydych chi'n gwybod hyn – a oes unrhyw wybodaeth / tystiolaeth sy'n ymwneud â hyn wedi'i chasglu?
 - **Os nac ydy** – pam ddim?

Polisiâu

- A yw nodau *Mwy na geiriau* wedi'u hadlewyrchu mewn polisiâu lleol (e.e. gweithlu, hyfforddiant, recriwtio, ymsefydlu a darparu gwasanaethau), ac os felly ym mha ffordd?
 - I ba raddau y mae strategaeth olynol *Mwy na geiriau* wedi dylanwadu ar hyn?
 - A yw'r cynlluniau hyn yn cynnwys cyfeiriad penodol at *Mwy na geiriau* a / neu'r Cynnig Rhagweithiol?

- A yw'r cynlluniau hyn yn cyfeirio at yr effaith y gall darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol eu cael ar ddefnyddwyr gwasanaethau?
- A oedd unrhyw rai o'r cynlluniau hyn wedi'u llywio gan ymchwil sy'n ymwneud â'r cysylltiad rhwng canlyniadau gofal o ansawdd uchel a gofal sy'n sensitif i anghenion iaith unigolion?

Arweinyddiaeth

- Beth fu'r agwedd gyffredinol a'r diwylliant ymhlith uwch gynrychiolwyr ar draws y sector mewn perthynas â'r Gymraeg a chefnogi amcanion *Mwy na geiriau*? Rhowch enghreifftiau lle bo hynny'n bosibl.
- A wnaeth unrhyw uwch gynrychiolwyr ar draws y sector gymryd rôl arweiniol mewn perthynas â'r Gymraeg a chefnogi amcanion *Mwy na geiriau*? Rhowch enghreifftiau lle bo hynny'n bosibl.
 - Pa wahaniaeth (os o gwbl) a gafodd hyn ar yr agwedd, diwylliant a'r ethos tuag at y Gymraeg ar draws rhannau eraill o'r bwrdd / ymddiriedolaeth iechyd?

Uwchsgilio'r gweithlu presennol

- A wnaeth y capasiti i ddefnyddio'r Gymraeg gynyddu ar draws y sector rhwng 2016 a 2019?
 - **Os do**— beth oedd y prif ffactorau a gyfrannodd at y cynnydd hwn (e.e. hyfforddiant, recriwtio)?
 - A oes unrhyw ddata neu dystiolaeth arall ar gael i ddangos hyn?
- A gynhyrchwyd Strategaethau Sgiliau Dwyieithog sy'n nodi anghenion iaith ar draws y bwrdd / ymddiriedolaeth iechyd?
 - **Os naddo** – pam?
 - **Os do** - a ddefnyddiwyd y rhain i gynllunio unrhyw uwchsgilio / hyfforddi yng Nghymru o fewn y gweithlu? - a yw'r strategaeth / strategaethau hyn yn cyfeirio'n benodol at *Mwy Na Geiriau* - a ydynt yn cyfeirio'n benodol at y Cynnig Rhagweithiol?
- A gafodd unrhyw hyfforddiant Cymraeg i staff ei gomisiynu rhwng 2016 a 2019?
 - **Os naddo** – pam ddim?
 - **Os do** – a gafodd natur / ffocws yr hyfforddiant hwn eu dylanwadu gan *Mwy na geiriau*, ac os felly, ym mha ffordd?
 - Beth oedd natur yr hyfforddiant hwn? E.e. ffurfiol / anffurfiol, pa lefel oedd yr hyfforddiant wedi'i anelu at: sylfaen, canolradd, uwch?

- A oedd yr hyfforddiant ar gael i staff ym mhob maes / gwasanaeth neu wedi'i dargedu at feysydd neu wasanaethau penodol?
- A oedd unrhyw hyfforddiant a chymorth ar gael i gefnogi gweithwyr a oedd yn gallu siarad Cymraeg i gael yr hyder i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle?
- A oedd comisiynu / ffocws / natur yr hyfforddiant wedi'i lywio gan y Strategaethau Sgiliau Dwyieithog?
- A oedd yr hyfforddiant yn cyfeirio'n benodol at y Cynnig Rhagweithiol?
 - **Os oedd** – a oes unrhyw enghreifftiau o arfer da?
 - **Os nac oedd** – beth oedd y prif resymau dros hyn?
- Yn eich barn chi, a wnaeth gallu'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg gynyddu o ganlyniad i'r hyfforddiant?
 - **Os naddo** – pam oedd hyn?
 - **Os do** – beth oedd y prif resymau dros hyn? – unrhyw enghreifftiau o arfer da?
 - A oes unrhyw ddata ar gael i ddangos hyn?
- A wnaeth ymwybyddiaeth o'r Cynnig Rhagweithiol gynyddu o ganlyniad i'r hyfforddiant hwn?
 - Beth sy'n eich arwain i ddweud hyn?
- A roddwyd y sgiliau Cymraeg, a ddatblygwyd drwy'r hyfforddiant, ar waith?
 - **Os do** – ym mha ffordd? Pa wahaniaeth a wnaeth hyn i ddarpariaeth gwasanaeth?
 - **Os naddo** – pam ddim?

Systemau a data

- A yw gallu ieithyddol Cymraeg staff ar draws y bwrdd iechyd wedi'i gofnodi o fewn yr ESR?
 - **Os na** – pam ddim?
 - **Os ydynt** – i ba raddau h.y. pa gyfran o sgiliau Cymraeg y gweithlu sydd wedi'u cofnodi ar yr ESR?
 - A ddefnyddiwyd y data hwn i gynllunio'r ddarpariaeth gwasanaeth, hyfforddiant neu recriwtio iaith Gymraeg, ac ati? – rhowch enghreifftiau lle bo hynny'n bosibl / yn berthnasol.
- A yw anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau wedi'u mapio / adolygu ar draws y sector?
 - **Os nac ydynt** – pam ddim?

- **Os ydynt** – sut cafodd y proffiliau hyn eu defnyddio i ddatblygu dealltwriaeth o'r galw / angen tebygol gan ddefnyddwyr gwasanaethau am wasanaethau Cymraeg? – rhowch fanylion
- I ba raddau y mae'r Gymraeg wedi'i phrif ffrydio mewn llwyfannau a systemau digidol?
 - **Os nad yw wedi gwneud hynny** – pam ddim?
 - **Os yw wedi gwneud hynny** – rhowch enghreifftiau o sut mae hyn wedi effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir i gleifion / defnyddwyr gwasanaethau.

Recriwtio ac ymsefydlu

- A ddefnyddiwyd Strategaethau Sgiliau Dwyieithog i lywio'r broses recriwtio ac ymsefydlu?
- A yw cyfeiriadau at yr iaith Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol wedi'u cynnwys fel rhan annatod o'r holl arferion recriwtio (e.e. disgrifiadau swydd) a phrosesau ymsefydlu staff?
 - **Os nac ydynt** – pam ddim?
 - **Os ydynt** – cynigiwch rhai enghreifftiau.

Hyrwyddo ac ymgysylltu

- A gafodd y logo 'Cymraeg Gwaith' ei hyrwyddo a'i ddefnyddio ymhlith staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol?
 - **Os naddo** – pam ddim?
 - **Os do** – ym mha ffordd?
- A oedd aelodau o staff a oedd yn gallu siarad neu'n dysgu Cymraeg yn barod i wisgo'r logo 'Cymraeg Gwaith'?
 - **Os nac oeddent** – pam ddim?

Sylwadau olaf

- (os nad wedi cyfeirio at rhain mewn cwestiynau cynharach) A oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud tuag at sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol yn rhan annatod o ddarparu gwasanaethau mewn gwahanol leoliadau ar draws y sector?
 - **Os nac oes** – pam ddim?
 - **Os oes** – beth oedd y rhain? – rhowch enghreifftiau.

Atodiad 2: Cwestiynau cyfweld ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'ch profiadau a'ch barn ar wasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yr ydych chi wedi'u defnyddio yn y pum mlynedd diwethaf. Bydd y safbwyntiau a fynegir gennych yn cyfrannu at ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed o dan '*Mwy na geiriau*', y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Caiff y wybodaeth a gesglir oddi wrthydd yn ystod y cyfweiliad ei gynnwys mewn adroddiadau a fydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ac o bosib mewn cyhoeddiadau a chyflwyniadau eraill gan Arad, OB3 a Llywodraeth Cymru. Mae eich cyfranogiad yn y gwerthusiad yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a phrofiadau yn bwysig er mewn llywio polisiau a fframweithiau yn y dyfodol.

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei chadw mewn fformat dienw ac ni fydd unrhyw adroddiad a gynhyrchir yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod chi fel cyfranogwr unigol.

Mae rhagor o fanylion yn ymwneud â'r gwerthusiad a'r ffordd rydym yn ymdrin â gwybodaeth a gesglir yn ogystal â manylion personol cyfranogwyr ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd a anfonwyd atoch ar e-bost wrth drefnu'r cyfweiliad hwn.

Ydych chi'n hapus i fwrw ymlaen â'r cyfweiliad hwn?

1. Beth yw eich profiad(au) o dderbyn / cael gafael ar wasanaethau iechyd a / neu ofal cymdeithasol yn y Gymraeg?
2. Pa wasanaethau iechyd a / neu ofal cymdeithasol ydych chi wedi'u defnyddio fwyaf yn ystod y pum mlynedd diwethaf (e.e. meddyg teulu a / neu ofalwyr)?
 - Pryd wnaethoch ddefnyddio'r gwasanaethau hyn diwethaf?
3. Pa iaith / ieithoedd (h.y. Cymraeg a / neu Saesneg) a ddefnyddiwyd pan gawsoch fynediad at / defnyddioch chi, gwahanol agweddau o'r gwasanaeth hwn?
 - e.e. yn y dderbynfa, ar y ffôn, mewn gwybodaeth ysgrifenedig chi'n ei derbyn, mewn sgwrsiau gydag ymarferwyr clinigol?
4. Pan wnaethoch chi gael mynediad at / ddefnyddio'r gwasanaeth(au) hyn:
 - a wnaethoch chi ofyn am wasanaeth / wybodaeth yn y Gymraeg?
 - cafodd gwasanaeth / gwybodaeth yn y Gymraeg ei gynnig i chi heb i chi ofyn amdano? Os na, ydych chi erioed wedi derbyn gwasanaeth yn Gymraeg heb i chi ofod gofyn amdano? Cynigwch manylion lle'n briodol.
 - a ofynnodd / nododd rhywun ym mha iaith yr hoffech dderbyn gwasanaeth?
 - ydych chi erioed wedi derbyn unrhyw wybodaeth yn Gymraeg gan y gwasanaethau hyn?
 - ddim yn siŵr?

5. Oes yna enghreifftiau penodol gennych o wasanaeth / gwybodaeth dda rydych wedi'i derbyn yn y Gymraeg? Oes yna enghreifftiau penodol gennych o wasanaeth / gwybodaeth wael rydych wedi'i derbyn o ran y Gymraeg e.e. lle'r oedd dim gwybodaeth Gymraeg ar gael a / neu na fu hi'n bosib i chi gael gwasanaeth yn y Gymraeg?
6. Os ydych wedi derbyn unrhyw wasanaeth(au) neu rannau o'r gwasanaeth(au) yn y Gymraeg, pa wahaniaeth wnaeth hyn i chi?
 - e.e. o ran pa mor gyfforddus oeddech chi yn defnyddio'r gwasanaeth, eich gallu i esbonio eich anghenion / rhywbeth arall / ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth?
7. Os nad ydych wedi derbyn unrhyw wasanaethau neu rannau o'r gwasanaeth yn y Gymraeg, pa wahaniaeth mae hyn yn ei wneud i chi / sut mae hyn yn gwneud i chi deimlo?

[Gofyn cwestiwn 8 dim ond os nad yw'r cyfwelydd wedi sôn am hyn yn barod]

8. Ydych chi wedi mynychu ysbyty yn y pum mlynedd ddiwethaf naill ai fel defnyddiwr gwasanaeth, ymwelydd neu i gefnogi defnyddiwr gwasanaeth arall?
 - Os ydych, a wnaethoch dderbyn unrhyw wybodaeth / wasanaethau yn y Gymraeg o'r ysbyty? Rhowch fanylion lle'n bosib / priodol os gwelwch yn dda. e.e. oedd gwybodaeth ar gael yn y Gymraeg yn y dderbynfa – posterï Cymraeg ar y wal – unrhyw wybodaeth arall ar gael yn y Gymraeg?
 - Oedd yna aelodau o staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg? Os oedd yna, pa aelodau staff oedd y rhain e.e staff yn y dderbynfa, staff clinigol, eraill?
 - Pa wahaniaeth wnaeth e i chi fod yna wybodaeth / gwasanaethau ar gael / ddim ar gael yn Gymraeg yn yr ysbyty?
9. Pan ydych yn defnyddio / mynychu gwasanaethau iechyd a / neu wasanaethau cymdeithasol yn gyffredinol, ydych chi wedi sylweddoli ar fathodynau aelodau staff sydd yn dweud eu bod yn siaradwyr Cymraeg?
 - Os ydych, ydi hyn yn rhoi hyder i chi ddefnyddio / siarad Cymraeg gyda'r bobl hyn? – Os na pam? Os ydi, ydych chi yn siarad Cymraeg gyda'r bobl hyn?
10. Yn gyffredinol, ydych chi'n teimlo'n hyderus neu'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg pan eich bod yn gwneud ymholiadau gyda / gwneud defnydd o wasanaethau iechyd a / neu wasanaethau cymdeithasol?
 - Oes yna rhai gwasanaethau ble rydych yn teimlo'n fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg nag eraill? Pam ydych yn dweud hyn / oes gennych enghreifftiau?
 - Oes yna rai gwasanaethau ble rydych yn teimlo'n llai hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg nag eraill? Pam ydych yn dweud hyn / oes gennych enghreifftiau?

11. Beth fyddai'n gwneud i chi deimlo'n fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg pan yn gwneud ymholiadau neu wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol?
12. Ydych chi wedi gweld newid dros y pum mlynedd diwethaf yn y nifer neu'r fath o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Os ydych, pa wahaniaethau ydych chi wedi eu gweld ac ym mha wasanaethau e.e. mewn unrhyw adrannau penodol neu ar draws gwasanaethau penodol?
13. Ydych chi wedi gweld newid yn argaeledd a / neu yn y ffordd mae gwasanaethau yn y Gymraeg yn cael eu darparu ers COVID?
- Os ydych chi rhowch fanylion lle'n bosib

Atodiad 3: Cwestiynau cyfweld ar gyfer myfyrwyr

Cwestiynau byddwn ni am eu gofyn i fyfyrwyr sydd wedi mynychu cyrsiau iechyd neu ofal cymdeithasol yn y Gymraeg, neu gyrsiau sydd yn cynnwys elfennau / modiwlau yn y Gymraeg:

Pwrrpas y cyfweliad

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'ch profiadau a'ch barn o astudio cyrsiau (neu ran o gyrsiau) iechyd neu ofal cymdeithasol yn y Gymraeg. Bydd y safbwyntiau a fynegir gennych yn cyfrannu at ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed o dan '*Mwy na geiriau*'.

Bydd y wybodaeth a roddwch yn ystod y cyfweliad yn cael ei chynnwys mewn adroddiadau a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru, ac o bosibl mewn cyhoeddiadau a chyflwyniadau eraill gan Arad, OB3 a Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn y cyfweliad yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig o ran llywio polisïau a fframweithiau yn y dyfodol.

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei chadw mewn fformat dienw ac ni fydd unrhyw adroddiad a gynhyrchir yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i'ch adnabod chi fel cyfranogwr unigol.

Mae rhagor o fanylion yn ymwneud a'r gwerthusiad a'r ffordd rydym yn ymdrin â gwybodaeth a gesglir yn ogystal â manylion personol cyfranogwyr ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd a anfonwyd atoch ar e-bost wrth drefnu'r cyfweliad hwn.

Ydych chi'n hapus i fwrw ymlaen â'r cyfweliad hwn?

- Pa gwrs ydych yn astudio?
- Pa elfennau o'r cwrs / cyrsiau hyn sy'n cael eu darparu yn y Gymraeg / sy'n ffocysu ar y Gymraeg?
- Pam wnaethoch chi ddewis y cwrs / cyrsiau / modiwl(au) Cymraeg hyn?
- I ba raddau, ac ym mha ffordd ydych chi'n meddwl bod astudio'r cwrs / cyrsiau / modiwl(au) hyn wedi eich paratoi ar gyfer defnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle? Pam ydych chi'n dweud hyn?
- Ym mha faes iechyd neu ofal cymdeithasol yr hoffech weithio ynddo ar ôl gorffen eich cwrs?
- I ba raddau ydych chi'n meddwl bod yna alw am sgiliau Cymraeg yn y maes / meysydd rydych chi'n bwriadu gweithio ynddynt? Pam ydych yn meddwl hynny?
- Pa wahaniaeth (os o gwbl) ydych chi'n rhagweld / yn meddwl y bydd eich gallu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle yn ei wneud i'ch gallu i gael

swydd yn y maes / meysydd yr hoffech weithio ynddynt? Pam ydych yn dweud hynny?

- Pa wahaniaeth (os o gwbl) ydych chi'n ei ragweld / yn meddwl y bydd gallu defnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle yn ei wneud i'ch gallu i gynnig gwell gwasanaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd / gofal cymdeithasol? Pam ydych yn dweud hynny?
- A oes gennych unrhyw sylwadau neu bwyntiau eraill yr hoffech eu cynnig?

Diolch am eich amser a'ch cyfraniad